

ECO'R WYDDFA


Rhif 182

MEDI 1992

Pris 25c.

LLENOR O'R FRO AR Y BRIG . . .

AR RAS DROS EI WLAD



Clywsom yn ystod y dyddiau diwethaf fod Gwynfor Owen o Lanrug wedi ei ddewis yn aelod o dîm rhedeg traws-gwlad Cymru. Yn naturiol rydym yn ei longyfarch ar ei gamp ac yn dymuno pob llwyddiant iddo yn ei yrfa ryngwladol.



Seremoni'r Coroni yn Eisteddfod Powys 1992

Llun: Tegwyn Roberts

Mae'n sicr fod nifer o drigolion bro'r Eco wedi llawenhau o glywed am lwyddiant MIRIAM LLYWELYN o Gwm-y-glo yn Eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth ym mis Awst. Fe'i dyfarnwyd yn fuddugol ar y gystadleuaeth cyfansoddi drama i'w pherfformio gan ferched. Enw ei drama oedd 'Pawb a'i Fys' ac mae'n ymwneud â hanes ofnau a gofidiau mam weddw oddefgar a'i dwy ferch hunanol.

Ond mewn gwirionedd, uchafbwynt blwyddyn arbennig o lwyddiannus i Miriam oedd ei llwyddiant yn y genedlaethol. Yn gynharach yn y flwyddyn profodd lwyddiannau eraill mewn dwy o brif eisteddfodau taleithiol Cymru. Cafodd y fedal ddrama yn Eisteddfod Môn, ac yn yr un eisteddfod cafodd y wobwr gyntaf am Stori Fer. Yna, yn Eisteddfod Powys, enillodd y Goron am gyfrol o ryddiaith ar y thema 'Amser'. Hanes hanner-hunangofianol yw'r gyfrol a dywed Miriam ei bod yn gobeithio ychwanegu ato yn y dyfodol ac efallai am ei gyhoeddi. Mae hefyd ar hyn o bryd yn gweithio ar gyfres o gomedïau ar gyfer Radio Cymru.

. . . AC UN ARALL MOR AGOS


Wrth longyfarch Miriam Llywelyn ar ei llwyddiant hoffem hefyd longyfarch bardd a llenor arall sydd a'i wreiddiau yn ddwfn yn yr ardal ar ei gamp yn yr Eisteddfod Genedlaethol, gan ategu'r geiriau sy'n ymddangos o dan newyddion Dinorwig yn y rhifyn hwn o'r Eco. Sôn yr ydym wrth gwrs am NORMAN CLOSS PARRY ddaeth mor agos at gipio'r Goron.

Amlygodd ei ddawn fel bardd ers rhai blynyddoedd bellach ac mae llawer wedi darogan llwyddiant iddo yn y blynyddoedd i ddod. Siawns na fydd yn rhaid disgwyl yn rhy hir cyn cael cydnabod prifardd arall sy'n hanu o'r fro i ddilyn ôl troed Selwyn Griffith.

PWYSIG

Mae'r cyfnod rhwng cyhoeddi'r rhifyn hwn a'r rhifyn nesaf yn FYRACH NA'R ARFER. Dylai deunydd RHIFYN HYDREF fod yn llaw'r golygyddion pentrefol ERBYN MEDI 21.

'VOSPER' LLANRUG



Ychydig iawn na wyddant am lun Curnow Vosper o Siân Owen yng Nghapel Salem gyda'r Diafol yn ystyried y byd yn llechwraidd o blygiadau ei siôl. Mae'n hoff lun yng Nghymru gyda llawer o'n cartrefi â chopi ohono.

Mae dylanwad ein capeli yn brysur wanhau a llawer ohonynt eisoes wedi cau eu drysau. Bydd nifer o gapeli ardal Llanrug yn ymuno erbyn dechrau'r flwyddyn nesaf gan adael adeiladau'n wag.

Yn ystod y tywydd braf (l!) dros yr haf efallai i rai ohonoch sylwi ar ŵr yn eistedd ger yr arhosfan bws ym Mhontrhythallt yn brysur gyda'i bensil a'i bapur. Mae'r arlunydd lleol hwn wedi bod wrthi yn peintio darlun o Gapel Pontrhythallt (un o'r capeli sydd i gau). Mae copïau o'r llun i'w cael ganddo (gydag arysgrif arbennig os dymunir hynny) mewn dau faint gwahanol. Gellir cael golwg fanwl ar y llun, trafod pa arysgrif sydd ei angen arnoch (ac archebu am bris rhesymol) trwy gysylltu â Chaernarfon 78647, neu drwy gysylltu â Mrs Enid W. Thomas, Dolwar, Rhes Rhythallt, Llanrug (Caernarfon 4778).

ECO'R WYDDFA

RHIF 182
MEDI 1992

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon.

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDDOL

IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
(Ffôn: Caernarfon 5649)

JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
(Ffôn: Llanberis 872390)

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(670115)

DYDDIADUR Y MIS

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen. (Llanberis 870394)

FFOTOGRAFFWYR

Gwynnaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug. (Caernarfon 4669)

Gwynnaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug. (Caernarfon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug. (Caernarfon 5605)

Iola Llewelyn Gruffudd, 17 Stad Ty
Hen, Waunfawr. (Waunfawr 599)

TREFNYDD GWERTHIANT

Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr
Orsaf, Llanrug. (Caernarfon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug. (Caernarfon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon
Bach, Llanrug. (Waunfawr 200)

TREFNYDD PLYGU

Sioned Roberts (Waunfawr 570)

GOHEBWYR PENTREFI

Dyma'r bobl i gysylltu â nhw
yn eich ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(Felinheli 670726)

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts,
Gerallt, Erw Wen (Caernarfon 3536)

CEUNANT:

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen

(Llanberis 871259)

DINORWIG:

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn
Rhuddallt (Caernarfon 76733)

NANT PERIS: Mrs Ann Fleming,
Dolwen, 8 Nant Ffynnon (871457)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (Waunfawr 570)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU, HYDREF 1

Deunydd i law'r

golygyddion perthnasol

NOS LUN

MEDI 21

os gwelwch yn dda

DYDDIADAU A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Miss Sioned Roberts, Pantafon, Waunfawr (Waunfawr 570)

RHIFYN	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU Â	RHIF FFÔN
HYDREF TACHWEDD RHAGFYR	HYDREF 1 HYDREF 29 TACHWEDD 26	PENISARWAUN CWM-Y-GLO LLANBERIS	Mrs ANN EVANS Mrs IRIS ROWLANDS Mr GWILYM EVANS	Llanberis 872481 Llanberis 872275 Llanberis 872034

Llythyrau

RALI DEDDF IAITH

Annwyl Ddarllenwyr,

Yn ystod y misoedd nesaf, mae'n debygol iawn y bydd y llywodraeth bresennol yn cyflwyno'i hargymhellion am Ddeddf iaith i'r Ty Cyffredin. Gwyddom o ddrafft fesur y Bwrdd iaith na fydd y Ddeddf hon yn newid fawr ddim ar ein hawliau fel siaradwyr Cymraeg. O gofio diffyg ymrwymiad y llywodraeth hon at y Gymraeg mae'n sicr y bydd y Ddeddf arfaethedig hyd yn oed yn fwy brau nag argymhellion cychwynol y Bwrdd iaith. Mae'n bwysig felly ein bod yn datgan yn gryf yn ystod y cyfnod hwn ein gwrthwynebiad i Ddeddf iaith wan a fydd yn cau'r drws ar unrhyw ddeddfwriaeth bellach am hydoedd. Yr hyn y mae Cymdeithas yr Iaith yn galw amdani yw Deddf iaith wedi ei seilio ar yr egwyddor canolog o ddwyieithrwydd naturiol — sy'n golygu fod pob dim sy'n cael ei anelu i'r gymuned yn naturiol yn y ddwy iaith.

Er mwyn dangos ffrynt unedig cryf ar y mater hwn mae Cymdeithas yr Iaith yn trefnu rali genedlaethol enfawr yng Nghaerdydd ar y 3ydd o Hydref; a'n bwriad y pryd hynny yw amgylchynnu y Swyddfa Gymreig i ddatgan ein gwrthwynebiad llwyr i'w cynlluniau niweidiol i'n hiaith. Apêl yw'r llythyr hwn felly amoch chi i fod yn bresennol. Ymysg y siaradwyr bydd Hywel Teifi Edwards, Emyr Llywelyn, Angharad Tomos ac Alun Llwyd.

Mae'n hanfodol ein bod yn mynd i Gaerdydd yn ein miloedd gan ddatgan trwy hynny na fyddwn yn fodlon y tro hwn ar yr agwedd sarhaus y mae'r llywodraeth a'r Bwrdd iaith wedi dangos at ein hawliau fel Cymry Cymraeg.

Yn gywir,

CEN LLWYD
MEINIR WILLIAMS
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Cefnogwch ein Hysbysebwy

AR WERTH GWELY DWBL 'Silent Night'

Newydd sbon, gwerth £300.
Matres gweddol galed.
Bargen am £175.
Ffôn: Caernarfon 77263

Papur Gwyn y Llywodraeth ar Addysg

Carem alw sylw eich darllenwyr at y papur gwyn ar addysg a gyhoeddwyd gan y llywodraeth yn ddiweddar ac y bwriedir ei droi'n ddeddf yn y dyfodol agos.

Byddai manylu ar ei gynnwys yn dwyn holl ofod yr Eco, felly rhaid crynhoi. OS GWEITHREDIR YR ARGYMHELLION SYDD YNDDO YNA FE WELIR DIWEDD AR Y GYFUNDREFN ADDYSG FEL Y GWYDDOM AMDANI. Bydd llywodraeth leol yn colli ei grym ac addysg yn uniongyrchol yng ngafael y llywodraeth a'r cwangos a benodir ganddi.

Does neb am ddatgan bod llywodraeth leol yn berffaith, ond y mae'n lleol, y mae'n ddemocrataidd, ac y mae'n atebol i bobl leol. Y mae hefyd yn cyflogi nifer fawr o weithwyr. Bwriad y llywodraeth yw lladd y ddemocratiaeth leol hon, a gobeithir y bydd ysgolion yn eithrio o ofal awdurdodau addysg. Y mae i hyn beryglon anhygoel. Bydd gan y llywodraeth yr hawl i gau ysgolion, i benderfynu faint o arian a gaiff pob ysgol, i ddiswyddo llywodraethwyr, i benodi eu llywodraethwyr eu hunain, i ymyrryd yn addysg a gweinyddiad ysgol. Yn ychwanegol bydd rhoi rhaw i eithrio yn rhwygo cymunedau, yn creu tensiynau rhwng pobl ac yn gadael effeithiau fydd yn parhau ymhell wedi i achos y gynnen ddiflannu.

Y mae canlyniadau cyfrifiad 1991 yn dangos cynnydd calonogol yn niferoedd y plant sy'n gallu'r Gymraeg. Canlyniad polisiâu'r awdurdodau a gwaith caled yn yr ysgolion yw hyn. Onid yw'n rhyfeddol bod y llywodraeth am ddileu'r gyfundrefn a achosodd y cynnydd? A yw'n poeni amdano ac wedi gobeithio am ddirywiad tybed?

Fe honna'r llywodraeth y bydd mwy o arian ar gael i'r ysgolion fydd yn eithrio o ofal yr awdurdodau. Sut y gall hyn fod? Ni fydd mwy o arian yn cael ei wario ar addysg. Rhaid felly mai dwyn oddi ar un i roi i'r llall a wneir. Gall y llywodraeth ddadlau mai arian sy ar hyn o bryd yn mynd ar fiwrocratiaeth leol (hynny yw swyddi i bobl leol) fydd yn cael ei roi i ysgolion, ond ni all cyfundrefn mor anferthol ag addysg fyw heb fiwrocratiaeth. Na, yr hyn a wneir yw canoli'r fiwrocratiaeth honno yng

Nghaerdydd — bydd y Swyddfa Gymreig yn orlawn o fandariniaid di wyneb yn gwneud penderfyniadau ar sail ffigyrau a fformiwlau heb wybod dim am amgylchiadau lleol. Ni fydd arian ychwanegol i ysgolion ond ar gael fel moryn i'r mul yn y flwyddyn gyntaf o eithrio. Cwtogi llym fydd hi wedyn.

Nid bwriadau addysgol sy gan y llywodraeth yn y papur gwyn ond bwriad gwleidyddol dogmatig.

Os gweithredir y papur gwyn bydd ar ben ar addysg deg i bawb, bydd ar ben ar bolisiau iaith goleuedig rhai o'r awdurdodau, bydd ar ben ar ysgolion bach y wlad, bydd ar ben ar ddemocratiaeth a hawl pobl leol i fynegi barn, ni fydd yna sicrwydd swydd i'r un athro nac athrawes na sicrwydd addysg gytbwys i'r un plentyn. Yr ysgrifennydd gwladol fydd yn rheoli, pwyllgorau heb eu hethol fydd yn rhedeg y siou, a gweision sifil, na fydd tymor yn y Swyddfa Gymreig yn ddim ond gris ar lwybr dyrchafiad, neu ddisgyniad iddyn nhw, fydd yn sicrhau gweithrediad y plisiau.

Y mae i hanes addysg, o ddyddiau Gruffudd Jones ymlaen, draddodiad nobl yng Nghymru, traddodiad o sicrhau addysg deg a chytbwys i bawb. Y mae'r llywodraeth bresennol a'i bryd ar ddinistrio'r cyfan. RIENI CYMRU, CODWCH EICH LLAIS YN ERBYN YR ANFADWCH HWN CYN IDDI FYND YN RHY HWYR.

ELFYN PRITCHARD (Cadeirydd)
ELISABETH DAVIES (Ysgrifennydd)
CYMDEITHAS Y GYMRAEG MEWN
ADDYSG

Gwobrau Datblygu Artistiaid 1992

Annwyl Olygydd,

Mae Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru, ynghyd â Gwasanaethau Cwmni'r Co-op yng Ngogledd Cymru yn awyddus iawn i glywed gan bersonau anabl a diddordeb yn y celfyddydau gweledol, i gymryd rhan yn y cynllun llwyddiannus hwn eto eleni.

Bydd grantiau ariannol gwerth £300, ynghyd â thystysgrifau, yn cael eu cyflwyno i bobl ag anabledd

am eu gwaith celf neu grefft yn ystod mis Tachwedd 1992.

Yr hyn oll sydd angen ei wneud i ymgeisio yw cwblhau ffurflen gais a pharatoi dau ddarn o waith i'w asesu.

Am ragor o fanylion cysylltwch â: Yvonne Lyn Griffiths, Swyddog Celf a Phobl Anabl, Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru, 10 Ty Cae Ffynnon, Bangor, Gwynedd LL57 1Er neu Ffoniwch Bangor (0248) 353248.

POBL Y CYRION gan DEIO

Dyma dymor y gwyliau, i'r rhan fwyaf ohonom beth bynnag, wedi mynd a dod am flwyddyn arall. Gobeithio ichwi fwynhau'r seibiant pa le bynnag y bu'r egwyl honno. Ond wedyn, mae'n drist fod mwyfwy o aelodau cymdeithas y dyddiau hyn yn gorfod ymgodymu gyda chodi'r bore heb unlle i fynd i weithio heblaw am y gwaith beunyddiol o chwilio'n ddyfal am rywbeth i'w wneud er mwyn ennill a chadw hunanbarch. Ni allaf ond gobeithio y daw tro ar fyd, a hynny'n fuan i'r anffodusion hyn.

Erbyn hyn cynhaliwyd y ddwy 'Eisteddfod' — yr un anifeiliaid a'r un i'r anifeiliaid sydd i fod i feddu ar reswm. Ymhen blwyddyn, wrth gws, cwta wyth niwrnod fydd rhwng y ddwy — dim ond digon o gyfle i drigolion y maes carafanio fynd adref i ymolchi, gwagio'r Elsan, sbriwsio fymryn a dychwelyd am 'ffics' arall flynyddol o ddiwylliant.

Ond tybed faint o ddiwylliant y mae rhywun yn ei gael, neu'n ddymuno 'i gael mewn gwyliau o'r fath? Os nad ydych yn cystadlu, a chofier mai lleiafrif bychan iawn yw nifer y cystadleuwyr yn y ddwy wyl, yna tybiaf mai ychydig iawn o ddiddordeb sydd wir ym mhrif ddiwylliant y sioe neu'r steddffod. Pa faint o'r gynulleidfa ar faes Llanellwedd sy'n gwyllo'r beirniadu ar fuwch a dafa a cheffyl neu'n wir pa faint o'r bobl hynny a dalodd £5 am fynediad i'r maes yn Aberystwyth a oedd â'r diddordeb lleiaf yn yr hyn a oedd yn mynd ymlaen ar y llwyfan? Yn wir, ystrydeb bellach yw honni mai cenedl y 'monkey run' ydym yn treulio wythnos yn cerdded o amgylch pabell amryliw heb ystyried o gwbl mynd i fewn i'r cyfryw syrcau yn y babell.

Na'n wir, ni allaf ond credu mai cymdeithasu sy'n bwysig mewn steddffod a sioe. Pobl sy'n gwneud gŵyl a mynd yno i gyfarfod ac i sgwsio gyda ffrindiau a chydabod y mae rhywun onide ac nid mynd i weld a fydd tarw A yn curo tarw B neu gôr Cerdd Dant S yn drech na chôr Cerdd Dant T. Wedi'r cyfan, clywir y dyfarniad ar hynny ar y radio neu'r teledu neu'n sicr, gellir ei ddarllen yn y papur dyddiol trannoeth.

Y dyddiau hyn clywir fod gan y Gwyliau mawr ddyletswydd a chyfrifoldeb i edrych ar ôl a chynorthwyo'r gwyliau llai. Dim o gwbl yn fy marn i. Ni welaf unrhyw gysylltiad rhwng Eisteddfod Gwaun Gynfi neu Eisteddfod Bentrref Llanrug a'r Eisteddfod Genedlaethol

ar wahân i'r ffaith fod ambell i unigolyn yma ac acw'n bwrw'i brentisiaeth gystadlu yn yr eisteddfod leol. A oes cysylltiad agos wedyn cyd-rhwng Sioe Gaernarfon, Primin Menai â'r Gynhadledd bedair niwrnod flynyddol yn Llanellwedd? Na, choelia'i fawr!

Ofnaf mai defnyddio'r cystadleuwyr a wna'r mwyafrif a minnau yn un o'r mwyafrif y tro hwn gan deithio i fan canolog bob blwyddyn ar ddiwedd Gorffennaf ac i fannau gwahanol yng Nghymru ar ddechrau Awst i gyfarfod pobl eraill sy'n rhannu'r un diddordebau ac na cheffais sgws â hwy ers blwyddyn yn ôl. A chymryd y bydd iechyd yn caniatáu edrychaf ymlaen am barhâd o'r drefn hon am flynyddoedd eto — nifer bychan yn cadw at brif bwrpas y gwyliau gyda'r gweddill ohonom ar y cyrion yn trin a thrafod popeth dan haul gan fynegi ambell i sylw wrth basio am yr hyn a ddigwyddodd yn dilyn y cloriannu fymryn ynghynt.

Un rhyfeddod bach arall wrth eich gadael. Sawl un ohonom sydd wedi cael copi o'r *Cyfansoddiadau* eleni ac o'r nifer sydd wedi derbyn copi faint sydd wedi trafferthu i ddarllen heb sôn am geisio deall yr Awdl a'r Bryddest? Peidiwch a phryderu dim os y bu ichwi ateb yn gadarnhaol i'r ddau gwestiwn oherwydd mae gennyf deimlad ym mên fy esgryn mai ychydig iawn iawn sydd yn trafferthu i geisio deall unrhyw Awdl neu Bryddest ac mai llithro i fod yn bobl y cyrion ydym yn rhagor!

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646

OSMOND SHAW
DEINIOLEN

GWERTHU
- TRWSIO
★ Teledu
★ Fideo
★ Offer Trydan
Gwasanaeth
Ffôn 24 awr
LLANBERIS 870545

Colofn

Nawdd Cymdeithasol

POBL IFANC YN GADAEI YR YSGOL
Os ydych newydd adael yr ysgol, neu yn riant i un sydd wedi gadael yn ddiweddar, fe all y wybodaeth isod fod o help i chwi.

Pan mae rhywun o dan 18 oed, newydd adael yr ysgol, ac heb waith i fynd iddo fe ddylai gofrestru yn y Swyddfa Gyrfaoedd leol er mwyn cael gwaith, neu i gael mynd ar Gynllun Hyfforddi Ieuencid.

Fel rheol ni all rhywun 16 neu 17 oed hawlio Cymhorthdal Incwm (Income Support) oherwydd fod ganddynt hawl i le ar un o'r cynlluniau uchod, ond mae'n bosib ei hawlio gan berson ifanc sy'n anabl, yn wael, yn feichiog, yn riant sengl neu'n gofalu am rhywun gwael neu anabl. Mae rhieni rhai pobl ifanc yn deilwng i estyniad yn y cyfnod y maent yn deilwng i Fudd-dâl Plant drostynt.

Os ydych yn 18 oed ac heb waith, fe ddylech arwyddo yn eich Swyddfa Budd-dâl Diweithdra, ond mae'n anhebyg y bydd taliad yn cael ei wneud tan fis Medi. Fe ddylai'r Budd-dâl Plant barhau tan yr adeg hyn, ond byddai'n darod yn gynharach pe bai'r mab neu'r ferch yn cyrraedd 19 mlwydd oed.

Os yw rhywun yn 19 oed yr adeg mae'r ysgol yn darod fe all fod yn deilwng i hawlio Cymhorthdal Incwm o ddechrau gwyliau'r haf.

Dim ond braslun a roddir yma o'r amodau sylfaenol, felly os nad ydyw'ch amgylchiadau chwi yn disgyn o fewn y rhai uchod, neu os ydych angen cyngor pellach a hyn, neu ar unrhyw fater Nawdd Cymdeithasol arall, ffoniwch Linell Ddi-dâl Gymraeg Nawdd Cymdeithasol, yn rhad ac am ddim, ar **0800 289011**.

ANTUR PADARN

CHWILIO AM

SWYDDOG DATBLYGU

Mewn cyfarfod o Antur Padarn a gynhaliwyd yn Yr Institiwt, Llanrug, ar nos lau, Awst 27, adroddwyd bod Awdurdod Datblygu Cymru yn barod i gyflogi person i swydd Swyddog Datblygu. Swydd am 15 awr yr wythnos am chwe mis fydd hon ac fe ddylai pawb sydd â diddordeb mewn ceisio amdani anfon manylion amdanynt eu hunaint i swyddfa yr Awdurdod Datblygu Cymru yn Llys y Bont, Parc Menai, Bangor.

Yn yr un cyfarfod roedd dau swyddog o Gyngor Dosbarth Arfon yn bresennol, sef Dewi Hughes a Brynmor Hughes. Pwrpas eu presenoldeb oedd trafod sut oedd modd i'r Antur a'r Cyngor weithio gyda'i gilydd er lles Dyffryn Padarn. Mewn canlyniad fe benderfynwyd symud ymlaen yn ddiymdroi i drefnu cyfarfod rhwng Cyngor Arfon, Cyngor Sir Gwynedd a'r Awdurdod Datblygu i drafod cynnwys rhaglen waith sydd wedi cael ei baratoi gan Antur Padarn.

Er bod yr adroddiad fel canlyniad i'r holiadur a ddosbarthwyd gan yr Antur wedi ei gwblhau mae problem ynglŷn â gyhoeddi, sef prinder arian. O ganlyniad fe benderfynwyd ceisio am nawdd ariannol er mwyn sicrhau y gwelwn gyhoeddi yr adroddiad yn y dyfodol agos.

Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Antur ar nos lau, Hydref 8, am 7 o'r gloch yn Angorfa, Stryd y Ffynnon, Llanberis. Fel arfer mae croeso i unrhyw un fynychu cyfarfodydd Antur Padarn ac fel arfer rydym yn awyddus i groesawu aelodau newydd.

CABS LLANRUG



C'fon 5951

Prisiau cystadleuol
Gwaith contract
pell ac agos

CARPEDI GLÂN!

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf
modern, diweddaraf, sydd
ar gael. Am fanylion
cysylltwch â

TEGID

PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 291
Hefyd ail-osod carpedi

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd

DEINIOLEN

Llanberis 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

CARTREF HENOED



Caernarfon
(0286) 4652

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Felinheli 670726

Merched y Wawr: Cynhelir taith gerdded noddedig y pwyllgor ar nos Wener, Medi 4, am 6.30, gan gychwyn yn Llwyn Eithin. Croeso i unrhyw aelod ymuno ar y daith. Parti Clychau'r Grug fydd yn diddanu yn Noson Agoriadol y tymor 1992-93, yn Neuadd yr Ysgol Gynradd, nos Fercher, Medi 9, am 7.30. Croeso i aelodau hen a newydd.

Llwyddiant Cerddorol: Llongyfarchiadau i Eleri Robinson a Meilyr Emrys am lwyddo mewn arholiad piano yn ddiweddar o dan nawdd y Bwrdd Arholi Brenhinol.

Cylch Meithrin: Yng nghyfarfod blynyddol y Cylch Meithrin a gynhaliwyd yn ddiweddar, etholwyd y canlynol fel swyddogion — Llywydd: Jennifer Roberts; Islywydd: Iola Jones; Ysgrifennydd: Siân Harris; Is-ysgrifennydd: Nerys Pritchard; Trysorydd: Ellen Jones; Is-drysorydd: Sheil Foulkes. Rhoddwyd gair o ddiolch i Joyce Gaffey ar ddiwedd ei thymor fel cynorthwyr-wraig, a dymunwyd yn dda iddi i'r dyfodol.

Urdd: Bu nifer o blant y Gangen yn cymeryd rhan ym Mabolgampau'r Sir, ym Mangor, yn ddiweddar a chafodd y canlynol eu lleoli — Naid hir dan 10: 2, Mark Williams; taflu pêl: 6, Susan Thomas; naid hir dan 12: 3, Emma Burnand; tîm ras cyfnewid: 1, Owain Siôn, Jonathan Jones, Mark Williams, Dewi Roberts. Diolch i Mary Lloyd Jones am ei chymorth.

Priodi yn Awstralia: Ddydd Sadwrn, 27 Mehefin, yng Nghapel

Annibynwyr Adeilade, De Awstralia, priodwyd Dr Meirion Wyn Jones, mab Hefin ac Awena Jones, 7 Stad Eryri, â Georgina Ann Foster, merch Mr a Mrs Ian Foster, Adeilade. Gweinyddwyd gan y Parch. Trevor Lowrie. Y forwyn oedd Melissa Woodrooffe (cyfneither y briodferch) a'r gwas oedd Gareth Wyn Jones (brawd y priodfab). Y macwy oedd James Stewart (nai y briodferch). Cynhaliwyd y wledd briodas yng Ngwesty'r Colonial. Treuliodd y pâr ifanc eu mis mêl ar Ynysoedd Fiji. Y maent am gartrefu ym Mangor, lle mae Meirion yn feddyg yn Ysbyty Gwynedd. Dymunir pob bendith a llwyddiant i'r ddau yn eu bywyd newydd.

Diolchiadau: Dymuna Meinir, 4 Tan y Cae, ddiolch yn fawr i bawb am eu dymuniadau da drwy gerdyn a galwadau ffôn.

Cydymdeimlo: Yn ystod mis Awst bu farw Mr David Oliver Owen, 13 Cremlyn. Estynnir pob cydymdeimlad â'r teulu yn eu profedigaeth.

Casgliad Ymgyrch y Galon: Diolch i'r canlynol, fel aelodau o Ferched y Wawr, am fynd o dŷ i dŷ i gasglu er budd y Gymdeithas: Delyth Williams, Rita Williams, Eirlys Sharpe, Glenys Griffiths a Nora Parry. Cyfanswm y casgliad oedd £78.02.

Noson Gymdeithasol: Nos Lun, Medi 14, am 7 o'r gloch yn Festri'r Cysegr, cynhelir noson gymdeithasol dan ofal ieuenctid gofalaeth Bethania, Siloam, Caeathro a'r Cysegr. Bydd eitemau gan ieuenctid o'r pedair eglwys ac i ddilyn bydd cyfle am sgwrs dros

baned. Yn y cyfarfod fe wneir casgliad at Apêl Brasil. Croeso cynnes i bawb.

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i blant yr ardal a fu yn llwyddiannus yn eu arholiadau yn ystod yr haf. Mae'n bleser o'r mwyaf clywed am llwyddiant ieuenctid y pentref. Dymunir pob llwyddiant iddynt i gyd yn yr ysgol, coleg neu mewn gwaith yn y dyfodol.

Yn gwella: Mae'n braf gallu cyhoeddi bod dau o ieuenctid y pentref yn gwella wedi cyfnod ir yn yr ysbyty. Erbyn hyn mae Dafydd Llewelyn yn gwella ar ôl ei ddamwain ddifrifol ac mae'n braf gweld Eurwen yn cael dod adref ar ôl ei chyfnod yn Ysbyty Gwynedd.

Dymunir adferiad llwyr a buan i Mr Stanley Griffith yn dilyn y drawiad ar ei galon yn ddiweddar.

Diolch: Dymuna Mrs Eurwen Owen a'r teulu, 20 Cremlyn, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd a'u cydymdeimlad â hwy yn eu profedigaeth. Cyflwynwyd rhodd ariannol tuag Gronfa Nyrsus Cymunedol Y Felinheli.

Gwobrau mewn Sioeau Amaethyddol: Llongyfarchiadau i nifer o amaethwyr yr ardal ar eu llwyddiant yn arddangos eu anifeiliaid mewn gwahanol sioeau — o'r Sioe Frenhinol i'r sioeau lleol — yn ystod yr haf.

Y Neuadd — enillwyr Clwb 200 mis Gorffennaf — £20: Mrs M. Roberts, Gwynfryn (167); £10: Mrs L. Jones, 6 Stad Eryri (78); £5: R. E. Hughes, Coed Belyn (122); S. Roberts, Darwin (105); J. Jones, 5 Bro Rhos (186); O. M. Jones, Isfryn, Saron (202); R. Parry, 4 Rhos Lan (34); W. Ll. Williams, 8 Stad Eryri (1); R. Ll. Jones, 5 Y Ddôl (126); C. Williams, Cefn Gwyn (51). Mis Awst — £20: Gwynfor Morris, Treflys (196); £10: Angharad Price, 5 Tan-y-ffordd (170); £5: Olwen Jones, 12 Bro Rhos (11); Glenys Griffith, Llwyn Eithin (142); Gwilym H. Williams, 2 Bryn Hyfryd (75); Myrna Owen, Camlan (117); Bessie Elis, 15 Cremlyn (24); Jean Hughes, Nefyn (83); Rhian Bardsley, 3 Stad Eryri (106); Michael Elis, 9 Stad Eryri (178).



Ysgol Gynradd: Yng nghwmni eu rhieni, disgyblion Blwyddyn 6 oedd yn gyfrifol am y gwasanaeth diwedd y flwyddyn ysgol. Cyflwynodd y Parch. W. R. Williams wobrau i dri disgybl am waith arbennig yn ystod y flwyddyn, sef Nia Watkin Jones, Matthew Garnett a Bethan Fôn Jones. Yn ystod y gwasanaeth cyflwynodd Mrs Mair Read, cadeirydd y llywodraethwyr, siec i Miss Gwenno Pritchard fel

cydnabyddiaeth o'i gwaith a'i gwasanaeth tra yn athrawes yn yr Ysgol.

Yn ystod wythnosau olaf y tymor bu 28 o blant blwyddyn 6 yn derbyn hyfforddiant cwrs beicio. Braf yw nodi bod pob un wedi bod yn llwyddiannus yn cwblhau y cwrs, ac wedi derbyn Tystysgrif Cymhwyster Beicio, dan nawdd y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau.



Mrs Mary Lloyd Jones a'r plant a fu ym Mabolgampau'r Sir.

DAVID CLOUGH

Ynysoedd

WAUNFAWR

Ffôn: 282

Paentio a Addurno
Gwaith Atgyweirio
'Estimates' am ddim

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.

YSGOL YRRU OFALUS

- * Gwasanaeth 7 diwrnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol

D

L

PRITCHARD

43 Glanffynnon

LLANRUG

CAERNARFON 5112

Cymeradwyir gan yr Adran
Drafnidiaeth



THE SEIONT MANOR HOTEL

LLANRUG

Ffôn: 673366

Y safon uchaf am brisiau rhesymol iawn.
I glywed mwy Ffoniwch 673366 a gofynnwch am Maggie

Swper rhamantus i ddau

Cinio hamddenol

Sgwrs hefo ffrindiau dros baned o goffi

Brecwast, cinio neu swper busnes

Parti dathlu

Cinio Dydd Sul i'r teulu

Gwledd brodas fythgofiadwy

Sauna, nofio, ystafell ffitrwydd

Ymlacio ym mar y llyfrgell

GAIR O ROMANIA

Sibiu, Romania. Gorffennaf 13

Annwyl ffrindiau,

Yn ystod y tri mis diwethaf cefais gyfle i deithio o gwmpas Romania a gweld ardaloedd newydd a chyfarfod pobl newydd. Wrth deithio o le i le ar drên neu fws mae golygfeydd gwych i'w gweld. Yn ystod yr wythnosau diwethaf yma yr wyf wedi rhyfeddu wrth weld ffermwyr yn casglu'r cynhaeaf efo pladur, caib a phicfforch, ac yna'n llwytho'r cwbl mewn tas i'w gludo'n ôl efo ceffyl a chert. Does dim golwg o dractor na pheiriant torri gwair yn rhai o ardaloedd gwledig yma.

Daw llawer o'r ffermwyr â'u cynnyrch i'w werthu yn y farchnad gyda'r nos, ac mae'r twmpathau bresych, tatws, nionod a thomatos yn werth eu gweld. Ambell dro fe welir ciw hir o bobl, ac o fynd i fusnesa fe welir rhyw ddanteithion prin fel bananas ac apricots.

Cawsom symud o'r gwesty i fflat yn ystod y mis diwethaf, ac mae hynny wedi bod yn braf iawn. Er hynny, rwyf wedi sylweddoli o'r newydd cymaint o wahaniaeth sydd rhwng bywyd y bobl yma a'n bywyd ni yn y gorllewin. Rydan ni'n dibynnu cymaint ar bethau materol, a'n bywyd yn llawn o bethau parod a chyfleus.

Yr wyf nawr yn paratoi at ddod adref, ac mae'r tri mis diwethaf yn dechrau ymddangos fel breuddwyd yn barod. Mae tîm arall o wirfoddolwyr yn cyrraedd yr wythnos hon. Eu tasg nhw fydd parhau â'r gwaith y buom ni yn ceisio ei gyflawni, sef cynnig cymorth ymarferol i'r plant a'r gweithwyr yn y Cartref Plant yn Sibiu.

Rwy'n tybio y bydd y broses o newid y sefyllfa yn y cartrefi plant yma yn Romania yn un araf; ac wedi treulio tri mis yn gweithio yma yr wyf yn argyhoeddedig mai o gyfeiriad pobl Romania eu hunain y daw y newid. Mae yna rai ohonynt hwy yn awyddus i weld datblygiad yn y math o ofal a roddir i blant nad ydynt yn byw gyda'u teuluoedd. Y gobaith yw y cânt hwy rwydd hynt i gyflawni'r hyn sydd ei angen i wella sefyllfa'r plant yma.

Yr wyf wedi mwynhau'r cyfnod yma yn arw, ac er iddo fod yn anodd ar adegau mae'r profiad wedi bod yn werthfawr dros ben. Mi fydd yn chwith ffarwelio â'r plant a'r ffrindiau a wnes yma, ond ar yr un pryd bydd yn braf bod yn ôl gartref.

Cofion cynhesaf,
ANGHARAD WILLIAMS

(Erbyn hyn daeth Angharad adref o Romania. Croeso 'nôl, Angharad, a diolch yn fawr am y llythyrâu i'r Eco.)

RHODDION

£10: Teulu 16 Bro Rhuddallt, Llanrug; Mr W. A. Jones, Poole, Dorset.

£10: Er cof am Nain — Mrs K. Hughes, Llys Meredydd, Waunfawr, a fyddai yn edrych ymlaen yn fawr iawn am Eco'r Wyddfa bob mis — gan Iorwerth.

£5: Mr a Mrs H. Roberts, 2 Plas Tirion Terrace, Llanrug. C. Jones Evans, 3 Hafan Elan, Llanrug. Dic, Hefina a'r hogia, 8 Rhos Rug, Llanrug.

£2: gan John a Sioned Glyn, Garmon, Stad Tŷ Hen, Waunfawr.

MWY O RODDION AR
DUDALEN 19

Taflen Ddwylieithog Newydd ar gyfer Cynhalwyr

Mae Cymdeithas Genedlaethol y Cynhalwyr yng Nghymru newydd gyhoeddi taflen ddwyieithog cyntaf, 'Pwy Ydym Ni — Beth rydym yn ei Wneud', mewn ymdrech i ledaenu'r neges bod yna fudiad ar gael i ymgychu dros gynhalwyr a'u cefnogi.

Pobl yw cynhalwyr sy'n gofalu am berthnasau neu ffrindiau sydd angen cymorth oherwydd anabledd, salwch neu henaint.

Amcanion y Gymdeithas yw:

- ★ annog cynhalwyr i gydnabod eu anghenion eu hunain;
- ★ datblygu cefnogaeth briodol ar gyfer cynhalwyr;
- ★ darparu gwybodaeth a chyngor i gynhalwyr;
- ★ dod ag anghenion cynhalwyr at sylw'r llywodraeth a llunwyr polisi eraill.

Nid yw'r mwyafrif o'r 290,000 o gynhalwyr sy yng Nghymru yn ymwybodol eu bod yn gynhalwyr nac yn sylweddoli bod yna gymdeithas ar gael i'w cefnogi.

Mae copïau o'r daflen a manylion pellach ar gael oddi wrth Margaret Knight, Swyddog Datblygu, Cymdeithas Genedlaethol y Cynhalwyr yng Nghymru, Llys Ifor, Heol Crescent, Caerffili, Morgannwg Ganol CF8 1XL.

DRAENOG

'Roedd dwy o athrawon llanw yr ardal yn sgwrsio un bore cyn mynd i'w dosbarthiadau. Sôn yr oedd un fel yr aeth i siopio i archfarchnad yn ddiweddar ac fel y bu iddi sylwi ar fased yn llawn nwyddau wrth y cownter talu. Gan dybio mai basged o nwyddau a'u prisiau wedi eu gostwng ydoedd aeth ati i chwilio am fargen. Wrthi'n bodio pinafal yr oedd pan ddaeth perchenog y fased a'i gwrthio at y cownter talu.

'Dwi'n siŵr dy fod wedi coch i at dy glustiau,' meddai'r athrawes arall.

'Dim hanner cymaint ag y byddi di os ei di i'r dosbarth hefo'r roller yna yn dy wallt,' meddai'r llall.

DIWEDD Y GÂN?

Yn ystod y misoedd diwethaf bu edrych ymlaen at weld Ysgol Newydd Penisarwaun yn agor a'r plant a'r gymuned yn dechrau cael defnyddio'r adeilad chwaethus.

Yn anffodus mae'r dyddiau pan oedd adeilad newydd yn cael ei ddodrefnu drwyddo draw â dodrefn newydd gan yr Awdurdod Addysg wedi peidio â bod. Rhaid symud pob dodrefnyn, sy'n ffit i'w symud, o'r hen ysgol i'r un newydd.

Nid yw'r piano sydd yn yr ysgol ar hyn o bryd mewn cyflwr da o gwbl ac, er pwyso llawer, ofer fu ymdrechion staff yr ysgol i gael yr Awdurdod i roi cymorth ariannol i brynu piano newydd. Mae eitem fel hon yn rhy fawr i'r ysgol dyllu i'w chyllideb flynyddol i'w phrynu. Ofnir mai'r unig ffordd felly i gael piano newydd i Ysgol Gymuned Penisarwaun yw trwy apelio am gyfraniadau ariannol gan gyfeillion. Addawodd Clerc presennol llywodraethwyr yr ysgol ofalu am agor cronfa arbennig a derbyn unrhyw roddion.

Felly, apeliwn yn daer iawn atoch, garedigion y gymuned, i anfon cyfraniad boed fach neu fawr at Nant Roberts, Arwel, Llanrug, Caernarfon. Gellir gwneud sicciau yn daladwy i 'Gronfa'r Piano, Ysgol Penisarwaun'.



Lyndsey Vaughan Parry o Ddeiniolen a enillodd yr ail wobwr yn y gystadleuaeth unawd cerdd dant 12-16 oed yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

CAPEL HEBRON

Nos Lun, Gorffennaf 17, 1958, fe gynhaliwyd gwasanaeth datgorffori Capel Hebron ar lethrau'r Wyddfa. 'Roedd yr oedfa olaf wedi bod yno ddydd Llun Diolchgarwch 1952. Ond, nos Fercher, 15 Gorffennaf 1992 — 34 o flynyddoedd wedi'r datgorffori — er gwaethaf cyflwr peryglus yr adeilad, 'roedd cynulleidfa unwaith eto yn canu emyn o fewn muriau Hebron. Aelodau o Gymdeithas Hanes Eco'r Wyddfa oedd y gynulleidfa ac arweiniwyd hwy mewn gwasanaeth byr gan y Parch. Gwynfor Williams. Cyn hynny cafwyd sgwrs ddifys tros ben ar hanes yr Achos ac am ardal Cwm Brwynog gan un o hen aelodau Hebron, Mr John David Williams.

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (93) 714043
neu
Caernarfon 4520
edau, nodwyddau
ac ati mewn stoc

GERAINT OWEN

Gosodwr
carpedi a phob
math o lorïau

**Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR**

Ffôn:
Waunfawr 552

Cefnogwch ein Hysbysebwy

Geni • Bedyddio • Iŵed • Priodas

✱ Aichlysur arbennig? ✱
✱ Anrheg unigryw? ✱
Beth am un o sampleri

**PWYTHAU
CAIN**

✱ Cynllunir pob samplwr
yn ôl dymuniad ac anghenion yr unigolyn.

✱ Hefyd gwniadau o bob math
gwned dillad, newidiadau, ffenni, a.y.y.b.

✱ Cysylltwch â
MARY ELLIOTT
Llanberis 872438

Cartref Newydd • Darnau o farddoniaeth

GERDDI GLASCOED

(Ger Capel Glascoed)
PENISARWAUN

I'ch gardd
fod ar ei orau
galwch heibio
neu ffoniwch
870453

BRYN (B & K Williams)

Hen Ysgol
Glanmoelyn

LLANRUG
Ffôn 77482 (dydd)
870793 (nos)

Gwneuthurwyr Ffenestri,
Drysau, Grisïau neu
unrhyw fath o gynnyrch
coed. Y coed meddal wedi
derbyn triniaeth arbennig i
wneud iddynt bara.

LLWYBRAU'R SÊR gan Y Gwalch

'Roedd gwynt oer yn chwythu tros Swydd Lincoln ar brynhawn o Dachwedd. Canfyddai ei ffordd i bob cornel o'r orsaf fomio a safai yng nghanol y gwastadedd. 'Roedd yn chwyrnellu o dan foliau'r awyrennau bomio mawr a safent yn rhesi fel anghenfilod yn y mwrlwlch.

O gwmpas y rhain yr oedd dynion yn neidio ar flaenau eu traed ac yn clepian eu breichiau, neu'n swatio yng nghysgod yr olwynion mawr. Yn y dwyrain roedd yna bentyrtau o gwmwlau uchel llwyd, ac yr oedd yr haul ar fin y gorwel arall a rhimyn o gwmwl ar draws ei wyneb rhuddgoch.

Toc, gwelodd y dynion res o oleuadau bychain yn cyrchu tuag atynt o'r gwyll, a gwyddent yr adeg honno fod eu gwyladiawriaeth yn y gwynt bron ar ben.

Danghosai'r goleuadau fod yna gerbydau, pob un yn cael ei yrru gan ferch, yn agosáu. Roeddent yn llawn o fodau a ddeuai yn effro yn y nos fel ystlymod, i wneud dinistr, ac i dreulio oriau maith ymysg y sêr. Bechgyn glandeg oeddent oll, na wyddent mai hon oedd eu siwrne olaf i unman heblaw tragwyddoldeb.

Roedd wynebau newydd yn ymddangos yn eu plith yn nosweithiol; wynebau a ddeuai yn ddidor i lenwi'r bylchau a adewid gan y rhai na welid mwy. Yn eu mysg hwy, cyfrifid dyn ychydig tros ei ugain oed yn hen wr.

Ychydig iawn oedd nifer yr hen ddwylo mewn casgliad fel hyn. Yr oeddent yn brin ar wyneb daear a gwybren, ac ymysg y prinaf yr oedd Jim Davies. Roedd ef wedi dwyn pedwar-ar-ddeg-ar-hugain o gyrchoedd ar y cyfandir. Edrychid arno yn y frawdoliaeth honno, nid un unig fel henwr, ond fel doethor a thad — bodolyn yn meddu ar rhyw gyfrin allu i oroesi pob timestl. Oherwydd hyn, ni fyddai byth yn brin o wirfoddolwyr i ymuno â'i griw. Yr unig un arall â chynifer o siwrneiai tros y dŵr i'w enw oedd Pinkerton y navigator; yr unig ddau a oedd ar ôl o'r criw cyntaf hwnnw a aeth i Cassel.

Roedd yna un arall hefyd a gafodd ei ran yn y bedydd tân; a hwnnw oedd y gunner ôl — 'Five Hundred'. Cymeriad diri-dano a gwamal oedd ef, a'i gorff bychan fel pe bai wedi ei deilwrio ar gyfer eistedd yn ei blygiad yn y turrett awr ar ôl awr. Byrdwn ei gân, pan fyddai yn cael cam oedd, fod ganddo bum can awr o brofiad mewn Ansons, ac y dylai gael gwell parch.

Disgynodd y bechgyn hyn gyferbyn â'r awyrennau, ac wedi i'r peilotiaid gael gair â'r gwyr ar y ddaear ynghylch cyflwr y peiriannau, dringasant i mewn iddynt. Roeddent newydd gael eu pryd arbennig o wŷ a chig moch — y Swper Olaf yn ôl y jargon, a gwaeddodd genethod y loriau eu paderau nosweithiol ar eu holau ar draws y gwynt, 'Good night boys. Good luck. See you in the morning'.

Wedi eistedd yn ei sedd ar y chwith, aeth Jim drwy'i ddefod arferol o roi prawf ar yr holl offer cymhleth a oedd o'i gwmpas yn y cockpit, ac wedi iddo gael ei foddhau, taniodd y pedair Merlin un ar ôl y llall, nes yr oedd y sŵn yn aflafar. Roedd y rhai ffyddlon rhynllyd yn dal islaw o hyd yn tynnu'r chocks ac yn cyfarwyddo'r peilotiaid i droi, bechgyn yn gweithio gyda dyfalbarhad am gyflog mwnci,

heb unedau na'r fraint o gael mynd ar streic. Diolchai'r peilotiaid amdanynt.

Roedd yn dechrau tywyllu pan blethodd Jim Davies fysedd ei law dde â bysedd llaw chwich y peiranydd i wthio throttles y Merlins yn agored led y pen i godi'r Lancaster i'r awyr, gyda'i llwyth marwol o fomiau ffrwydrol a thân, cannoedd o alwynio o betrol — a glycol, miloedd o ergydion o ammo. Defnydd ardderchog ar gyfer noson Guto Ffowc ogoneddus.

Codasant tros y coed i'r tawch uwchben, gan droi a dringo i ennill uchder ac ymuno â'r squadron eraill a oedd yn cyrraedd man y cyfarfod o wahanol feysydd ar hyd y wlad. Roedd y peiriannau'n dyrnu yn gysurus o bobtu, prawf digonol o ofalaeth y rhai a adawyd yn gwylio oddi ar y llawr. Wedi sicrhau eu hychder, llaciwyd y throttles a chroesasant yr arfordir.

Yr oeddent bellach dros Môr y Gogledd, ac yr oedd y lleuad yn ymddangos. Teithiai amryw o Lancasters eraill yn gyfochrog â goleuadau navigation y rhai mwyaf ansicr heb eto eu diffodd. Siglais 'Five' yn ôl a blaen yn ei swigen fach yn y gynffon, a phob newydd iddo yn hen wybodaeth i'r lleill. Yr oedd yn disgwyl caniatâd y peilot i glirio ei bedwar Browning drwy eu tanio i'r dŵr.

O'r tu blaen nesaodd y tŵr cymylau. Yr oeddent yn dwyn cyrch ar Hanover lle yr oedd ffatrioedd wedi eu lleoli. Wedi croesi'r Zuider Zee, dechreuasant chwilio'r ddaear aneglur am ffyrdd ac afonydd, ac yn arbennig am y marciau rheiny a oedd yn cael eu gollwng i'w cyfeirio gan y prif fomiwr ar y blaen. Dechreuodd gynnau islaw danio atynt, ac yr oedd yr adnoddau fflamllyd yn ymddangos yn araf yn dod i fyny atynt. Dalai'r prif fomiwr i roi cyfarwyddiadau iddynt yn gyson, ac yn y modd yma o fflam i fflam a sgytiad y ffrwydriadau y teithiasant nes cyrraedd cyffiniau Hanover.

Yn y swigen do gyda'i ynnau yr oedd llanc o Efrog. Yr oedd wedi bod ar siwrne fel hon unwaith o'r blaen, ond nid gyda Jim. Gwelsant ddarn o'r dref yn llosgi islaw tra gorchmynai'r prif fomiwr iddynt beidio â chymeryd sylw o'r flares glas ar y dde a gynheuyd yn un swydd i'w drysu. Siglai'r awyren yn gyson gan agosed y ffrwydriadau gan fod rhai o'r taflegrau yn agos iawn. Yr oeddent yn siarad â'u gilydd yn gyson.

O'r diwedd, ar ôl troi unwaith neu ddwy o gwmpas y goelcerth islaw, daeth eu twrn i fomio. Yr oedd yr anelwr yn barod ar ei fol yn y trwyn yn gwneud ei baratoadau, ac yn rhoi cyfarwyddiadau llywio i'r pilot mewn llais undonog. Yr oeddent yn awr yn gwneud eu rhedegfa derfynol ar y dref a'u nod arbennig. Bellach gorfodwyd Jim i ddal y Lancaster ar lwybr syth i roi cyfle i'r bomiwyr wneud ei waith yn gywir. Yn ystod y munudau rheiny yr oedd yn rhaid bod yn ddihiديو o'r magnelau islaw. Dyma'r cyfle gorau i'r rhain eu dinistrio, ac yn wir dyna a wnaethant

o'r bron, pan ddanliwyd hwy mewn pelydryn llydan o lif-olau oddi ar y llawr.

Tarawyd canol yr awyren yn egr gerllaw lle'r eisteddai'r peiranydd a'i ofalon. Anafwyd ef yn dost, ac ni allai fod o ddim budd bellach. Ac ar hynny roedd y bomiau wedi eu gollwng fel cadwyn, a chododd yr awyren ei thrwyn mewn gollyngod o gael gwared â'i baich. Roedd 'Five' yn y swigen ôl yn baldorddi am yr alanas islaw, ond cafodd achos i newid ei bregeth. Daeth awyrennau ymlid ar ei warthaf, a chlywyd cadwyn o araith, yna, 'Saith o'r gloch, Skip'.

Taflodd Jim y Lancaster ar osgo i osgoi yr ymosodiad. Clywyd gynnau 'Five Hundred' ond dim siw wedyn o'r tu ôl. Gorchmynodd Jim ar i rhywun fynd yno i edrych, a chafwyd y gunner yn swp gwaedlyd ar draws ei ynnau. Llusgwyd ef oddi yno ac aeth y llanc o Efrog yno yn ei le. Aeth Pinkerton i'r swigen do.

Daeth yr hogyn trwy ei fedydd yn y swigen ôl. Gwelwyd un o'r awyrennau ymlid yn syrthio fel deilen fflamgloch, a chawsant lonydd am ysbaid gan eu bod erbyn hyn allan o gyrraedd y magnelau hefyd. Yr oeddent yn cyrchu am arfordir yr Iseldiroedd, ond siawns wael a oedd ganddynt i gyrraedd adref: twll mawr yn y canol a oedd wedi amharu ar yr adnoddau llywio i'r gynffon, ac un peiriant ar dân. Bu farw'r peiranydd ymhen ychydig a dodwyd ef wrth ochr 'Five'. Aeth dau beiriant yn dda i ddim, ac yr oeddent yn colli uchder yn gyflym. Nid oedd dim dewis ond gadael popeth a neidio allan. Ufuddhaodd y rhai atebol i'r gorchmyn.

Gwelodd Jim ddau barasiwt yn agor ac yn cael eu cipio ymaith. Yr oedd yntau yn paratoi i'w dilyn. Ymbalfalodd am y caead, yna syrthiodd rhywbeth o'r to — Pinkerton yn ddiymadferth ond yn fwy. Llusgodd Jim ef at y caead, a thynnodd y cwch rwber allan yn barod. Yna aeth yn ei ôl i'w sedd. Brwydrodd a rhagodd yr olwyn. Yr oedd yn rhuthro erbyn hyn yn isel uwchben y môr. Rhyfedd fel yr oedd y Lancaster yn dal mor ddygn heb blymio iddo. Yr oedd hi'n ymateb dipyn i'w ymdrechion; nid yn codi ond yn dal ei huchder o rai troedfeddi uwchlaw'r dŵr.

Aeth felly dan chwyrmu yn groch am funudau. Pum milltir, wyth deg . . . ac yna yn sydyn planodd ei thrwyn yn yr eigion gan wneud hafn yn y dŵr. Chwalodd y trochion i'r entrych. Cododd Jim oddi ar ei hyd

a gwyddai ei fod wedi brathu ei dafod yn egr. A'i ddannedd yn dyn, dringodd at Pinkerton a'r cwch rwber. Yr oeddent wedi cael eu hyrddio oddi wrth y caead. Llusgodd y cwch yn ei ôl a gollyngodd y gwynt i mewn a'i daflu i'r môr, a thrwy drafferth a llafur cafodd y gŵr clwyfedig i mewn iddo. Nid oedd wiw aros i chwilio am fan bethau a allai fod o ddefnydd. Yr oedd yn rhaid symud o gyffiniau'r awyren cyn iddi suddo a'u sugno i'r gwaelod i'w chanlyn.

Rhwyfodd Jim yn hir gyda'r badlan fer nes diffygio. Yr oedd yn ddigon pell oddi wrthi yn awr, ond nid oedd y Lancaster yn ymddangos yn awyddus i fynd o'r golwg. Sylwodd fod y llif yn ei gario oddi wrthi.

Am y tro cyntaf rhoddodd sylw i'w gydymaith. Druan ohono, yn wael ac yn falurion. Mae'n amlwg fod awyren ymlid wedi tanio arno yn ymyl ac yntau ddim yn gynefin â'r gynnau. Yn y diwedd collodd Jim olwg ar yr awyren yn gyfan gwbl.

Griddfanai'r clwyfedig a disgwyliai Jim am y bore. Disgwyl dydd i weld llong neu un o'r Lysanders bach trugarog o'r tir. Fflachiai ei lamp yn awr ac yn y man ar ei gydymaith ac yna hunodd yn sŵn y dŵr yn clepian ar ochr y cwch. Yr oedd hi wedi gwawrio pan ddihunodd. Erbyn hynny roedd Pinkerton wedi marw, ond nid oedd gan Jim galon na nerth i'w daflu tros yr ochr.

Roedd y môr yn codi a'r gwynt. Roedd arwyddion ar y gorwel fod yna dymestl ar ei ffordd, ac yr oedd hi'n oer feltgedig. Noson anffodus, ddrwg ofnadwy a fu'r neithiwr honno — Pinkerton wedi mynd, y peiranydd a 'Five Hundred' yng ngwaelod y môr. A'r lleill? Cyrhaeddodd y dymestl yn sydyn. Pan ddymchwelwyd y cwch clywodd Jim lais y WAAF fach ar draws y gwynt . . . 'Good night boys. Good luck. See you . . .'

Mudiad Ysgolion Methrin
Gwynedd

FFAIR DEGANAU

yn Ysgol y Gader, Dolgellau
Sadwrn, Medi 19, 1992
10.30 a.m. — 4.30 p.m.

Arddangosfa gan
Galt, Nes Arnold, Early Learning,
Tawny Owl, First Class, Jannipan
Meithrinfa — Myndediad am ddim
Paned — Raffi — Bargeinion ar gael

ROYAL VICTORIA HOTEL

LLANBERIS 870149

★ Bwyd da ★ Cwrw da
★ Cwmni da



Heliwch eich traed
am fargen i

SIOP ESGIDIAU

GLENS

Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: 871470



O SIAMBR SELWYN

'Roeddwn i'n edrych ymlaen at Eisteddfod Aberystwyth eleni. Dyma'r Eisteddfod gynta' ers chwarter canrif i mi gael ei mynychu heb fod gen i unrhyw ddyletswyddau i'w cyflawni. Oedd, roedd fy nhraed yn gwbwl rhydd i gerdded y maes, ac i ddymuno blwyddyn newydd dda i'r myrdd ffrindiau y caf y fraint o'u cyfarfod yn flynyddol.

Ond nid felly y bu hi. Aeth seremoniau'r Orsedd a thri diwrnod llawn o'r Eisteddfod. Yn wir, dydd Iau oedd yr unig ddiwrnod rhydd a gefais i wedi'r cyfan.

Llawenydd oedd gweld cymaint o enillwyr y Fedal Ryddiaith yn yr oymdaith brynhawn Mercher. Yn wir roeddau nhw yn codi c'wilydd arnon ni'r beirdd. Dau brifardd oedd yno — wel tri, gan fod y Prifardd John Gruffydd Jones yn enillydd y Goron yn ogystal â'r Fedal. Ia, amharod iawn yw'r prifeirdd i ddod i anrhydeddu enillwyr y prif gystadleuaethau. Efallai mai Gorsedd y Llenorion y gelwir hi cyn diwedd y ganrif. Pwy a wŷr?

'Roedd Matti Prichard, gweddwy diweddar brifardd Caradog Prichard yn aros yn y Gogerddan, Llanbadarn Fawr, a chawsom lawer o'i chwmini yn ystod yr wythnos. 'Roedd Nico hefo hi. Nico? Pam dod a deryn i'r 'Steddfod meddech? Na, y pwdwl diweddar yn llinach yr enwog Benji a Wili yw Nico. Bu Benji a Wili yn ffyddlonach i'r brifwyl ar hyd y blynyddoedd na rhai y gwn i amdanynt sy'n honni eu bod nhw yn Gymry pybyr.

Bu farw Benji o henaint, 'rôl blynyddoedd o eisteddfoda yn ei fased o dan fwrdd ei feistr yn ystafell y wasg. 'Rwy'n cofio i mi unwaith gael yr awydd i blannu tipyn o ddiwylliant eisteddfodol ym mhen yr unig gi a fu gen i erioed — Pete. Cafodd y faint o ddod gyda mi i Eisteddfod Genedlaethol Rhuthun 1973, ac yn naturiol ddigon, tybiais mai da o beth fyddai i mi ei gyflwyno fo i eisteddfotgi enwoca' Cymru — sef Benji Prichard, a oedd yn belen o gyrls yn hedd ei fased. Gafodd Pete groeso? Dim ffiars! Doedd 'na ddim heddych yn teyrnasu ym mhabell y wasg y bore hwnnw. Fe ddeffrodd Benji o'i gwsg llwynog, a buan iawn y dealodd Pete nad oedd croeso iddo fo, mwngnal o gi, yn ystafell gysegredig y wasg. Ond chwarae teg i Benji roedd ganddo fo bob hawl i ddangos ei awdurdod, ac ynta yn berchen tocyn wythnos.

Diwedd trychinebus, fodd bynnag,

gafodd Wili druan. Torrodd lladron i mewn i gartref Matti yn Llundain, a cheisiodd Wili chwarae teg iddo, efelechy Gelert trwy ymosod ar y lladron er mwyn achub ei feistres. Ond ym mrwydr St. John's Wood fe'i trawyd gan un o'r lladron a bu'r ergyd, gwaetha'r modd, yn ddigon iddo.

Yn dilyn y brofedigaeth hon y daeth Nico yn gwmni i Matti, a 'Steddfod Aberystwyth oedd ei 'Steddfod gynta' ac roedd yntau, fel ei gyn-bwdwls eisteddfodol, i'w weld yn mwynhau yr awyrgylch. Choelïai i ddim fod gwirionedd yn honiad Gwilym Owen, yn ei slot ddychanol o'r 'Steddfod, mai problem fawr Matti drwy gydol yr wythnos fu 'anfon Nico i wneud dŵr'!

Na ci bach cyrliog, tawel a chyfeillgar yw Nico, parotach ei lyfiad o groeso na'i fygythiad o frathiad.

Ydy, yn naturiol ddigon, mae o'n edrych ymlaen at 'Steddfod Llanellwedd y flwyddyn nesa' — mi fydd o'n teimlo'n gartrefol iawn yno.

* * * *

Pinacl yr wythnos i mi oedd cael y fraint o wisgo'r goron a enillodd Caradog Prichard yn Eisteddfod Genedlaethol Caergybi 1927, am ei bryddest 'Y Briodas'.

Coron o arian pur patrymog, heb yr un cerfiad arni, yw Coron Caergybi, ac wrth gael y fraint o'i gwisgo fedrwn i ddim llai na chofio mai hon oedd y goron a ddododd y bardd ar ben ei fam yn Ysbyty'r Meddwl yn Ninbych ychydig ddyddiau ar ôl ei fuddugoliaeth genedlaethol gyntaf.

Fedrwn i ddim llai na chofio chwaith am y daith a ddisgrifir ganddo yn *Un Nos Ola Leuad* pan aeth a'i fam i'r Ysbyty, ac yntau yn crio ac yn torri'i galon: 'Ia, crio 'run fath a taflid i fyny — crio 'run fath a tasa'r byd ar ben'.

Do, daeth prifwyl Aberystwyth i ben hefyd, ac mi gofia i amdani petae ond am y ffaith i mi gael y fraint o wisgo Coron Caergybi — Coron y Briodas.

HELI YN Y GWAED



Dewi Jones, Dewi Hughes a Gwyn Jones yn cymeryd rhan yn räs Tri Chopa Tasmania.

Yn ôl W. J. Gruffudd, Twm Huws o Ben-y-ceunant a grwydrodd y moroedd. Yr un yw'r dynfa i Dewi Huws o Fethel. Fel un a fagwyd yn swm 'tonnau gwyllt y môr' yn Aberdaron bu'r dynfa i'r heli yn hollol naturiol. Yn blentyn pysgota am fecryll a chimychiaid — a'r fenter ariannol oedd y dynfa. Erbyn hyn mae'n gwneud cryn enw iddo'i hun fel perchenog y 'She of Llŷn'. Ar wahân i rasio lleol yng nghyffiniau Pwllheli ac Abersoch mae'n cymryd rhan yn rheolaidd mewn rasio a drefnir gan Gymdeithas Rasio Môr Iwerddon. Mae'r rasio yn croesi Môr Iwerddon — sy a'i sialens arbennig o wynt a thonau sy'n gallu newid mor gyflym yn ystod y ras. Cofia Dewi i un achlysur ble roedd yn rhaid angori am chwe awr ger Ynysoedd Tudwal oherwydd diffyg gwynt ac yna hanner awr yn ddiweddarach roeddynt yn cael eu taflu i gyfeiriad Porth Neigwl gan rym y gwyntoedd. Rhaid cofio fod cerynt cryf Swnt Enlli, South Stack a'r Skerries i'w hwynebu hefyd. Pwllheli a Chaergybi yw'r mannau cychwyn yng Nghymru gan anelu am Dun Laoghaire, Howth a Wicklow ar yr Ynys Werdd. Chwe

ras a geir yn y gyfres, gyda'r ras olaf yn croesi o Howth i borth St. Mary ar Ynys Manaw. Mae oddeutu 60 cwch yn cystadlu ac fe ddefnyddir y dull 'handicap' sy'n dibynu ar oed, maint a chyflymdra'r cwch. Mae'r 'She of Llŷn' yn 22 oed erbyn hyn. Gyda un ras ar ôl yn y gyfres, mae siawns dda gan Dewi a'i griw i orffen yn drydydd (neu efallai yn ail) yn y tabl terfynol. Tipyn o gamp!

Fel Twm Huws a Roli, mae Dewi a'i griw ac elfen fentrus yn eu hwylio. Yn 1987 cymerwyd rhan yn Räs y Tair Copa (Yr Wyddfa, Scafell Pyke a Ben Nevis). Bu hon yn gryn brofiad a llwyddwyd i giopio'r wobr gyntaf yn eu dosbarth i gychod 'monohull'. Yn 1989 cymerwyd rhan mewn ras gyffelyb yn Awstralia. Gan fod Dewi yn gynhyrchydd teledu gwnaed rhaglen ddogfen ddiddorol o'r fenter.

Dau sydd yn weddol rheolaidd yng nghriw Dewi yw ei frawd yng nghyfraith, Dewi Jones, a Gwyn Parry Jones. Mae gwreiddiau y tri ohonynt yng ngwlad Llŷn ond maent wedi ymgartrefu ym Methel ers rhai blynyddoedd bellach.

Pob hwyl a gwynt teg iddynt am weddill y tymor.

LLWYDDIANT YN YR EISTEDDFOD



Profodd nifer o drigolion a chyn-drigolion Bro'r Eco llwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol fel aelodau o Barti Dawns Caernarfon. Enillodd y parti y gystadleuaeth ar y prynhawn Sadwrn yn ogystal â chael llwyfan ar y brif gystadleuaeth i bartïon ar y dydd Mercher.

J.R. PRITCHARD BONTNEWYDD

Ffôn:



Caernarfon 3507

Gwneuthurwyr

Ffenestri a Drysau

Ffoniwch am fanylion

a phrisiau cystadleuol



GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

DINORWIG

Ysgol Nos: Os am awr a hanner o ddifyrwch pur a dod i wybod am ffeithiau diddorol am orffennol ein bro yna bob nos Fawrth, am 7 yn y Ganolfan, yw y lle i chwi. Yno bydd Mr D. Whiteside Thomas o Lanrug yn arwain ysgol nos a'i destun eleni, fel y llynedd fydd, 'Golwg ar Hanes Llanddeiniolen'. Felly, beth am droi i mewn i'r Ganolfan am y mis nesaf (cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 8 Medi), sef i'r pedwar cyfarfod sydd yn weddill.

Llwyddiant yn y Sioe: Cafodd Mr Llew Jones, 4 Bro Elidir, tipyn o lwyddiant yn y cystadlaethau colomenod yn Sioe Frenhinol Cymru yn Llanellwedd yn ddiweddar. Cafodd gyntaf yn y gystadleuaeth rasio colomenod; cyntaf yn yr adran colomenod ac hefyd fe gipiodd Tlws Coffa H. J. Dougall am yr ehedwr gorau yn yr adrannau colomenod rasio. Mae'n amlwg ar ôl y llwyddiant yma ei fod yn arbenigwr yn ei faes ac ar yr un pryd dod a chlod i'r pentref. Llonyfarchiadau mawr iddo.

Croeso Gartref: Anaml, gwaetha'r modd, y ceir y cyfle i groesawu rhai a fagwyd yn Ninorwig yn ôl i fyw i'r ardal. Pleser mawr felly yw gwybod fod Miss Morfudd Hughes Jones yn ôl yn byw ym Mryn Hyfryd, wedi iddi ymddeol yn gynnar o'i swydd fel athrawes yn Lerpwl. Bydd hyn yn siŵr o fod yn destun llawenydd mawr i'w mham, Mrs Dora Jones, hefyd o wybod bod ei mherch yn ôl gartref yn barhaol. Croeso cynnes iddi, a dymunwn lawer blwyddyn hapus iddi yn ein plith, ac edrychwn ymlaen at gael ei chwmmi yng ngwahanol weithgareddau'r ardal.

Gartref ar wyliau: Cafwyd cwmni Gwilym Irfon Jones, Tan y Buarth Uchaf, ym mis Awst, tra'r oedd gartref ar wyliau o'r Almaen. Bydd yn gadael y Fyddin yn ystod yr wythnosau nesaf a braf fydd ei groesawu yntau yn ôl gartref bryd hynny.

Brysiwch wella: Mae'n dda deall bod Mr Abram Jones, Foel Gron, yn gwella ar ôl ei anhwylder yn ddiweddar. Hefyd yr un yw hanes Mrs Betty Roberts, 11 Maes Eilian, gan ei bod hithau yn gwella ac yn cryfhau pob dydd. Dymuniadau da hefyd i bawb arall sydd ddim yn mwynhau iechyd da ar hyn o bryd.

Eglwys St. Mair: Mae angen diolch i Mr Robin Evans am dorri'r gwair o gwmpas yr Eglwys yn ystod misoedd yr haf. Mae ein dyled yn fawr iddo. Hefyd yr un yw ein diolch i Mrs B. Roberts, 7 Maes Eilian, am lanhau yr Eglwys yn ystod y ddau fis ddiwethaf. Tro Mrs Margaret Jones fydd gwneud y gwaith yn ystod Medi a Hydref. Diolch ymlaen llaw iddi hi. Hefyd mae'n dda gallu adrodd bod y ffenestr newydd i'w gosod yn ystod yr wythnos nesaf.

Dymuniadau da i rai o blant y pentref sydd yn mynd i Ysgol Brynrefail Llanrug am y tro cyntaf ym mis Medi. Hefyd llonyfarchiadau mawr i Sara Wood, Fron Heulog, am lwyddo mor dda yn ei arholiadau TGAU. Tra yn sôn am ein pobl ifanc fe gafodd Iwan Jones, 5 Bro Elidir, anaf i'w goes yn ddiweddar sydd yn golygu na all gerdded o gwmpas heb ei faglau. Beth wnaith Man Utd. heb eu goli yn awr! I fod o ddifri' — dal i wella Iwan.

Gwasanaeth Undebol: Yn ystod yr wythnosau nesaf bwriedir cynnal gwasanaeth diolchgarwch undebol yn un o addoldai y pentref. Eisoes cynhaliwyd gwasanaeth o'r fath yn ystod y Nadolig a'r Pasg a'r bwriad yw cynnal rhain yn flynyddol o hyn ymlaen. Mae'n debyg y trefnir cyfarfod yn ystod wythnos neu ddwy, yn y Ganolfan, i wneud y trefniadau ar gyfer y Gwasanaeth Diolchgarwch.

Bron a Chipio'r Goron: Dyna fu hanes Norman Closs Parry yng nghystadleuaeth y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth. Fe ddaeth yn ail yn y gystadleuaeth gyda chlod mawr iawn gan y beirniaid. Yn ôl un o'r beirniaid, sef y Prifardd John Roderick Rees, 'Ar ei orau mae'n cyrraedd pen a chalon — bardd arbennig iawn a'i fawredd yn tyfu arnoch'. Llonyfarchiadau mawr iddo ac er ei fod yn byw ers blynyddoedd yn Nhreffynnon, Clwyd, rydym yn dal i feddwl amdano fel un o fechgyn Fachwen, gan ei fod yn dal i gadw cysylltiad cyson â'i hen gartref. Rydym i gyd yn ymfalchïo yn ei lwyddiant.

Diolch: Dymuna Mrs Eirianwen Thomas ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad â hi yn ei phrofedigaeth ddiweddar.

HWYL HAF DINORWIG



Er y glaw, fe gafwyd hwyl. Roedd dipyn o giw am y castell neidio.

Hwyl Haf: Roedd hi yn sicr o ddigwydd rhywbryd ac fe ddigwyddodd eleni. Ia, rydych yn iawn — daeth y gwynt a'r glaw i ddrysu trefniadau Hwyl Haf eleni. Eto, ni allwn gwyno yn ormodol gan



Ioan Jones, 5 Maes Eilian, Dinorwig, y gorau o'r goreuon yn y cystadlaethau.



Dylan yn mwynhau ei hun er gwaetha'r glaw.

mai dyma oedd y tro cyntaf ers pum mlynedd i hynny ddigwydd — sydd ddim yn record rhy ddrwg! Fe fu'n rhaid gohirio gweithgareddau ar y dydd Sadwrn a'i gynnal ar y nos Wener ganlynol. Ond, eto, ni fu i'r glaw gadw draw oherwydd ychydig dros awr wedi cychwyn y gweithgareddau gohirio fu rhaid. Fodd bynnag we lwyddwyd i osgoi colled ariannol ac mae'r diolch am hynny i bawb a drodd i fyny ar y noson. Diolch i bawb am eu cefnogaeth; i'r busnesau lleol — siop cig Brymer; siop VG; Mr Gwyn Oliver Jones ac i Garej Beran am eu rhoddion tuag at y raffi; teulu Fron Heulog am y garafán; i Mr Dafydd Morris am y llwyfan; i Gwyneth a Valmai am feirniadu cystadlaethau gwisg ffansi. Gobeithio am haul y flwyddyn nesaf.

**Am Wasanaeth
Fframio Lluniau
Tystysgrifau
Tapestri**

am brisiau rhesymol

**ELWYN
PRITCHARD**

Parc Padarn, Llanberis

Ar agor Llun — Gwener

10.00 — 3.30

I gysylltu tu allan i'r oriau
hyn ffoniwch

Llanberis 870922

neu Bangor 351427


**J.M.
JONES
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU**

**Y SGWÂR,
LLANRUG**

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol,
Cerrig o bob
math ar gael.

Ffôn:
Caernarfon 2898
(dydd)
Caernarfon 76285
(nos)

**BETHEL
SCAFFOLDING**



**BRYN Y CHWILOG, BETHEL
Ffôn: Portdinorwig (93) 670325**

★ Sgaffaldiau ar gyfer jobsus

★ Prisiau cystadleuol

★ Ffoniwch i gael estimate yn
rhad ac am ddim

'Un funud fach . . . ?

JORVIK

Rydw i'n gwybod erbyn sut roedd Dr Who yn teimlo wrth deithio'n ôl i'r gorffennol yn ei gaban teleffôn. Mewn car bach gwyn yr aethom ni fel teulu yn ôl trwy'r canrifoedd i Jorvik y nawfed ganrif y dydd o'r blaen. A dyna brofiad gwyh oedd cael teithio trwy'r strydoedd cul, mynd i mewn i un o dai'r Llychlynwyr (neu'r Vikings), gweld y llong yn yr harbwr, clywed sŵn y farchnad, edrych ym myw llygaid y bobol, a hyd yn oed ogleuo cytiau'r moch. Roedd y cyfan mor fyw. Roedden ni yng nghanol bwrlwm prifddinas y Llychlynwyr wedi iddyn nhw oresgyn rhannau helaeth o ogledd a gorllewin Lloegr tua'r flwyddyn 865. Petae'r car bach gwyn wedi aros am funud neu ddau mi faswn wedi cael cyfle i atgoffa'r hen Lothin a Svein a Thorfast o'u methiant i oresgyn fy Nghymru i. (Ond o gofio mai ar eu tir nhw yr oeddwn, ac nad oedd Rhodri Mawr ar gael i'm hamddiffyn, roeddwn yn eitha balch mai ymlaen yr aeth y car bach.)

Arddangosfa Jorvik roddodd y cyfle i ni ail fyw'r gorffennol. Enw'r Llychlynwyr ar ddinas Efrog oedd Jorvik, a chodwyd adeilad yr arddangosfa ar safle lle darganfuwyd olion rhan o hen ddinas y Llychlynwyr yng nghanol dinas fodern Efrog. Wrth fynd trwy'r arddangosfa mi fasech chi'n taeru eich bod yn ôl yn y nawfed ganrif. Mae'r gorffennol yn dod yn fyw iawn yn Jorvik. Ail grewyd rhan o'r ddinas ar y safle, ond gwelir yno hefyd (o dan canolfan siopau newydd) union olion yr hen stryd, a'r union gelfi a gafwyd yn y pridd. Mae'n anodd meddwl y gellir dod yn nes na hyn at y gorffennol.

Ond dyna feddwl wedyn am rywun a oedd yn byw dros 800 o flynyddoedd cyn y Llychlynwyr; rhywun oedd yn byw filoedd o filltiroedd ymhellach na Jorvik oddi wrth Gymru. Mab i saer, athro ac arweinydd criw bach o ddisgyblion, un a gafodd ei ladd ar groesbren oedd hwnnw. Fues i erioed yn ei wlad o, a welais i erioed mo'i gartref. Ond beth sy'n rhyfeddol yw bod modd dod dipyn nes at hwnnw nag at bobol Jorvik. Mae hwn yn fyw o hyd, ac nid byw mewn amgueddfa nac yn nychymyg ei bobol y mae ychwaith. Daeth hwn o'r bedd yn fyw, ac mae'n fyw o hyd. Hyd yn oed os na fedrwn ei weld â'n llygaid na chlywed ei lais â'n clustiau, mae modd adnabod yr Iesu hwn. Trwy dystiolaeth y Beibl amdano, gwyddom i'r dim mai Un sy'n llawn o gariad a thosturi yw hwn. A rhyfeddod y bywyd Cristnogol yw cael adnabod a charu yr Iesu hwn a ddaeth yn Waredwr ac yn Arglwydd; yr Un a ddaeth 2000 o flynyddoedd yn ôl, a'r Un sydd yn dal yn fyw. Dydi profiad Jorvik, er ei holl ryfeddod, yn ddim o'i gymharu â hyn.

JOHN PRITCHARD, Llanberis

DRAENOG

Nid oes gwirionedd yn y si mai ceisio osgoi talu yr oedd y gŵr a ysgrifennodd siec am gant dau ddeg ac wyth o FILLTIROEDD a 99 ceiniog yn unig, i'w garej leol yn ddiweddar.

DEINIOLLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259

Enillwyr Clwb 200 Clwb Pêl-droed Deiniolen — £80: Sioned Wyn Evans, 5 Tai Gweledfa (27); £40: d/o Albert Parry, 45 Pentre Helen (127).

Enillwyr Clwb Cant Plaid Cymru. Mis Gorffennaf — £10: Mrs M. C. Jones, Tan y Caerau; £8.50: Mrs Annette Bryn Parri, Cynefin. Mis Awst — £10: Mr Iorwerth Roberts, 8 Hafod Oleu; £8.50: Miss Jean Parc Jones, Cesail y Mynydd.

Adran St. Ioan: Bu dosbarth Cymorth Cyntaf yn aildechrau ar nos Fawrth, Medi 15, 6.30-7.30 p.m. Croeso i rai o'r newydd i ymuno â ni.

Adran Urdd Bentref Deiniolen: Bydd adran Urdd bentref Deiniolen yn cwrdd ar nos Fawrth, 8 Medi am 7.30 p.m. yn Neuadd Ysgol Gwaun Gynfi. Croeso cynnes i bawb, plant ac oedolion sydd a diddordeb mewn sefydlu cangen yr Urdd yn y pentref eleni eto. Dewch yn llw i ymuno mewn gemau, cwis, a llawer o weithgareddau eraill yn ystod y misoedd nesaf. Croeso cynnes i bawb.



Wendy Rowlands a Dylan Roberts a briodwyd yng Nghapel Cefn-y-waun yn ddiweddar.

Dymuna Dylan a Wendy, 3 Jubilee Terrace, Y Felinelli, ddiolch yn fawr am yr holl anrhegion, arian a chardiau a dderbyniasant ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

Diolchiadau:

Dymuna Betty, Meira a theulu y ddiweddar Mary Ellen Hughes, 26 Rhyd Fadog, ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt, gan berthnasau, cymdogion a chyfeillion, yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl iawn.

Diolch am y gofal gan y meddygon teulu, nyrsus a genod y clinic, am y galwadau ffôn, blodau, cardiau a'r llythyrau sy'n rhy niferus i'w hateb yn unigol. Diolch i'r Parch John Pritchard a'r Parch Trefor Lewis am eu teyrngedau. Diolch hefyd i Mr Myrddin Pritchard am ei drefnu gofalus; ac i Miss Sas Williams Drws Nesaf am agor ei chartref gyda phaned o de. Diolch i bawb.



Julie Anne Jones, Brenhines Carnifal Deiniolen a'i Llys.

Hoffai'r pwyllgor ddiolch i bawb a gymerodd ran wythnos y Carnifal, ac i'r holl bobl am eu cefnogaeth i'w gwneud mor llwyddiannus.

Diolch i DMM Llanberis am y darian a roddwyd tuag at gystadleuaeth tynnu'r rhaff; i Mr a Mrs Andrew Ward am gwpan y grŵp gorau o dan 8 oed; pwyllgor pêl-droed Deiniolen am y cwpanau i gystadleuaeth 5-bob-ochr.

Enillwyr y raffl oedd — 1, 50 Rhydfadog; 2, Gordon, Celyn; 3, Steve, 10 High Street; 4, Mair Williams, d/o Ann, Rhydfadog; 5, Miss Owen, Tros Afon, Brynrefail; 6, Lynn, 34 New Street; 7, Nerys, J.M.J.; 8, Olive Robert A.T.L. Bethesda; 9, Dewi Tate, 75 Pentre Helen; 10, Delia, 6 Tan-y-Gaer, Bethesda; 11, 14 Pentre Helen; 12, Carys, Reception DMM; 13, G. Richards, Rhif Iwcus (17); Margaret, 29 Pentre Helen.

Dymuna Julie Anne Jones, 83 Pentre Helen, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl anrhegion, arian a chardiau iddi fel Brenhines Carnifal Deiniolen. Hefyd diolch i Cwrt, sef Bethan a Ffion Jones, Pentre Helen a Michell Spaine, Rhydfadog. Diolch hefyd i'r

pwyllgor am bob dim i mi fel Brenhines.

Ga'i yn y lle cyntaf, ar ran Nora a minnau, ddiolch i bwyllgor y Carnifal am y gwahoddiad i eistedd fel barnwyr eleni a diolchwn hefyd i drigolion a phentrefwyr am y croeso cynnes ac am ambell i sgwrs ac atgofion yma ac acw.

Braf iawn cael gweld cyn gymaint wedi ymddangos a llawer i un wedi gwisgo, eraill wedi addurno eu beiciau a'u cerbydau. Rhag ofn i mi adael rhywun allan — roedd yr holl siou wedi ei threfnu yn rhagorol ac yn wych iawn a chawsom bleser mawr.

Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran yn yr wythnos Garnifal a braf oedd clywed i'r wythnos fod yn un llwyddiannus iawn.

Gyda phwyllgor amyneddgar a gweithgar mae dyfodol disglair iawn i'r Carnifal ac fe aiff yn gryfach o flwyddyn i flwyddyn. Cofiwch mai gwaith caled iawn yw trefnu wythnos o adloniant — felly, mwy o gymorth tuag at y flwyddyn nesaf.

Cymeradwyaeth fawr i'r pentref, a daliwch ati. Unwaith eto, diolch yn fawr iawn.

— Alan Wyn a Nora.

CANMOLIAETH A DIOLCH

Pleser yw cael canmol Plant talentog Rhes y faenol Iwan, Euros, Gwawr ac Alaw Am lwyddiannau di ben draw.

Chwythu'r utgryn cwafrio'r nodau Canu, adrodd, pedwarawdau, Unawd, deuawd a thraethodau Mewn eisteddfod a chyngherddau.

Calondid yw eu gweld yn diddori A mawr gysur i'w rhieni Mewn cerddoriaeth a llenyddiaeth Rhagor lawer na fandallaeth.

A oes yma eto blant addawol I warchod enw da Rhes Faenol Oes gobelthio, ac ewch ati Yw darbwyllo a'u hyfforddi.

Da yw canu clod y dysgwyr Ond nac anghoflwn yr hyfforddwyr Am eu dawn a'u hir amynedd Y brwdfrydedd a'r anrhydedd.

Diolch i lu o fforddwyr selog Un yn byw'n rhif tri Rhydfadog Os enwai'r cyfai ll edrychith yn syn Gwyddoch pwy ydyw, wel ia, Dafydd

Wyn.

H.J.

RHAGOR O NEWYDDION DEINIOLLEN AR DUDALEN 10

DYDDIADUR DEFNYDDWYR IFANC

gan BRYN CERION JONES

Dydd Mawrth, 30ain o Fehefin
Wedi hir ddisgwyl a hir baratoi daeth y dydd i'r tîm 'of Daily Post fame' fynd i gystadlu yn rownd derfynol Prydain o gwis 'Denfyddwyr Ifanc y Flwyddyn' oedd yn cael ei gynnal ym mhrifddinas y pensïynwyr — Torquay.

Cychwyn ben bore o Fangor ar yr un trên a Dafydd Wigley, A.S. a Gwyn Llywelyn H.S. Ymhen hir a hwyr cyraeddasom Torquay ac ar ôl cael ein danfon i'n gwesty cyfforddus, aethum i'r ganolfan 'Riviera', sef canolbwynt y gystadleuaeth.

Ar ôl darganfod ein bod yn cystadlu 9 o'r gloch drannoeth aethum i nofio i'r ganolfan — un o'r amryw weithgareddau oedd wedi eu paratoi ar ein cyfer. Yma roedd tîm Brynrefail i'w gweld yn glir yn minglo'n rhyng-Geltaidd gyda thîm genethod Ynysodd y Gorllewin, Yr Alban, ac yn ceisio 'seicio allan' rhai o'r cystadleuwyr eraill — ni weithiodd!

Dydd Merchar, 1af o Orffennaf
Heddiw oedd y diwrnod mawr — ein rownd ni. Ar ôl llond bol o frestwast a golwg dros gwestiynau posibl aethom i'r ganolfan i gystadlu yn erbyn pedwar o ysgolion eraill. Fel eilydd, fi oedd gyda'r gwaith caletaf, yn gorfod eistedd yn ôl yn fy nghadair yn gwyllo Euron, Glenda a'r efeilliaid Mark a Tudor ('ta Tudor a Mark?) yn chwysu dan bwysau'r cwestiynau caled. Ar ôl tua hanner awr o frwydro ffyrnig, yn anffodus ni enillodd Brynrefail eu rownd. Rownd

nesaf — Euron?

Heno roedd disggo wedi ei baratoi i'r cant o gystadleuwyr yn y ganolfan ac roedd pawb yno. Cawsom hwyl garw yn dawnsio a gwneud ffrindiau newydd gyda phobl ifanc o bob rhan o Brydain. Cafwyd amser da gan bawb ac mae'r olygfa o Mrs Carys Evans yn 'rêfio' yn ei 'hotpants' yn un na wnawn ni ei anghofio am amser hir.

Dydd Iau, 2il o Orffennaf

Codi gyda'r wawr, am hanner awr wedi deg y bore, ac ar ôl gweld y rowndiau cyn-derfynol, roedd yn amser am y rownd derfynol i ddarganfod pwy oedd y tîm buddugol yng nghwis Defnyddwyr Ifanc y Flwyddyn 1992. Y ddau dîm oedd yn cystadlu oedd Gogledd Sir Efrog a Sir Buckingham. Ar ôl cystadleuaeth llawn cyffro a thensiwn, y tîm o dde Lloegr oedd yn fuddugol, a Brynrefail yn 12fed allan o 24 trwy Brydain.

Brysio'n ôl i'r gwesty i folchi a newid ac allan a ni i weld golygfeydd pwysicaf Torquay gyda'r nos efo Jackie Daniels a John Smith.

Dydd Gwener, 3ydd o Orffennaf
Gorfod codi'n gynnar, pacio, a ffarwelio â'n ffrindiau newydd a chychwyn ar y daith hir adref ar ôl ychydig ddiwrnodau pleserus iawn. Felly, ar ran y pump ohonom, hoffwn ddiolch i Mrs Carys Evans a phawb arall oedd yn gysylltiedig â'r gystadleuaeth. Pwy a wŷr, efalli bydd Ysgol Brynrefs yno eto'r flwyddyn nesaf yn cystadlu a mwynhau.

DEINIOLEN

(parhâd o dudalen 9)

Seindorf: Llongyfarchiadau i Siân Griffith ar ei dewis yn aelod o Seindorf Ieuencid Cymru. Ymddiheurwn i Siân nad oedd ei henw wedi ei gynnwys yn y rhifyn diwethaf o'r Eco. **Enillwyr Clwb 200 Gorffennaf** — 1, Mark Hughes, Clwt-y-bont (197); 2, Siân Lewis, Dinorwig

(11); 3, Tim Fraser Jones, Y Beran (174). **Llongyfarchiadau** i'r aelodau ar eu llwyddiant yn arholiadau TGAU. **Llongyfarchiadau** i Alaw Mari Huws, 8 Tai Faenol ar ei llwyddiant mewn arholiadau piano yn ddiweddar dan nawdd yr Ysgol Gerdd Frenhinol. **Diolch:** Dymuna Mrs Eirianwen Thomas ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad â hi yn ei phrofedigaeth ddiweddar.

YSGOL FEITHRIN LLANRUG



Plant ac athrawon Ysgol Feithrin Llanrug yn dathlu diwedd tymor. Mae'r plant bellach wedi cychwyn yn yr Ysgol Gynradd a dymunwn pob llwyddiant iddynt.



Cafwyd benthyg y llun yma gan Mrs Williams, 25 Rhydfadog, Deiniolen. Mae'n bosibl ei fod yn lun o Bonc Chwarel neu efallai gôr o chwarelwyr. Fe'i tynnwyd o gwmpas 1920 a byddem yn falch o glywed gan unrhyw un all roi mwy o wybodaeth.

**MODURDY
PLAS
BACH**

CAEATHRO

Ffôn: Caernarfon 2072
Gwerthu, Trwsio
Trin Cyrff
H.P. ar gael

Emyr Jones

**PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI**

**Cynnal Boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau**

**44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon 3513**



Castell Cidwm



**BETWS GARMON
Ffôn: Waunfawr 243**

Dewch am wledd ym
MWYTY'R PYSGOTWR

ar lan Llyn Cwellyn lle
diddorol, gwahanol, braf

ac am banded o goffi a theisen hufen
mae croeso i deuluoedd a phlant yn
CAFFI'R BWTHYN

**Wavell
Roberts**
CIGYDD
**LONDON HOUSE
LLANRUG**

Ffôn: Caernarfon 3574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist
**MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!**

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

**PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION**



Bara Ffres

Teisennau

Priodas, Bedydd

Pen-blwydd ac ati

Peis, Rholiau Sosej

Pasteiod, Teisennau Hufen

Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI


Stryd Fawr, Llanberis 870491

**Aled
Jones**

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Plymio

**4 Bryn Eglwys
PENISARWAUN
Ffôn Llanberis
871047**

ECO'R IFANC



gan **BRYN,** **ANNA** ac **ESYLLT** **FFRAINCE!**

**Defnyddiwch y cliwiau isod
i gwblhau'r pŵs:**

1. Tŵr enwog — na, nid Blackpool!
2. Dau gymeriad digrif o'r Eisteddfod Genedlaethol, neu arian y wlad.
3. Un o brif gynhwysion gwin.
4. Grŵp o fynyddoedd enwog sy'n gwahanu Ffrainc a'r Eidal.
5. Y brifddinas.
6. Helô!!
7. Math y car 2CV

CORNEL JÔCS

Ble roedd Alun pan ddiffoddwyd y golau?
Yn y tywyllwch!

Mam: Beth wnei di, Dafydd, pan fyddi di mor fawr â dy dad?
Dafydd: Mynd ar ddeiet!

Prifathro (yn siarad ar y ffôn): Helô!
Llais: Helô! Ni fydd Huw Lloyd yn dod i'r ysgol heddiw.
Prifathro: Pam?
Llais: Mae o'n sâl.
Prifathro: Gyda pwy ydwi'n siarad?
Llais: Fy nhad!

Ha ha Ha ha!

Sais: *Could I have some lamb, please?*
Cigydd: Dic — cer i nôl cig oen i'r dyn 'ma.
Sais: *Make sure it's English lamb.*
Cigydd: Dic — tynna'i frêns o allan!

Twm Siôn Cati: Eich arian neu eich bywyd?
Teithiwr: Ydych chi'n derbyn American Express?

'Rhybudd pwysig i fodurwyr sy'n teithio ar yr A34 i Gaerfyrddin — Dydy'r A34 ddim yn mynd i Gaerfyrddin!'

Dyma siâp baner Ffrainc yn chwifio yn y gwynt. Darganfyddwch pa liwiau sydd yn mynd ym mha drefn, ac yna lliwiwch ef.

YN EISIAU GOFALWR/WRAIG I GAPEL BETHEL

Am fanylion pellach anfoner at
Emlyn Hughes, Ysgrifennydd,
Bethlyn, Tan y Ffordd, Bethel
Ffôn: Felinheli (0284) 670405.
Dyddiad cau: Hydref 16eg

Trefniadau Blodau Sych
a Ffres yn ôl eich gofyn
Alwyn a Sarah Jones

RACCA PENISARWAUN

- ★ Danfon blodau i ysbytai a chartrefi henoed
- ★ Addurno capeli ac eglwysi ar gyfer priodasau
- ★ Torchau blodau
- ★ Stoc o flodau ffres



Galwch neu ffoniwch
870605
am fanylion

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

Daeth tymor yr haf i ben unwaith eto a llawer o'n plant a'n pobl ifanc yn cychwyn gyrfu newydd mewn ysgol, coleg a gwaith. Dymunwn y gorau i bob un ohonynt gan eu llongyfarch i gyd am wneud mor rhagorol yn yr arholiadau ar ddiwedd y tymor diwethaf. Mae amryw o'n pobl ifanc wedi cychwyn ar yrfa yn ystod yr wythnosau diwethaf a dymunwn yn dda iddynt hwythau.

Dymuno ymddeoliad hapus a wnawn i Mrs Enid Williams, Heli, ac i Mr John Edwards, 10 Stad Tŷ Hen. Enillwyr Clwb 300 mis Mehefin — £40: P. A. Missen, Warwick; £25: T. G. Williams, 17 Tref Eilian; £10: Mrs Griffith, Tref Eilian. **Enillwyr mis Gorffennaf** — £40: T. G. Williams, 17 Tref Eilian; £25: Fiona Johnston, Tŷ Gwyn; £10: Mavis Allen, Pen-y-bont. **Eisteddfod Ardall Waunfawr:** Cafwyd noson lwyddiannus iawn yn ddiweddar yn y Noson Goffi i godi arian tuag at gostau yr Eisteddfod. Hoffai'r pwyllgor ddiolch yn fawr iawn i bawb a gefnogodd y noson. Dyma restr enillwyr y raffl — 1, Glenys Williams; 2, Christine Davies; 3, Eirianwen Thomas; 4, Betty Griffiths; 5, Christine Evans; 6, Iona Williams; 7, Humphrey Jones; 8, Jean Jones; 9, Glenda Jones. Enillydd dyfalu pwysau'r deisen oedd Nan Roberts ac am ddyfalu faint o Smarties oedd yn y botel — Sioned Jones.

WEA (Cymdeithas Addysg y Gweithwyr) — Trafod Barddoniaeth: Cynhelir dosbarth eto eleni gan y Prifardd Ieuan Wyn, yn yr Ysgol Gynradd, Waunfawr. Bydd 15 cyfarfod o Fedi 22 am 7 o'r gloch. Cyflwyniad i farddoniaeth gynnar Gymraeg, o'r 6ed ganrif hyd y 13eg. Croeso cynnes i bawb.

Clwb CIC: Bydd cyfarfod cyntaf y tymor yn cael ei gynnal yn y Ganolfan ar nos Iau, Medi 10fed. Plant blwyddyn 1 a 2 am 6.30; blwyddyn 3 ac uwch am 7.30. Y tâl aelodaeth fydd £2.50 am y tymor. Mae llawer o weithgareddau wedi eu trefnu ar eich cyfer gan gynnwys sgïo, canwio, dringo, coginio, ac yn y blaen. Dewch yn llu am sbort a sbrill!

Yr Urdd: Cynhelir cyfarfod o bwyllgor yr Urdd nos Fercher, Medi 9, am 6.30. Bydd tymor yr Urdd yn dechrau ar nos Fercher, Medi 16, am 6.15 o'r gloch yn y Ganolfan. Yr ysgrifennydd

am y tymor hwn yw Joy Glyn, Plas Bodhyfryd. Os am ragor o fanylion ynglŷn â'r cyfarfodydd cysylltwch â hi ar Waunfawr 354. **NODWCH** — mae yr amser wedi newid y tymor hwn i rhwng 6.15 a 7.15 o'r gloch. **Genedigaeth:** Llongyfarchiadau i Shirley a Chris Roberts, 6 Bryn Golau ar enedigaeth mab bychan, Adrian; brawd bach i Wayne, Julie, Kelly a Kimberley. Hefyd fe anwyd merch fach, lliid, i Linda a Bryn Griffiths, Perthi, ac wyres fach i Mrs Griffiths, Gorffwysfa — llongyfarchiadau iddynt hwythau.

Llongyfarchiadau i Geraint a Barbara Griffiths, Bro Waun, ar ddod yn daid a nain. Ganwyd mab i'w mherch Valerie a'i gŵr, Steve, brawd bach i Russell.

Daeth Mrs M. Owen, Stad Tref Eilian yn hen nain eto — ganwyd mab, Gareth, i'w hwyres Ann a'i gŵr Mark yng Nghaernarfon, brawd bach i Aled.

Bedydd: Mewn gwasanaeth arbennig yng Nghapel Croesywaun, o dan ofal y Parch. S. O. Hughes, bedyddiwyd Dewi, mab bychan Ann a Dean, Teras Eilian. Mewn gwasanaeth yn Eglwys St. Ioan, gyda'r Parch. Barry Thomas yn gweinyddu, bedyddiwyd Ceri, merch fach Debrah, Dôl Erddi. Dymuna teulu Ceri ben-blwydd hapus iddi ar gyrraedd ei blwydd oed.

Priodas: Dymuniadau gorau a phob hapusrwydd i Mia Wildin, Ger y Ffynnon, ar ei phriodas â Gwyn Jones o Garmel. Maent wedi ymgartrefu yn Bodwyn.

Dyweddio: Llongyfarchiadau i Valmai Williams, Cefn Coed, ar ei dyweddïad â Paul Evans o Gaeathro; ac i David Coles, Bro Waun ar ei ddyweddïad â Talina Legget o Gaernarfon.

Dathlu Pen-blwydd Priodas: Llongyfarchiadau i Raymond a Pat Parry, Ffridd Felan, ar ddathlu eu Priodas Berl.

Dathlu pen-blwydd: Llongyfarchiadau i Avril Charge, Lliffon, ar gyrraedd ei deunaw oed; — i Nan Wyn, Teras Cefn Du, ar gyrraedd un ar hugain mlwydd oed.

Anfonwn ein cofion cynhesaf at Miss C. E. Williams (Is-Eilian gynt) a fu'n dathlu ei phen-blwydd yn 92 mlwydd oed; ac i Mrs L. Evans, Tegfan, ar gyrraedd ei 90 mlwydd oed. Dymuna Mrs Evans ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau i gyd am y cardiau, rhoddion a phob dymuniad da a

dderbyniodd ar yr achlysur o gyrraedd ei 90 mlwydd oed.

Llwyddiannau cerddorol: Llongyfarchiadau i Rhian Griffith, 6 Tŷ Hen; Sioned Jones, Heulfryn, a Lowri Glyn, Plas Bodhyfryd, y dair yn llwyddiannus yn arholiad piano, gradd 1; i Gareth Cadwaladr, Stad Glyn Afon, ar lwyddo yng ngradd 2, piano; a Heledd Elfryn, Coed Gwydryn, ar lwyddo yn arholiad piano gradd 3 gyda theilyngdod. Bu Bethan Cadwaladr yn llwyddiannus yn arholiad ffliwt, gradd 4; ac Emma Britnell yn llwyddiannus yn yr arholiad ffliwt.

Llwyddiant Eisteddfodol: Llongyfarchiadau mawr i Elin Gwilym, Llidiart Wen, ar ddod yn fuddugol yn y gystadleuaeth Siarad Cyhoeddus ac yn ail yn y gystadleuaeth llefaru darn digrif yn Eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth. Hefyd Gwennan Jones, Glyn Ceris, a oedd yn aelod o'r parti Cerdd Dant a ddaeth yn fuddugol dan 25 oed yn yr Eisteddfod Genedlaethol.



Elin Gwilym a'i medal.

Yn yr ysbyty: Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mrs Gwyneth Griffith, Stad Tref Eilian sydd yn Ysbyty Eryri; ac at Mr Glyn Williams, Plas Glyn Afon, sydd yn yr ysbyty ym Mangor.

Adref o'r ysbyty: Croeso i Aled Taylor, Baladeulyn; Deion Jones, Tan-y-coed; Mrs Catherine Jones, Bryn Derwen; Mr Gwynfor Jones, Stad Pant Waun; Mr Lloyd, Uwch Peblig; Mrs A. Bennet, Llechwedd; Mr Glyn Owen, Glan Gors a Mrs Lilian Jones, Treflys, adref o'r ysbyty.

Diolch: Dymuna Mr a Mrs Jones, Treflys, ddiolch i'w perthnasau, cymdogion a ffrindiau am eu caredigrwydd tuag atynt tra bu Mrs Jones yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Dymunant ddiolch hefyd am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniasant yn eu profedigaeth o golli brawd Mrs Jones.

Cydymdeimlo: Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at:

— Mrs Jones, Treflys, yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd;
— Mrs Jones, Cae Adda, yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd;
— Mrs Mair Parry, Deulyn, yn ei phrofedigaeth o golli ei mham;
— Mr William Owen, Noddfa, Stad Tref Eilian, yn ei brofedigaeth o golli brawd;

— Mr Turley a'r teulu, Stad Tref Eilian, yn eu profedigaeth o golli priod a mam annwyl;

— Mrs Enid Williams, Heli, a Tegid, yn eu profedigaeth o golli mam — Mrs K. Hughes, Llys Meredydd.

Diolch: Dymuna teulu'r ddiweddar Mrs Kathleen Hughes, Llys Meredydd, ddiolch yn gynnes iawn i berthnasau, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl iawn.

Hefyd diolch am y rhoddion a dderbyniwyd tuag at Ward Peblig, Ysbyty Eryri. Trosglwyddwyd £200 i Ward Peblig.

Gwellhad wedi damweiniâu: Cyfarfu Kevin Tame, Stad Glyn Afon â damwain yn ei gar; a bu Mrs G. Jones, Stad Tref Eilian yn gaeth i'w chartref ar ôl anaf i'w choes; ac fe fu Keith Owen, Stad Tŷ Hen mewn damwain gyda'i gar ar ôl y llifogydd glaw fwrw'r Sul diwethaf. Gobeithio eich bod eich tri yn gwella erbyn hyn.



ERYRI ORGANIG

LLANFAGLAN

Ffôn: C'fon 76905

Rhwng 5 a 7 yr hwyr

CYFLENWYR CYNNYRCH GARDDIO ORGANIG

★ Gwrtaiath ★ Bwydydd Hylif

★ Offer atal Pla a Chwyn ★ Compost a mwy

Archebion Post 'Garddio llaw yn llaw â Natur'

GORSAF BETROL



BERAN

DEINIOLEN.

Ffôn: Llanberis 871521

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
Petrol ● Diesel ● Nwy Calor ● Glo
Cylchgronnau ● Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd ● Wyau
Nwyddau Groser ● Melysion

Cyfle i ennill £10 bob wythnos i bawb sy'n prynu petrol

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ar Agor
 9-7pm
 9-7pm Sadwrn
Argau
 Sul a Mercher



Dewis eang o
 Welyau Sengl a Dwbl.
 Dewis eang o '3 Piece Suites'.
 Lleni 'Venetian' a Lleni 'Roler'.
 Gwaith Contract.
 5,000 llathen sgwâr o garpedi
 mewn stoc — allwch chi
 fforddio prynu o batrymau?

WAUNFAWR 291

BRYNREFAIL

Miss Lowri Prys Roberts,
Godre'r Coed. Ffôn: 870580

Cymdeithas y Chwiorydd: Bu cyfarfod o'r Gymdeithas yn y Ffestri, nos Iau, Gorffennaf 2, dan lywyddiaeth Mrs J. A. Roberts, 2 Ffrwd Madog. Arweiniwyd yn y defosiwn gan Miss A. M. Williams, Llys Arfon, a alwodd ein sylw at y trysor o fyfyrddodau sydd i'w canfod dan y teitl 'The End of the Week' yng ngodre'r golofn olygyddol pob Sadwrn yn newyddiadur y *Daily Post*. Arhosodd ag enghraifft oedd yn ein hannog i neilltuo ychydig funudau yn ddyddiol i fyfyrddod am Grist gan derfynu â darlleniad pwrpasol o'r Ysgrhythur. Gŵr gwadd y noson oedd Mr Dyfan Roberts, Llanrug. Cafwyd sgwrs grefftus ganddo yn adrodd hanes ei fagwraeth a'i yrfa fel actor — sgwrs gyda llawer o hiwmor a digrifwch ond nid heb ei munudau gwir ddwys ac effeithiol a erys yn y cof am amser maith.

Penodiad: Llongyferchir Mrs Jane Williams, Carreg Siân, Erw Nant, ar gael ei phenodi yn Brifathrawes Ysgol Gynradd Rhiwlas. Pob dymuniad da yn eich swydd newydd.

Profedigaeth: Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mr Colin Wager, Y Llythyrdy, yn ei brofedigaeth o golli ei fam, sef y ddiweddar Mrs Annie Butler, Ashton-under-Lyne, ar Orffennaf 30ain.

CEUNANT

Gohebydd: Gwenno Parri,
Morwel (Waunfawr 321)

Cofion: Anfonwn ein cofion at Mrs Pritchard, Glasfryn, yn Ysbyty Gwynedd. Brysiwch wella.

Llongyfarchiadau i Robin ac Evelyn, Tyddyn Ni, ar enedigaeth merch ar y Awst 1 — Elin Haf, chwaer fach i Ceri a Dafydd. Pob hwyl i DAfydd, a fydd ynd echrau yn Ysgol Gynradd Llanrug ym mis Medi.

Llongyfarchiadau i Julie, Rhos y Grug, ar ei llwyddiant gyda'i gwaith 'cwiling', fel un o dim Arfon a ddaeth yn ail yn Eisteddfod Merched y Wawr ym Mhontrhydfendigaid, yn ddiweddar. Roedd Julie wedi gwneud cloc bendigedig a oedd yn werth ei weld.

Llongyfarchiadau i bawb yn yr ardal a fu'n llwyddiannus yn eu arholiadau TGAU a Lefel-A yn ddiweddar.

W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 673248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestedig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Plumbing and
Mechanical
Services
Contractors



Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

NANT PERIS

Ann Fleming, Dolwen,
8 Nant Ffynnon.



Llongyfarchiadau i Alan Pritchard am ennill medal aur a chwpan am chwarae snwcer yng ngemau 'transplant', yn Exeter, yn ystod mis Gorffennaf.

Llongyfarchwn hefyd Iwan ac Einir ar enedigaeth merch, Mari Wyn, chwaer i Elin Wyn, ar Orffennaf 8fed.

Gwellhad: Dymunwn wellhad llwyr a buan i G. S. Jones, Gwynant.

Dathlu Pen-blwydd: Dymunwn ben-blwydd hapus i Griffith Closs Williams, 3 Tan-y-bryn (sydd ar hyn o bryd yn aros yng nghartref Bron Eryri, Llanberis) ar dathlu ei ben-blwydd yn 89 oed.

TAN Y COED

Annwen Parry, Ael y Bryn
Ffôn: 870276

Llongyfarchiadau i Kelly L. Roberts, Awelfryn, ar basio ei arholiad Gradd 1 piano o dan y Royal School of Music. Ei hathrawes yw L. Griffith.

Llongyfarchiadau hefyd i Mrs Macann, Preswylfa, Tai Trefor, ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 90 oed. Pob dymuniad da iddi.

Llongyfarchwn hefyd Mrs Gwyneth Thomas, Gwelfor, ar basio ei arholiad blwyddyn gyntaf mewn Fferyllaeth yng Ngholeg West Cheshire, Caer.

Gwellhad buan i Mr D. Williams, Bryn Hyfryd, a dreuliodd amser yn yr ysbyty. Yr un yw'n dymuniad hefyd i Mr Michael Blanchard, mab Mr a Mrs Blanchard, Pont y Coed, wedi llawdriniaeth yn yr ysbyty. Hefyd Mathew Bent a gafodd ddamwain a thorri ei goes yn ddiweddar.

Gwellhad buan i chwi i gyd.

Llongyfarchiadau i Kirsty Macann, 'Rallt, ar basio i fod yn feddyg ac sy'n dechrau ar ei gyrfa yn Ysbyty Caer.

Llongyfarchwn hefyd pawb a fu'n llwyddiannus yn eu arholiadau yn ddiweddar.

DRAENOG

Mae diddanu plant yn ystod gwyliau'r haf yn gallu bod yn fusnes drud iawn. Dyna pam yr oedd un fam yn benderfynol o gael ei harian yn ôl pan gafodd un o'r plant ddiweddar a blas dim ond dŵr arno allan o beiriant. Ai mynd i ffônio'r cwmni i gwyno yr oedd pan syrthiodd y ffôn a malu? Gobeithio bydd y pedwar deg ceiniog o ad-daliad yn ddigon i dalu am y ffôn!

CAEATHRO

Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen. Ffôn: C'fon. 3536

Diolch: Dymuna Emily Huws, Tyddyn Llwyni, ddiolch yn ddiffuant ac yn gynnes iawn i bawb am eu haelioni eithriadol ar achlysur ei hymddeoliad o Ysgol Bontnewydd yn ddiweddar.

Diolch o galon hefyd am bob cefnogaeth a charedigrwydd ar hyd y blynyddoedd y bu'n dysgu yno. Gwerthfawrogi'r cyfan yn arw iawn.

Llongyfarchiadau i Sara Webster (Edwards gynt) ar basio ei arholiadau yng Ngholeg Meddygol Lerpwl. Mae hi bellach wedi dechrau ar ei gwaith fel meddyg yn y ddinas.

Llongyfarchiadau i ddau o ddarlennwyr yr Eco (a fyddant yn ddi-enw!) a fu'n dathlu eu pen-blwydd mawr yn ystod yr haf. Dymuniadau gorau oddi wrth eu ffrindiau i gyd.

Diolch: Dymuna Beryl ac Eric Roberts, Gerallt, ddiolch yn fawr i bawb a fu mor garedig wrth Lois tra yn yr ysbyty.

Gwasanaethau'r Capel: Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn ystod yr wythnosau nesaf — Medi 13: Parch W. R. Williams (Gweinidog) am 2; 20: Mr John Roberts am 2; 27: Parch S. O. Hughes am 2.

DIRGELWCH

Ers cyn cof mae yna bâr o elyrch wedi bod ar Llyn Padarn, er mai aros dros dro yr oeddynt. Yn y gwanwyn cynnar diflannu a wnaent. Ac yna dychwelyd eilwaith yn urddasol a'i thylwyth bach o'i hôl fel cynffon hir.

Ond, eleni fodd bynnag yn groes i'w harfer aros yn eu cynefin oedd y nod. Gwnaethant eu nyth ar lain o dir coediog a oedd yn ymestyn i'r dŵr ym Mhen-llyn. Nyth cadarn a solat i wrthsefyll yr elfennau. Yna dodwy a dechrau gori. Eisteddai'r iâr yn llonydd fel cerflun o farmor, allan o ddwmdwr y byd. Yn syllu ar hyd y llyn yn gwyllo y wawr yn deffro. A'i doe a heddiw yn cyfrif mewn cylch amser. A'r tonnau yn lepiant ar y cerrig fel miwsig i dorri ar undonnedd y tawelwch. Ac yntau yn fawreddog yn ymrwyfo yn hamddenol, ond ddim ymhell chwaith, gyda'i lygaid barcud yn ei gwarchod. Ond wedi hir ddisgwyl yn anffodus ni wireddwyd eu gobeithion. Aeth rhywbeth o chwith, ni allaf ddweud beth. Mae yn ddirgelwch. Ond yr hyn a allaf ddweud yw, mai dwy alarch unig, di-epil, digalon a phen isel a welir ar Llyn Padarn heddiw.

'Y GWYLIWR'

NODYN I'R 'GWYLIWR'
(gan y 'Cysodydd')

'Roedd yna ddau gyw gyda'r elyrch ar Llyn Padarn yn ystod mis Gorffennaf a dechrau mis Awst. Bu'r mab a minnau yn gwyllo'r cywion (yn y Glyn, Llanbêr) yn cael eu gwarchod rhag yr ymwelwyr digywilydd a'u bygythiadau hefo'u canws a'u cychod model (yn y rhan honno lle mae rhybudd haerllug yn cyhoeddi fod y rhan honno o'r dŵr yn gysegredig o breifat!). OND, diwedd Awst a dechrau Medi, fel y dywedwch, dau alarch unig sydd yno bellach.

Beth a ddigwyddodd i'r cywion?
Cymeraf yn ganiataol ein bod yn sôn am yr un pâr o elyrch?

Hydref 4: Diolchgarwch. Parch W. R. Williams am 2; 11: Parch H. Gwynfa Roberts am 2.

Sioe Cynnyrch Gardd a Thŷ: Cafwyd sioe weddol lwyddiannus ar y Sadwrn cyn Gŵyl Awst gyda chynnydd ym mhob un o'r dosbarthiadau. Diolch i'r ymgeiswyr. Enillwyr yr adrannau a'r cwpanau oedd — Dosbarth 1 (blodau): enillydd y pedwar adran a Chwpan Plas Treflan oedd J. I. Hughes. Dosbarth 2 (llysiau): enillwyr yr adrannau oedd Albert Jones, Eurwen Huws a J. I. Hughes; gyda Cwpan Cefn Gof yn cael ei gyflwyno i J. I. Hughes. Dosbarth 3 (bwyd): yr enillwyr adrannau oedd Mary Henderson, Alwen Hughes, Dilys Griffiths, Ceri Roberts, Mrs L. E. Jones, Eirian Roberts a Leti Williams. Eirian Roberts a enillodd Cwpan Clwb y Merched. Dosbarth 4 (gwaith llaw): Mrs Heather Jones oedd yr enillydd. Dosbarth 5 (plant) yn dilyn prynhawn o arlunio yn y Ffestri a gwaith cartref, y plant buddugol oedd — Adran 1: Delyth, Rhys a Mari; Adran 3: Delyth, Mari ac Eiddwen; Adran 4: Susan, Mari a Mari; Adran 8: Steven ac UN Arall; Adran 9: Esmor a Catrin; Adran 10: Manon; Adran 11: Ceri; Adran 12: Richard; Adran 13: Simon, Simon ac Elfyn; Adran 14: Richard.

O dan yr amgylchiadau roedd y sioe yn un lwyddiannus. Felly, mae'r pwyllgor bach yn dra diolchgar i'r ymgeiswyr, beirniaid, cefnogwyr, prynwyr a gwerthwyr tocynnau raffl, dyn y drws — a phawb arall am eu cefnogaeth — ac yn arbennig i'r hogia sydd â dawn coginio a'r merched yn yr ardd. Bydd cyfarfod yn yr hydref i baratoi ar gyfer y sioe nesaf. Bydd yn rhaid chwilio am ysgrifennydd a chadeirydd newydd yn dilyn ymddeoliad Mr Eric Roberts o'r swyddi wedi gwasanaeth hir. Diolch yn fawr iawn Eric.

Cefnogwch
ein
Hysbysebwy

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: Caernarfon 2790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn ordor i'ch cartref
yn ardal Llanrug.

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

Daeth tymor yr haf i ben unwaith eto a llawer o'n plant a'n pobl ifanc yn cychwyn gyrfa newydd mewn ysgol, coleg a gwaith. Dymunwn y gorau i bob un ohonynt gan eu llongyfarch i gyd am wneud mor rhagorol yn yr arholiadau ar ddiwedd y tymor diwethaf. Mae amryw o'n pobl ifanc wedi cychwyn ar yrfa yn ystod yr wythnosau diwethaf a dymunwn yn dda iddynt hwythau.

Dymuno ymddeoliad hapus a wnawn i Mrs Enid Williams, Heli, ac i Mr John Edwards, 10 Stad Tŷ Hen. Enillwyr Clwb 300 mis Mehefin — £40: P. A. Missen, Warwick; £25: T. G. Williams, 17 Tref Eilian; £10: Mrs Griffith, Tref Eilian. **Enillwyr mis Gorffennaf** — £40: T. G. Williams, 17 Tref Eilian; £25: Fiona Johnston, Tŷ Gwyn; £10: Mavis Allen, Pen-y-bont. **Eisteddfod Ardal Waunfawr:** Cafwyd noson lwyddiannus iawn yn ddiweddar yn y Noson Goffi i godi arian tuag at gostau yr Eisteddfod. Hoffai'r pwyllgor ddiolch yn fawr iawn i bawb a gefnogodd y noson. Dyma restr enillwyr y raffl — 1, Glenys Williams; 2, Christine Davies; 3, Eirianwen Thomas; 4, Betty Griffiths; 5, Christine Evans; 6, Iona Williams; 7, Humphrey Jones; 8, Jean Jones; 9, Glenda Jones. Enillydd dyfalu pwysau'r deisen oedd Nan Roberts ac am ddyfalu faint o Smarties oedd yn y botel — Sioned Jones.

WEA (Cymdeithas Addysg y Gweithwyr) — Trafod Barddoniaeth: Cynhelir dosbarth eto eleni gan y Prifardd Ieuan Wyn, yn yr Ysgol Gynradd, Waunfawr. Bydd 15 cyfarfod o Fedi 22 am 7 o'r gloch. Cyflwyniad i farddoniaeth gynnar Gymraeg, o'r 6ed ganrif hyd y 13eg. Croeso cynnes i bawb.

Clwb CIC: Bydd cyfarfod cyntaf y tymor yn cael ei gynnal yn y Ganolfan ar nos Iau, Medi 10fed. Plant blwyddyn 1 a 2 am 6.30; blwyddyn 3 ac uwch am 7.30. Y tâl aelodaeth fydd £2.50 am y tymor. Mae llawer o weithgareddau wedi eu trefnu ar eich cyfer gan gynnwys sgïo, canwio, dringo, coginio, ac yn y blaen. Dewch yn llw am sbort a sbrill!

Yr Urdd: Cynhelir cyfarfod o bwyllgor yr Urdd nos Fercher, Medi 9, am 6.30. Bydd tymor yr Urdd yn dechrau ar nos Fercher, Medi 16, am 6.15 o'r gloch yn y Ganolfan. Yr ysgrifennydd

am y tymor hwn yw Joy Glyn, Plas Bodhyfryd. Os am ragor o fanylion ynglŷn â'r cyfarfodydd cysylltwch â hi ar Waunfawr 354. **NODWCH — mae yr amser wedi newid y tymor hwn i rhwng 6.15 a 7.15 o'r gloch.** **Genedigaeth:** Llongyfarchiadau i Shirley a Chris Roberts, 6 Bryn Golau ar enedigaeth mab bychan, Adrian; brawd bach i Wayne, Julie, Kelly a Kimberley. Hefyd fe anwyd merch fach, Ildid, i Linda a Bryn Griffiths, Perthi, ac wyres fach i Mrs Griffiths, Gorffwysfa — llongyfarchiadau iddynt hwythau.

Llongyfarchiadau i Geraint a Barbara Griffiths, Bro Waun, ar ddod yn daid a nain. Ganwyd mab i'w mherch Valerie a'i gŵr, Steve, brawd bach i Russell.

Daeth Mrs M. Owen, Stad Tref Eilian yn hen nain eto — ganwyd mab, Gareth, i'w hwyres Ann a'i gŵr Mark yng Nghaernarfon, brawd bach i Aled.

Bedydd: Mewn gwasanaeth arbennig yng Nghapel Croesywaun, o dan ofal y Parch. S. O. Hughes, bedyddiwyd Dewi, mab bychan Ann a Dean, Teras Eilian. Mewn gwasanaeth yn Eglwys St. Ioan, gyda'r Parch. Barry Thomas yn gweinyddu, bedyddiwyd Ceri, merch fach Debrah, Dôl Erddi. Dymuna teulu Ceri ben-blwydd hapus iddi ar gyrraedd ei blwydd oed.

Priodas: Dymuniadau gorau a phob hapusrwydd i Mia Wildin, Ger y Ffynnon, ar ei phriodas â Gwyn Jones o Garmel. Maent wedi ymgartrefu yn Bodwyn.

Dyweddio: Llongyfarchiadau i Valmai Williams, Cefn Coed, ar ei dyweddïad â Paul Evans o Gaeathro; ac i David Coles, Bro Waun ar ei ddyweddïad â Talina Legget o Gaernarfon.

Dathlu Pen-blwydd Priodas: Llongyfarchiadau i Raymond a Pat Parry, Ffridd Felan, ar ddathlu eu Priodas Berl.

Dathlu pen-blwydd: Llongyfarchiadau i Avril Charge, Llifon, ar gyrraedd ei deunaw oed; — i Nan Wyn, Teras Cefn Du, ar gyrraedd un ar hugain mlwydd oed.

Anfonwn ein cofion cynhesaf at Miss C. E. Williams (Is-Eilian gynt) a fu'n dathlu ei phen-blwydd yn 92 mlwydd oed; ac i Mrs L. Evans, Tegfan, ar gyrraedd ei 90 mlwydd oed. Dymuna Mrs Evans ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau i gyd am y cardiau, rhoddion a phob dymuniad da a

dderbyniodd ar yr achlysur o gyrraedd ei 90 mlwydd oed.

Llwyddiannau cerddorol: Llongyfarchiadau i Rhian Griffith, 6 Tŷ Hen; Sioned Jones, Heulfryn, a Lowri Glyn, Plas Bodhyfryd, y dair yn llwyddiannus yn arholiad piano, gradd 1; i Gareth Cadwaladr, Stad Glyn Afon, ar lwyddo yng ngradd 2, piano; a Heledd Elfryn, Coed Gwydryn, ar lwyddo yn arholiad piano gradd 3 gyda theilyngdod. Bu Bethan Cadwaladr yn llwyddiannus yn arholiad fflwt, gradd 4; ac Emma Britnell yn llwyddiannus yn yr arholiad fflwt.

Llwyddiant Eisteddfodol: Llongyfarchiadau mawr i Elin Gwilym, Llidiart Wen, ar ddod yn fuddugol yn y gystadleuaeth Siarad Cyhoeddus ac yn ail yn y gystadleuaeth llefaru darn digrif yn Eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth. Hefyd Gwennan Jones, Glyn Ceris, a oedd yn aelod o'r parti Cerdd Dant a ddaeth yn fuddugol dan 25 oed yn yr Eisteddfod Genedlaethol.



Elin Gwilym a'i medal.

Yn yr ysbyty: Anfonwn ein cofion cynhesaf at Mrs Gwyneth Griffith, Stad Tref Eilian sydd yn Ysbyty Eryri; ac at Mr Glyn Williams, Plas Glyn Afon, sydd yn yr ysbyty ym Mangor.

Adref o'r ysbyty: Croeso i Aled Taylor, Baladeulyn; Deion Jones, Tan-y-coed; Mrs Catherine Jones, Bryn Derwen; Mr Gwynfor Jones, Stad Pant Waun; Mr Lloyd, Uwch Peblig; Mrs A. Bennet, Llechwedd; Mr Glyn Owen, Glan Gors a Mrs Lilian Jones, Treflys, adref o'r ysbyty.

Diolch: Dymuna Mr a Mrs Jones, Treflys, ddiolch i'w perthnasau, cymdogion a ffrindiau am eu caredigrwydd tuag atynt tra bu Mrs Jones yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Dymunant ddiolch hefyd am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniasant yn eu profedigaeth o golli brawd Mrs Jones.

Cydymdeimlo: Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at:

— Mrs Jones, Treflys, yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd;
— Mrs Jones, Cae Adda, yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd;
— Mrs Mair Parry, Deulyn, yn ei phrofedigaeth o golli ei mham;
— Mr William Owen, Noddfa, Stad Tref Eilian, yn ei brofedigaeth o golli brawd;

— Mr Turley a'r teulu, Stad Tref Eilian, yn eu profedigaeth o golli priod a mam annwyl;

— Mrs Enid Williams, Heli, a Tegid, yn eu profedigaeth o golli mam — Mrs K. Hughes, Llys Meredydd.

Diolch: Dymuna teulu'r ddiweddar Mrs Kathleen Hughes, Llys Meredydd, ddiolch yn gynnes iawn i berthnasau, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl iawn.

Hefyd diolch am y rhoddion a dderbyniwyd tuag at Ward Peblig, Ysbyty Eryri. Trosglwyddwyd £200 i Ward Peblig.

Gwellhad wedi damweiniau: Cyfarfu Kevin Tame, Stad Glyn Afon â damwain yn ei gar; a bu Mrs G. Jones, Stad Tref Eilian yn gaeth i'w chartref ar ôl anaf i'w choes; ac fe fu Keith Owen, Stad Tŷ Hen mewn damwain gyda'i gar ar ôl y llifogydd glaw fwrw'r Sul diwethaf. Gobeithio eich bod eich tri yn gwella erbyn hyn.



ERYRI ORGANIG

LLANFAGLAN

Ffôn: C'fon 76905

Rhwng 5 a 7 yr hwyr

CYFLENWYR CYNNYRCH GARDDIO ORGANIG

★ Gwrtait ★ Bwydydd Hylif

★ Offer atal Pla a Chwyn ★ Compost a mwy
Archebion Post 'Garddio llaw yn llaw â Natur'

GORSAF BETROL



BERAN

DEINIOLEN.

Ffôn: Llanberis 871521

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
Petrol ● Diesel ● Nwy Calor ● Glo
Cylchgronnau ● Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd ● Wyau
Nwyddau Groser ● Melysion

Cyfle i ennill £10 bob wythnos i bawb sy'n prynu petrol

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR

Ar Agor
9-7pm
9-7pm Sadwrn
Argau
Sul a Mercher



Dewis eang o
Welyau Sengl a Dwbl.
Dewis eang o '3 Piece Suites'.
Lleni 'Venetian' a Lleni 'Roler'.
Gwaith Contract.
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc — allwch chi
fforddio prynu o batrymau?

WAUNFAWR 291

BRYNREFAIL

Miss Lowri Prys Roberts,
Godre'r Coed. Ffôn: 870580

Cymdeithas y Chwiorydd: Bu cyfarfod o'r Gymdeithas yn y Ffestri, nos Iau, Gorffennaf 2, dan lywyddiaeth Mrs J. A. Roberts, 2 Ffrwd Madog. Arweiniwyd yn y defosiwn gan Miss A. M. Williams, Llys Arfon, a alwodd ein sylw at y trysor o fyfyrddodau sydd i'w canfod dan y teitl 'The End of the Week' yng ngodre'r golofn olygyddol pob Sadwrn yn newyddiadur y *Daily Post*. Arhosodd ag enghraifft oedd yn ein hannog i neilltuo ychydig funudau yn ddyddiol i fyfyrddod am Grist gan derfynu â darlleniad pwrpasol o'r Ysgrythur. Gŵr gwadd y noson oedd Mr Dyfan Roberts, Llanrug. Cafwyd sgwrs greffus ganddo yn adrodd hanes ei fagwraeth a'i yrfa fel actor — sgwrs gyda llawer o hiwmor a digrifwch ond nid heb ei munudau gwir ddwys ac effeithiol a erys yn y cof am amser maith.

Penodiad: Llongyferchir Mrs Jane Williams, Carreg Siân, Erw Nant, ar gael ei phenodi yn Brifathrawes Ysgol Gynradd Rhiwlas. Pob dymuniad da yn eich swydd newydd.

Profedigaeth: Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mr Colin Wager, Y Llythyrdy, yn ei brofedigaeth o golli ei fam, sef y ddiweddar Mrs Annie Butler, Ashton-under-Lyne, ar Orffennaf 30ain.

CEUNANT

Gohebydd: Gwenno Parri,
Morwel (Waunfawr 321)

Cofion: Anfonwn ein cofion at Mrs Pritchard, Glasfryn, yn Ysbyty Gwynedd. Brysiwch wella.

Llongyfarchiadau i Robin ac Evelyn, Tyddyn Ni, ar enedigaeth merch ar y Awst 1 — Elin Haf, chwaer fach i Ceri a Dafydd. Pob hwyl i DAfydd, a fydd ynd echrau yn Ysgol Gynradd Llanrug ym mis Medi.

Llongyfarchiadau i Julie, Rhos y Grug, ar ei llwyddiant gyda'i gwaith 'cwiling', fel un o dîm Arfon a ddaeth yn ail yn Eisteddfod Merched y Wawr ym Mhontrhydfendigaid, yn ddiweddar. Roedd Julie wedi gwneud cloc bendigedig a oedd yn werth ei weld.

Llongyfarchiadau i bawb yn yr ardal a fu'n llwyddiannus yn eu arholiadau TGAU a Lefel-A yn ddiweddar.

W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 673248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestedig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Plumbing and
Mechanical
Services
Contractors



Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

NANT PERIS

Ann Fleming, Dolwen,
8 Nant Ffynnon.



Llongyfarchiadau i Alan Pritchard am ennill medal aur a chwpan am chwarae snwcer yng ngemau 'transplant', yn Exeter, yn ystod mis Gorffennaf.

Llongyfarchwn hefyd Iwan ac Einir ar enedigaeth merch, Mari Wyn, chwaer i Elin Wyn, ar Orffennaf 8fed.

Gwellhad: Dymunwn wellhad llwyr a buan i G. S. Jones, Gwynant.
Dathlu Pen-blwydd: Dymunwn ben-blwydd hapus i Griffith Closs Williams, 3 Tan-y-bryn (sydd ar hyn o bryd yn aros yng nghartref Bron Eryri, Llanberis) ar ddathlu ei ben-blwydd yn 89 oed.

TAN Y COED

Annwen Parry, Ael y Bryn
Ffôn: 870276

Llongyfarchiadau i Kelly L. Roberts, Awelfryn, ar basio ei arholiad Gradd 1 piano o dan y Royal School of Music. Ei hathrawes yw L. Griffith.

Llongyfarchiadau hefyd i Mrs Macann, Preswylfa, Tai Trefor, ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 90 oed. Pob dymuniad da iddi.
Llongyfarchwn hefyd Mrs Gwyneth Thomas, Gwelfor, ar basio ei arholiad blwyddyn gyntaf mewn Fferyllaeth yng Ngholeg West Cheshire, Caer.

Gwellhad buan i Mr D. Williams, Bryn Hyfryd, a dreuliodd amser yn yr ysbyty. Yr un yw'n dymuniad hefyd i Mr Michael Blanchard, mab Mr a Mrs Blanchard, Pont y Coed, wedi llawdriniaeth yn yr ysbyty. Hefyd Mathew Bent a gafodd ddamwain a thorri ei goes yn ddiweddar. Gwellhad buan i chwi i gyd.

Llongyfarchiadau i Kirsty Macann, 'Rallt, ar basio i fod yn feddyg ac sy'n dechrau ar ei gyrfa yn Ysbyty Caer.

Llongyfarchwn hefyd pawb a fu'n llwyddiannus yn eu arholiadau yn ddiweddar.

DRAENOG

Mae diddanu plant yn ystod gwyliau'r haf yn gallu bod yn fusnes drud iawn. Dyna pam yr oedd un fam yn benderfynol o gael ei harian yn ôl pan gafodd un o'r plant ddiod a blas dim ond dŵr arno allan o beiriant. Ai mynd i ffônio'r cwmni i gwyno yr oedd pan syrthiodd y ffôn a malu? Gobeithio bydd y pedwar deg ceiniog o ad-daliad yn ddigon i dalu am y ffôn!

CAEATHRO

Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen. Ffôn: C'fon. 3536

Diolch: Dymuna Emily Huws, Tyddyn Llwyni, ddiolch yn ddiffuant ac yn gynnes iawn i bawb am eu haelioni eithriadol ar achlysur ei hymddeoliad o Ysgol Bontnewydd yn ddiweddar. Diolch o galon hefyd am bob cefnogaeth a charedigrwydd ar hyd y blynyddoedd y bu'n dysgu yno. Gwerthfawrogi'r cyfan yn arw iawn.

Llongyfarchiadau i Sara Webster (Edwards gynt) ar basio ei arholiadau yng Ngholeg Meddygol Lerpwl. Mae hi bellach wedi dechrau ar ei gwaith fel meddyg yn y ddinas.

Llongyfarchiadau i ddau o ddarlennwyr yr Eco (a fyddant yn ddiennwl!) a fu'n dathlu eu pen-blwydd mawr yn ystod yr haf. Dymuniadau gorau oddi wrth eu ffrindiau i gyd.

Diolch: Dymuna Beryl ac Eric Roberts, Gerallt, ddiolch yn fawr i bawb a fu mor garedig wrth Lois tra yn yr ysbyty.

Gwasanaethau'r Capel: Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn ystod yr wythnosau nesaf — Medi 13: Parch W. R. Williams (Gweinidog) am 2; 20: Mr John Roberts am 2; 27: Parch S. O. Hughes am 2.

DIRGELWCH

Ers cyn cof mae yna bâr o elyrch wedi bod ar Llyn Padarn, er mai aros dros dro yr oeddynt. Yn y gwanwyn cynnar diflannu a wnaent. Ac yna dychwelyd eilwaith yn urddasol a'i thylwyth bach o'i hôl fel cynffon hir.

Ond, eleni fodd bynnag yn groes i'w harfer aros yn eu cynefin oedd y nod. Gwnaethant eu nyth ar lain o dir coediog a oedd yn ymestyn i'r dŵr ym Mhen-llyn. Nyth cadarn a solat i wrthsefyll yr elfennau. Yna dodwy a dechrau gori. Eisteddai'r iâr yn llonydd fel cerflun o farmor, allan o ddwndwr y byd. Yn sylu ar hyd y llyn yn gwyllo y wawr yn deffro. A'i doe a heddiw yn cyfrif mewn cylch amser. A'r tonnau yn lepiant ar y cerrig fel miwsig i dorri ar undonnedd y tawelwch. Ac yntau yn fawreddog yn ymrwyfo yn hamddenol, ond ddim ymhell chwaith, gyda'i lygaid barcud yn ei gwarchod. Ond wedi hir ddisgwyl yn anffodus ni wireddwyd eu gobeithion. Aeth rhywbeth o chwith, ni allaf ddweud beth. Mae yn ddirgelwch. Ond yr hyn a allaf ddweud yw, mai dwy alarch unig, di-epil, digalon a phen isel a welir ar Llyn Padarn heddiw.

'Y GWYLIWR'

NODYN I'R 'GWYLIWR'
(gan y 'Cysodydd')

'Roedd yna ddau gyw gyda'r elyrch ar Lyn Padarn yn ystod mis Gorffennaf a dechrau mis Awst. Bu'r mab a minnau yn gwyllo'r cywion (yn y Glyn, Llanbêr) yn cael eu gwarchod rhag yr ymwelwyr digywilydd a'u bygythiadau hefo'u canŵs a'u cychod model (yn y rhan honno lle mae rhybudd haerllug yn cyhoeddi fod y rhan honno o'r dŵr yn gysegredig o breifat!). OND, diwedd Awst a dechrau Medi, fel y dywedwch, dau alarch unig sydd yno bellach.

Beth a ddigwyddodd i'r cywion? Cymeraf yn ganiataol ein bod yn sôn am yr un pâr o elyrch?

Hydref 4: Diolchgarwch. Parch W. R. Williams am 2; 11: Parch H. Gwynfa Roberts am 2.

Sioe Cynnyrch Gardd a Thŷ: Cafwyd sioe weddol lwyddiannus ar y Sadwrn cyn Gŵyl Awst gyda chynnydd ym mhob un o'r dosbarthiadau. Diolch i'r ymgeiswyr. Enillwyr yr adrannau a'r cwpanau oedd — Dosbarth 1 (blodau): enillydd y pedwar adran a Chwpan Plas Treflan oedd J. I. Hughes. Dosbarth 2 (llysiau): enillwyr yr adrannau oedd Albert Jones, Eurwen Huws a J. I. Hughes; gyda Chwpan Cefn Gof yn cael ei gyflwyno i J. I. Hughes. Dosbarth 3 (bwyd): yr enillwyr adrannau oedd Mary Henderson, Alwen Hughes, Dilys Griffiths, Ceri Roberts, Mrs L. E. Jones, Eirian Roberts a Leti Williams. Eirian Roberts a enillodd Chwpan Clwb y Merched. Dosbarth 4 (gwaith llaw): Mrs Heather Jones oedd yr enillydd. Dosbarth 5 (plant) yn dilyn prynhawn o arlunio yn y Ffestri a gwaith cartref, y plant buddugol oedd — Adran 1: Delyth, Rhys a Mari; Adran 3: Delyth, Mari ac Eiddwen; Adran 4: Susan, Mari a Mari; Adran 8: Steven ac UN Arall; Adran 9: Esmor a Catrin; Adran 10: Manon; Adran 11: Ceri; Adran 12: Richard; Adran 13: Simon, Simon ac Elfyn; Adran 14: Richard.

O dan yr amgylchiadau roedd y sioe yn un lwyddiannus. Felly, mae'r pwyllgor bach yn dra diolchgar i'r ymgeiswyr, beirniaid, cefnogwyr, prynwyr a gwerthwyr tocynnau raffl, dyn y drws — a phawb arall am eu cefnogaeth — ac yn arbennig i'r hogia sydd â dawn coginio a'r merched yn yr ardd. Bydd cyfarfod yn yr hydref i baratoi ar gyfer y sioe nesaf. Bydd yn rhaid chwilio am ysgrifennydd a chadeirydd newydd yn dilyn ymddeoliad Mr Eric Roberts o'r swyddi wedi gwasanaeth hir. Diolch yn fawr iawn Eric.

Cefnogwch
ein
Hysbysebwyrr

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: Caernarfon 2790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn ordor i'ch cartref
yn ardal Llanrug.

CWM-Y-GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: 872275

Llongyfarchiadau:

— Catherine ac Elwyn Foulkes, 3 Y Bryn, ar ddathlu eu Priodas Arian ar 1 Awst;
— Myfanwy, Bod Gwilym a Mark, 13 Stryd Tomos, Caernarfon, ar eu dyweddïad;
— Einir, Min-y-nant, ar ennill gradd B.A. ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth;
— Alison, Arosfa, Fron Gader, ar ennill gradd B.A. ym Mhrifysgol Caergaint;
— Martin, Glandŵr, a ddaeth yn ail yn Ras yr Wyddfa o dan 14 oed;
— Miriam Llywelyn, 'Rallt Deg, am ennill Coron Eisteddfod Powys yn Llanfyllin, ac hefyd ennill y wobr gyntaf am ysgrifennu drama fer i ferched yn yr Eisteddfod Genedlaethol, Aberystwyth;
— Nia, 17 Dôl Afon, ar ei llwyddiant yn ei arholiadau Lefel-A;
— holl blant y pentref a fu'n llwyddiannus yn eu arholiadau yn yr ysgol neu goleg. Pob dymuniad da i'r rhai sy'n mynd i goleg neu yn dechrau mewn swydd am y tro cyntaf.



Karate: Cymerodd pedwar o fechgyn o'r Cwm ran mewn arddangosfa Karate yn ddiweddar yng Nghanolfan Llanberis, gyda'r elw yn mynd i Gronfa Ymchwil y Cancr Ysbyty Gwynedd; ac hefyd yn Sioe Amethyddol Gogledd Cymru yng Nglynllifon. Mae'r pedwar, sef Kevin Williams, Terry Williams, Glyn Price a Carl Jones yn aelodau o Glwb Karate Llanrug ac yn cael eu hyfforddi gan Kevin Siddall.



Priodas: Llongyfarchiadau i Alison, merch Mr a Mrs Len Jones, Arosfa, Fron Gader, ac Andrew, mab Mr a Mrs Hill o'r Unol Daleithiau, ar achlysur eu priodas. Bydd y pâr ifanc yn ymgartrefu yn yr Unol Daleithiau. Dymunwn pob dymuniad da a hapusrwydd iddynt.

Marwolaeth: Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd ar Fehefin 27 bu farw Mr Hugh D. Pritchard, Bryn Gwynedd, yn 77 oed. Bu'r angladd yng Nghapel Pontrhythallt ac yna yn dilyn ym Mynwent Llanrug. Gwasanaethodd gan y Parch. John Morris a'r organyddes oedd Mrs Mair Hughes. Estynwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i briod, Mrs Glenys Pritchard, a'r meibion Geraint a Cledwyn; Megan a Lynda (merched yng nghyfraith); Paul ac Elizabeth (wyr ac wyres); a'r teulu oll yn eu profedigaeth a'u hiraeth.

Mabolgampau: Ar bnawn braf, Gorffennaf 10, cynhaliwyd Gemau Olympaidd Ysgol Cwm-y-glo ar gae y pentref. Daeth yr haul i wenu arnom am unwaith, a llafuriodd pawb ar eu gorau ar gyfer y ddau dîm — Bogelyn a Rhythallt.

Yr oedd y marciau terfynol yn agos iawn ond Bogelyn a orfu o 85 marc i'r 73 a ddyfarnwyd i Rhythallt.

Pencampwyr y Pryfed Cop oedd Rachael Owen a'r Victor Ludorum — Kevin Williams efo Ben Chadwick a Keith Williams yn ail agos iawn. Y Victrix Ludorum oedd Lehanne Thornton.

Da iawn bawb a diolch i'r rhieni am eu cefnogaeth.

Helfa Drysor: Yn wahanol i'r Barbeciwr cafwyd noson braf, boeth, i'r Helfa Drysor. Trefnwyd y noson gan Mr a Mrs Mel Roberts, Brynrefail, a diolch o galon i'r ddau am eu gwaith caled — dros 60 o gwestiynau!!

Bu dros 50 o rieni, plant a chyfeillion yn crwydro'r pentref. Rhai yn chwysu'n galed ac eraill yn gweld y gwaith yn hawdd! Gan ei bod mor boeth trefnwyd paned, diod a bisgedi ar ôl cyrraedd yn ôl.

Yn fuddugol roedd Nigel, Karen, Karrah a Steph Williams a hwy fydd yn trefnu'r Helfa y flwyddyn nesaf. Yn ail — Dewi Wyn Jones a'r teulu; ac yn drydydd — Margaret a Keith, Bryn, — wedi curo'r gŵr a'r ferch!

Gwobr gysur i Judith Pritchard a'r teulu — bu rhaid gorffen yn fuan oherwydd galwadau gwaith a'r wobr gysur arall i Rhys.

Diolch i bawb am eu hymdrechion a gododd £54.94 i gronfa'r Ysgol.

Dyma fuddugwyr y raffl — Amy Lambert, Mrs Paula Roberts, Mathew Roberts, Siân McKerracher, Mrs Paula Roberts, Sarah Wager, Mathew Roberts.

Disgo Diwedd Tymor: Nos Fercher, Gorffennaf 15, cynhaliwyd Disgo Diwedd Tymor Ysgol Cwm-y-glo i gloi'r tymor ac i ffarwelio â Sarah Wager, Shelley Price a Kevin Williams.

Cafwyd noson arbennig o dda efo nifer o rieni a chyfeillion yn bresennol. Trefnwyd y disgo gan Mrs Nellie Cullen, nain Kim, a diolch yn fawr i'r hogia am eu gwaith.

Yr oedd y Twba Lwcus a'r Stondin Boteli yn boblogaidd iawn; y dafarn ddiod-ysgafn yn gwerthu fel slecs ond o! — y raffl — 30 o wobrau, y nifer mwyaf eto.

Diolch i bawb am eu cefnogaeth a'u gwaith a gobeithio fod pawb wedi mwynhau eu hunain cymaint ag y gwnes i.

FFARWELIO Â'R PRIFATHRO



Y Cyngorydd Brian Jones yn cyflwyno anrheg i'r Prifathro, Mr J. R. Williams, yn y cyfarfod ffarwelio.

Cyfarfod anrhegu: Ddydd lau olaf tymor yr haf daeth nifer fawr i'r Ysgol i gyfarfod anrhegu Mr J. R. Williams sydd wedi ei benodi yn Brifathro Ysgol Bryngwran, Ynys Môn. Cymerodd holl blant yr Ysgol ran ar lafar ac ar gân ac yna cyflwynodd Sara Wager a'r Cyngorydd Brian Jones anrhegion i Mr Williams ar ran y plant, rhieni, llywodraethwyr, staff a chyfeillion, gan ddymuno'n dda i Mr Williams yn ei swydd newydd.

Diolchwyd i Mr Williams am ei waith i Ysgol Gymuned Cwm-y-glo am y tair blynedd a hanner y bu gyda ni gan gyn-gadeirydd y llywodraethwyr, Mr Francis Jones.

Croeso: Croesawn yn gynnes iawn gan ddymuno pob hapusrwydd i Mrs Mair Huws o Lanrug sydd wedi ei phenodi yn Brifathrawes Ysgol Gymuned Cwm-y-glo.

Buddugwyr y raffl: 1, Kevin Williams; 2, Gareth Price; 3, Terry Williams; 4, Andrew Jones Brynrefail; 5, Mrs Alwen Jones; 6, Josh Green; 7, Veronica Williams; 8, Owen Barnicott; 9, Sarah Wager; 10, Brendan Davidson; 12, Mrs Rhian Jones; 13, Josh Green; 14, Chelsea, Dolafon; 15, Joyce Rowe; 16, Joyce Rowe; 17, Ceri Jones, Dolafon; 18, Joyce Rowe; 19, Robert Davidson; 20, Joyce Rowe; 21, Mathew Barnicott; 22, Amy Lambert; 23, Andrew Jones Brynrefail; 24, Keith Williams; 25, Jessica Callaghan; 26, Veronica Williams; 27, Brenda Davidson; 28, Angharad Swift; 29, Brendan Davidson; 30, Donna Williams.

Barbeciwr: Beth fasa chi'n neu ar ôl iddi fwrw glaw bron drwy'r dydd ac yn addo mwy o stormydd o feltt a tharanau? Cynnal Barbeciwr wnaeth Adran Gymuned Ysgol Cwm-y-glo.

'Daeth y glaw i lawr a chodi wnaeth y lli, ond phoenodd JR a DP ddim, dim ond cario ymlaen efo'r trefniadau. Bu profiadau y llynedd yn werthfawr iawn.

Eleni, teimla'r ddau iddynt gael gwell hwyl, os oedd hynny'n bosibl, ar y coginio. Daeth miloedd o bobl i'r ysgol! (Wel, criw mawr iawn, beth bynnag.) Cafodd pawb lond bol o fwyd ac fel fydd pob Gwlad y Medra yn dweud 'Bwyta fel bwngis'.

Diolch i'r criw bach ond gweithgar tu hwnt am wneud y noson yn llwyddiant mor ysgubol. (Lle basa ni heb y merched, d'wch er mai dau ddyn oedd yn gyfrifol am y diod ysgafn a dau arall am y tanio) Gwnaed elw o £370 i Gronfa'r Adran Gymuned. Diolch hefyd i Hogia'r Disgo am eu gwaith. Maent bob amser yn barod i helpu allan, chwarae teg iddynt.

Fel arfer, yr oedd yna raffls rif y gwlith a dyma restr o'r rhai lwcus —

Annwyl Eco'r Wyddfa, Manteisiaf ar hwn, fy nghyfle olaf, i ysgrifennu atoch i ddiolch am ei parodrwydd, dros y 3½ blynedd diwethaf, i roi gofod i hanesion a digwyddiadau yr Ysgol. Bu'ch papur yn gyfrwng i godi'm calon sawl gwaith. Diolch yn fawr iawn.

Dymunaf, hefyd, ddiolch i blant a rhieni, llywodraethwyr a staff a chyfeillion Ysgol Gymuned Cwm-y-glo am eu cefnogaeth barod bob amser ac yn arbennig am eu caredigrwydd a'u dymuniadau da.

Ar yr un pryd, dymunaf pob lwc i bennaeth newydd yr Ysgol — Mrs Mair Hughes.

Gyda diolch i bawb am bob cymwynas.

Yn gywir iawn,
J. RICHARD WILLIAMS

Bocs o Ddrewi Neis: Meirion Williams, Llanerchymedd; Helmed Beic: Owain Gwyn, Min y Nant, Cwm-y-glo; Bocs Nwyddau: Kevin Williams, Glanbogelyn, Cwm-y-glo; Llun o Bont Pen-llyn: Mrs Enid Price, Cwm-y-glo. Raffl fawr — Mainc Gardd: Michael Bellini, Rhesdai'r Bryn, Cwm-y-glo; Llestri Cinio: Kim Cullen, Bro Rhythallt, Llanrug; Bocs Neges: Yvonne, 38 Bro Rhythallt, Llanrug; Bocs Neges arall: Wager, Llythyr, Brynrefail; Crys T: Michael Bellini, Rhesdai'r Bryn, Cwm-y-glo; Potel o Win: Nigel Williams, 2 Pool Street, Cwm-y-glo; Biro: Ceri Jones, Cennarth, Rhiwlas; Pinnau Ffelt: Mrs Enid Price, Cwm-y-glo.

Diolch i bawb a gyfrannodd wobrau ac i bawb arall am gefnogi yr achos mor dda. Braf oedd gweld cymaint o hen ffrindiau a rhai newydd. Diolch i hogia'r BBC (os dudith rhywun wrthynt) am roi cymaint o gyhoeddusrwydd i ni. Diolch yn fawr iawn.

Clwb Pobl y Cwm: Ar ddiwedd y tymor eleni, bu'r aelodau ar wibdaith i Ddolgellau a'r Bermo, a phleser oedd cawl cwmni rhai ffrindiau ar y daith. Bu'r hin yn garedig, a phawb yn mwynhau harddwch y wlad, a braf oedd cael Melfyn Roberts, gŵr ifanc o'r Cwm, i'n llywio'n ofalus ar y daith.

Daeth colled a bwllch eto i'n rhan, ym marwolaeth Mr Hugh Pritchard, bu ef a Mrs Pritchard yn aelodau brwd o'r dechrau, ac er i Mr Pritchard gael cystudd hir a phoenus, daliodd

(Parhad ar dudalen 17)

LLANRUG

Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhyddallt. Ffôn: C'fon. 76733

Llongyfarchiadau mawr i lola Bayldon Jones, Treflys, Ffordd yr Orsaf, ar ei champ arbennig. Fe'i dewiswyd yn fyfyrwr gorau yr ail flwyddyn ar gwrs Trin Gwallt, yng Ngholeg Technegol Bangor. Pob dymuniad da iddi i'r dyfodol.

Plaid Cymru: Bu pwyllgor y gangen yn paratoi rhaglen y tymor nesaf yn eu cyfarfod olaf. Mewn rhaglen amrywiol bydd rhywbeth at ddant pawb gyda Ffair Naolig a Siôn Corn ar Ragfyr 2 yn apelio at bob oedran. Ond i ddechrau fe drefnir perfformiad gan Theatr Bara Caws ar nos Fercher, Medi 16, yn Neuadd Ysgol Brynrefail am 7.30 o'r gloch. Fe gyflwynir y sioe deulu 'Lawr y Lôn' a bydd y tocynnau ar gael gan aelodau'r pwyllgor neu ffoniwch Waunfawr 200.

Nos Fercher, Medi 30, fe ddaw O. M. Roberts, Conwy, atom i ddweud 'Hanes Cychwyn Plaid Cymru'. Yn sicr bydd y noson yma yn wledd arbennig, a gwahoddwn aelodau a ffrindiau Llanrug a'r pentrefi cyfagos i'r cyfarfod. Fe'i cynhelir yn y Sefydliad Coffa am 7.30 o'r gloch.

Bu amryw o'n haelodau yn wael ac yn yr ysbyty yn ystod yr haf. Anfonwn ein cofion cynnes atynt i gyd a dymuniadau da am wellhad buan.

Cydymdeimlwn â'r rhai a gafodd brofedigaeth yn ddiweddar.

Llongyfarchwn — Mair Huws, Glasgoed ar ei phenodi yn Bennaeth Ysgol Gynradd Cwm-y-glo; — Haf Thomas, Buarthau, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 21 oed.

Ymfalchiwn yn llwyddiant amryw o'n haelodau yn yr Eisteddfod Genedlaethol fel unigolion ac fel aelodau o bartion canu, dawnio gwerin neu gorau.

Dymunwn yn dda i'r bobl ifanc sy'n cychwyn ar yrfa newydd mewn gwaith neu goleg yn nhymor yr hydref.

Ysgol Gynradd Llanrug

Ar ddydd lau ola'r tymor cafwyd gwasanaeth a chyflwyniad arbennig i goffáu Lowri Ann Pritchard, Trigfa, Ffordd yr Orsaf, Llanrug.

Yn ystod y gwasanaeth cyflwynwyd darllefna o goed rhosyn o waith Mr Robert Thompson. Darllenwyd englyn coffa, o waith y Prifardd Ieuan Wyn, i Lowri:

ER COF AM LOWRI ANN PRITCHARD
(ganed Ebrill 13eg, 1984)

Chwi, ffrindiau, uwch llyfrau llên — arhoswch
Na foed brys cyn darllen;
Dallwch ymyl eich dalen,
Oedwch dro i gofio'i gwên.

Gosodwyd yr englyn ar y ddarllenfa a fydd yn ganolbwynt i holl wasanaethau'r ysgol yn y dyfodol.

* * *

Fe hoffem fel ysgol longyfarch Mrs Mair Hughes ar ei swydd newydd. Bydd Mrs Hughes yn dechrau fel Prifathrawes newydd Ysgol Cwm-y-glo ym mis Medi.

Fe delmiwn oll ei cholli, — yma'n hir
Bu mwynhau ei chwmni;
Canol ein hysgol yw hi,
Mor annwyl yw Mair inni.

Ieuan Wyn

Cafodd Mrs Hughes barti ffarwelio ardderchog gan blant Blwyddyn 6. Mae hwythau hefyd yn gorffen eu cyfnod yn Ysgol Gynradd Llanrug eleni. 'Rydym yn dymuno'n dda i'r

deg ar hugain sy'n dechrau cyfnod cyffrous arall yn eu bywyd.

Mabolgampau: Cafwyd diwrnod bendigedig i fabolgampau'r ysgol, ddydd Mawrth Gorffennaf 14, haul braf drwy'r dydd a chystadlu brwd iawn rhwng y tri tî — Gruffudd, Llywelyn a Glyndŵr.

Hwyllo: Ddydd Mercher a dydd lau, Gorffennaf 15 a 16, aeth 24 o ddisgyblion Blwyddyn 6 i wneud eu tystysgrif sylfaenol mewn hwyllo ym Mhlas Menai. Cafwyd dau ddiwrnod bendigedig ar y cychod bach 'Optimist'.

Teithiau diwedd tymor: Babanod — Mrs Roberts. Aeth y babanod draw i Fferm Gwningod Llanystumdwy i gwblhau eu thema ar ffermio. Blwyddyn 1 a 2 — Draw i Sir Fôn aeth dosbarth Ms Lynch a Mrs Evans. Taith o amgylch Oriel Môn, Aberffraw a Chaergybi i olrhain hanes Branwen a Bendigeidfran.

Enillwyr Clwb Cyfeillion Ysgol Gynradd Llanrug: Mis Gorffennaf — £30: Sion Rhys Jones, Bryn Eden, Llanrug (15); £15: Gethin Jones, Teglan, 2 Tal y Bont, Llanrug (95); £10: Mair Williams, Bron Haul, Llanrug (18); £5: Mrs Beryl Thomas, Awel Deg, Nant y Glyn (67); £4: John Thomas, Gwelfor, Tan-y-coed (32). **Mis Awst** — £30: Andrea Scase, 9 Minffordd, Llanrug (61); £15: Elisabeth Jones, 37 Bro Rhyddallt, Llanrug (90); £10: P. Thomas, Glyn Ifor, Pontrug (88); £5: Lorraine Roberts, 50 Glanffynnon, Llanrug (41); £4: Gwyn Williams, Grug Wen, Ffordd Crawia, Llanrug (20).

Cydymdeimlwn yn fawr â Mrs Helen Williams a Catherine, a'r teulu oll, yn eu profedigaeth lem o golli gŵr annwyl a thad tyner, sef Mr Howell Williams, 34 Bro Rhyddallt.

Cydymdeimlir hefyd â Mrs Nan Williams, 2 Ffordd Glanffynnon a'r teulu yn dilyn marwolaeth ei gŵr Mr Gwilym Williams. Roedd Gwilym yn arddwr brwd ac yn un o ddarllenwyr selocaf Eco'r Wyddfa.

Priodas Ddiamwnt: Dymuna Mr a Mrs H. Roberts, 2 Plas Tirion Terrace, Llanrug, sydd newydd ddathlu 60 mlynedd o fywyd priodasol, ddiolch i'r teulu, cymdogion a llawer iawn o ffrindiau am y cardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniwyd. Diolch personol i Fand Arian Llanrug a Sefydliad y Merched Brynrefail am eu rhoddion. Roeddem yn falch iawn o'r meddwl y tu ôl i'r holl anrhegion ar y diwrnod arbennig hwn i ni. Derbyniwch ein diolch am bopeth.

Theatr Bara Caws
yn cyflwyno
LAWR Y LÔN
yn Neuadd Ysgol Brynrefail
nos Fercher, Medi 16
am 7.30 o'r gloch
Mynediad: £2.50, plant: £1.25

Cangen Llanrug Plaid Cymru
HANES PLAID CYMRU
Sgwrs gan O. M. Roberts, Conwy
a Dafydd Orwig, Bethesda
yn y Sefydliad Coffa
nos Fercher, Medi 30
am 7.30 o'r gloch
CROESO I BAWB

Diolchiadau:

Dymuna Mair Lloyd Huws, Glasgoed, ddiolch yn ddiffuant iawn i brifathro, llywodraethwyr, holl staff, y plant a rhieni Ysgol Gynradd Llanrug am eu caredigrwydd hynod ar ddiwedd tymor yr haf. Diolch o galon am yr holl anrhegion a blodau, pob cerdyn, llythyr a galwad ffôn gan deulu, ffrindiau a chyn-staff, rhieni a disgyblion. 'Rwy'n gwerthfawrogi'n fawr pob un ohonynt. Maent yn adlewyrchu cyfeillgarwch arbennig a dyfodd dros ddeuddeg mlynedd hynod o hapus yn yr ysgol.

Dymuna Ceri Lloyd-Hughes, Hafan, Llanrug, Gwyndaf, Alun a'u teuluoedd, ddatgan eu diolch a'u gwerthfawrogiad am bob arwydd o gydymdeimlad a fynegwyd yn ystod eu profedigaeth o golli priod, tad a thaid arbennig iawn. Diolch diffuant i'r doctoriaid a'r gweinyddesau ardal am eu gofal caredig. Trosgwyddir £250 mewn rhoddion er cof am Elwyn Lloyd Hughes i Feddygfa Llanberis.

Dymuna Rhodri Ap Llwyd, Glasgoed, ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd ar achlysur ei ben-blwydd yn 18 oed, ar Awst 27. Diolch hefyd am yr holl dymuniadau da wrth gychwyn ar ei gwrs ym Mhrifysgol Caerdydd.

Dymuna Dick, Hefina a'r hogia, 8 Rhosrug, ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y

caredigrwydd mawr a ddangoswyd tuag atynt tra roedd Dick yn Ysbyty Gwynedd, ac wedyn ar ôl iddo ddod gartref. Diolch i chwi oll.

Dymuna Megan Williams, Bron Eryri, ddiolch o galon i bawb a fu mor garedig wrthi ar achlysur ei hymddeoliad. Diolch i'r teulu a chymdogion. Diolch arbennig i Brifathro, y staff i gyd, a disgyblion Ysgol Brynrefail am eu caredigrwydd a'u dymuniadau da, heb anghofio cyn-aelodau o'r staff hefyd. Diolch yn fawr.

Dymuna Mrs Eirianwen Thomas ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad â hi yn ei phrofedigaeth ddiweddar.



John Trefor, Garej Hafod, yn cyflwyno crysau newydd tîm cyntaf Llanrug i Maldwyn Williams a Ken Jones.



Hogia tîm dan 12 Llanrug a dderbyniodd fedalau ar ddiwedd y tymor diwethaf am ddod yn ail yng Nghynghrair Gwryfai. Llongyfarchiadau iddynt ac i'w rheolwr Dafydd Arfon Jones.

EISTEDDFOD BENTREF LLANRUG

Nos Wener, 9fed Hydref am 5.30 p.m.

Noson Lân: nos Fercher, 23 Medi, 5p.m. — 9 p.m.

Derbyn Celf a Chrefft: nos Lun, Hydref 5.

Rhaglen a Rhestr Testunau ar gael yn y siopau lleol.

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A
RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 5175 77858

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

Croeso adref: Braf gweld Dylan a Ceirion Williams, Careb, a Jonathan Richardson a Siôn Roberts adref am seibiant o'r Fyddin.

18 oed: Dymuniadau gorau a phob hapusrwydd i'r dyfodol i Siôn Roberts, Tai Croesion, ar achlysur ei ben-blwydd yn 18 oed ar Awst 20fed.

Gwellhad: Derbyniodd rhai ohonoch driniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar — gobeithio eich bod wedi gwella a dymunir adferiad iechyd buan i bawb sy'n sal yn y pentref.

Priodasau: Pob hapusrwydd i Rhian a Rhys ar achlysur eu priodas ar Orffennaf 25ain; a dymunir pob bendith i Dulwyn a Fiona Green ar eu priodas hwythau yn Eglwys Cybi, Caergybi, ar Orffennaf 18fed.

Pwyllgor Neuadd: Enillwyr Clwb Cant Mehefin oedd — Wyn Griffiths, 6 Tai Arthur; J. O. Jones, 21 Bryntirion; Eifion Harding, Winllan. Tynnwyd Clwb Cant mis Gorffennaf yn Sycharth a'r enillwyr oedd — Barry Jones, Camelot; Karen Jones, Camelot; Annie Williams, Meillionydd. Tynnir Clwb Cant Awst mewn pwyllgor yn nechrau Medi.

Cydymdeimlo: Cydymdeimlir yn ddwys iawn â theulu'r ddiweddar Mrs Maggie Kaitlyn Jones, Tŷ Gwyn, Waen. Bu farw yn Inffymari Dinbych, yn 81 mlwydd oed, priod hoff y diweddar Richard Jones a mam garedig Reg a Douglas a'u priod Yvonne a Rhian; a'nain addfwyn.orga Bu'n organyddes ffyddlon yn Eglwys Santes Mair, Dinorwig, ac yna yn Eglwys Santes Helen, nes i'w hiechyd ddirywio. Bu'r angladd ddydd Sadwrn, Mehefin 27, yn Eglwys Santes Helen. Yn bresennol roedd Reg a Douglas a'u teuluoedd, nifer o'r teulu, cymdogion a ffrindiau. Gweinyddwyd gan y Parch. Glyndŵr Williams, Bangor; y Parch. Graham Lloyd, Yr Wyddgrug, a Mr Cledwyn Williams, Tŷ'r Ysgol, Llanrug.

Diolch: Dymuna Reg a Douglas ddiolch yn arbennig i Gwenda Roberth (nith), Wrecsam; Sister Jean Jones, Maes Mynan, Cartref Nyrsio, y meddygon ac i'r meddyg Watkins. Diolchir i'r Parchedigion a Mr Cledwyn Williams am wasanaethu ac i'r Mri Gwilym Jones a'i Fab, yr Ymgymerywyr, am drefnu'r angladd. Cydnabyddir y rhoddion a dderbyniwyd tuag at 'Gronfa'r Organ' yn Eglwys Santes Helen.

Diolchiadau: Dymuna Mrs Nerys Thomas, Caernarfon, ddiolch yn ddifffuant i'w holl berthnasau a chyfeillion am yr holl garedigrwydd a dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty ac wedi dychwelyd adref.

Dymuna Mrs Glenys Williams, Trem Cynfi, ddiolch i bawb am yr anrhegion a'r llu cardiau ar achlysur pen-blwydd arbennig eleni.

Ysgolion Sul: Dymuna aelodau'r Ysgolion Sul a'r rhieni ddiolch o galon i Mrs Beryl Jones am drefnu trip i Gaer ar ddechrau mis Gorffennaf. Fe orffenwyd y diwrnod ym mharadwys pob plentyn bach, sef y 'Marine Lake' yn y Rhyl. Diolchir hefyd i Mr Hoskinsons, Pant Afon, am ei haelioni unwaith eto eleni. Derbyniodd pob plentyn £1 yr un ganddo.

Ysgol Tan-y-coed: Ar ddiwedd tymor yr haf cynhaliwyd 'Sioe Noa' dros 16

ddwy noson i ddathlu'r achlysur o gau Ysgol Tan-y-coed. Deilliodd 'Sioe Noa' o wahanol themâu a astudiwyd gan y tri dosbarth ar wahanol adegau yn ystod y flwyddyn. Fel arfer fe roddodd y plant o'u gorau, ac fe gafwyd cefnogaeth dda ar y ddwy noson.

Ychydig ddyddiau cyn i'r ysgol gau am wyliau'r haf trefnwyd parti i'r plant gan y Cyfeillion. Parti arbennig iawn oedd hwn i ddathlu'r achlysur o gau'r ysgol, ac fe wahoddwyd plant yr Ysgol Feithrin. Yn ystod y parti cyflwynwyd i'r plant ynghyd a'r staff a'r holl staff ategol, 'caoster' lechen gyda llun yr ysgol a'r dyddiadau '1874-1992' arno. Yn anffodus bydd yn rhaid dychwelyd i'r hen ysgol ar ddechrau'r tymor newydd ym mis Medi, ond gobeithir symud i'r adeilad newydd yn fuan iawn wedyn.

Chwch o ddisgyblion a drosglwyddodd, pob un i Ysgol Brynrefail eleni, a dymunwn pob llwyddiant iddynt yno.

Os dymunai unrhyw un brynu 'coaster' Ysgol Tan-y-coed i gofio am yr ysgol, yna gellir eu harchebu drwy'r Prifathro am £1 yr un. Arian gyda'r archeb, os gwelwch yn dda.

Carnifal y Pentref: Am 1.30 p.m. bawn Sadwrn, Gorffennaf 11, fe arafodd y glaw a gwthiodd yr haul ei belydrau allan, dim ond am ryw hanner awr gwt a er mwyn i'r nifer fawr o gystadleuwyr brwd orymdeithio o Siop Gron i Neuadd yr Eglwys. Dymchwelodd y glaw drachefn ond roedd pawb yn sych o dan do yng nghwmni'r beirniaid, Mr a Mrs T. Jones, Modurdy Beran. Bu'n dasg anodd iddynt feirniadu'r holl eitemau a diolchir iddynt am werthfawrogi ymgais pob cystadleuydd yn yr amryw weithgareddau.

Enillydd Tlws y Carnifal oedd Mathe Phillips ac enillwyr y raffl oedd Sioned Griffith a Mrs Pat Jones.

Cynhaliwyd y mabolgampau ar Orffennaf 15, a diolchir i bawb a gynorthwyodd mewn unrhyw fodd.

Trefnwyd noson i blant y pentref ar gaeau Mr Dafydd Morris, diolchir i Mrs Carolyn Roberts a Wayne Phillips, y pêl-droediwr o fri o Gaernarfon, am ddyfarnu'r rownderi a'r pêl-droed.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i Mr a

Mrs Dafydd Morris, y beirniaid, yr arweinyddion, dyfarnwyr, Eglwys Santes Helen, y cyhoedd a'r

cystadleuwyr am wythnos garnifal lewyrchus eto eleni.



Wayne Phillips yn cyflwyno'r tlysau.




Blas y cystadlu yn yr Eisteddfod.

Am bob math o
WYDR wedi'i
DORRI, DDANFON
NEU EI OSOD.

cysylltwch â

Barrys
GLASS



Camelot,
PENISARWAUN
Ffôn: Llanberis 871144

Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

ERIC JONES

17 BRYN TIRION

PENISARWAUN

Ffôn: LLANBERIS 872421

Llongyfarchiadau: Fe ddaeth y canlyniadau!! Llongyfarchwn pawb a fu'n llwyddiannus yn yr arholiadau Lefel-A a TGAU, a dymunir pob bendith i chwi yn yr amrywiol golegau ac yn y chweched dosbarth.

Llongyfarchwn Dafydd Jones, Pant Hywel, ar gael ei ddewis i gyflwyno rhaglenni gwyddonol i blant ar y teledu. Edrychwn ymlaen am dy weld Dafydd.

Yr Ysgol Feithrin: Dymunir pob hapusrwydd i Jason, Catrin, Melanie a Nikki yn Ysgol Tan-y-coed. Edrychir ymlaen i groesawu Iona, David a Sioned at aelodau'r Ysgol Feithrin. **Eisteddfota:** Bu'n adeg prysur i nifer o aelodau o'r pentref mewn amrywiol eisteddfodau. Llongyfarchiadau i'r aelodau o Ferched y Wawr, Llanrug, am gipio'r wobwr gyntaf gyda'r Côr Deulais a'r Dawnsio Gwerin yn Eisteddfod Genedlaethol Merched y Wawr ym Mhontrhydfendigaid, ac i'r rhai sy'n aelodau o Ddawnsywr Caernarfon am gipio'r wobwr gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol Aberystwyth.

Onid yr Eisteddfod bwysicaf i ni oedd yr Eisteddfod Bentref a gynhaliwyd ar nos Wener, Mehefin 26ain yn Neuadd Eglwys Santes Helen gyda Einir Wyn Williams, Rhiwlas, a Iolo Huws-Roberts, Caeathro, yn beirniadu'r cerdd a'r adrodd, gyda Mrs Pat Jones a Mr Robin Williams yn beirniadu'r coginio a'r gwaith llaw. Y gyfeilyddes oedd Mrs Glenys Griffith, Bethel, a'r arweinyddion oedd Eifion Harding ac Arwel Jones. Diolchir yn arbennig i Mr Len Jones, llywydd y noson. Braf oedd ei weld unwaith eto.

Enillydd Tarian yr Eisteddfod, sef y Prif Lenor dan 12 oed oedd Iwan Parry, Tawelfan. Enillydd Cwpan yr Eisteddfod, sef y Prif Lenor dan 18 oed oedd Lois Dafydd, Pen Dinas Mawr. Llongyfarchiadau mawr a dalied ati.

Diolchir i bawb a gyfranodd mewn unrhyw fodd tuag at lwyddiant yr Eisteddfod.



Lois Dafydd ac Iwan Parry

Y DAITH gan Sali Mali

Lois Dafydd — Prif Lenor dan 18 oed
Cyhoeddodd y tefnwr fod y disgo wedi dod i ben ag yn amser i fy nwy ffrind a minnau ei throi hi am adref. Roeddem wedi colli'r bws diwethaf o'r dref, felly cerdded oedd yr unig ddewis ar ôl. Gan ei bod yn noson oer yn niwedd Tachwedd a'r gwynt gyda ei ddannedd cryfion yn gwasgu amdanoch, roeddwn yn dechrau difaru gwario fy arian i gyd yn y disgo. Buaswn wedi gallu ffonio mam i ddod i'n nhôl yn y car, ond roedd hi'n rhy hwyr i ddechrau pendroni dros y pethau y fuaswn wedi gallu eu gwneud.

Dechreuodd y daith hir adref. Gorweddai blanced wen o eira pur ar y lalwr a oedd yn gwlychu fy nhraed wrth i mi gerdded. Cwynai Mair ei bod wedi blino'n arw a Llinos am ei thraed. Roeddwn i yn mwynhau'r daith, gan ei bod yn gyfle anhygoel i weld y byd yn y tywyllwch. Ymhen ychydig dechreuodd y ffordd gulhau a troelli drwy goedwig drwchus. Erbyn hyn rhedai iasau i lawr fy nghefn gan fod swn tylluan yn y pellter. Wrth edrych ar wynebau fy ffrindiau roedd yn amlwg eu bod hwythau yn teimlo'n ofnus hefyd.

Gyrrodd un neu ddau o geir hebio, ond ni wnaethom fodio, gwyddom yn iawn am y bobl erchyll a allai fod y tu mewn.

Wrth gyrraedd tro yn y ffordd dywedodd Llinos ei bod yn clywed cerddoriaeth yn dod o gyfeiriad y goedwig, awgrymodd mai tŷ oedd yno. Nid oedd Mair a minnau yn cytuno, ond roedd yno swn.

Un ar ôl y llall, aethom yn nerfus i fewn i'r goedwig. Gwthiais Llinos i'r tu blaen gan mai hi glywodd y swn gyntaf. Yn y pellter roedd golau mân, a'r swn yn debycach i gerddoriaeth o wlad dramor fel India. Dechreuais feddwl fy mod yn breuddwydio, ysgydwaiss fy mhen a chau fy llygaid. Roeddwn yn gallu gweld un o'r bobl a oedd yn sefyll mewn torf o'n blaenau. Pobl? Na doedd bosib, nid pobl oedden nhw ond, Y ... Y ... YSBRYDION!!

Roedd y genethod eraill wedi sylweddoli hynny hefyd. Dyna ble'r oedd Mair yn crynu tu ôl i un o'r coed. Teimlais fy nghalon yn curo fel injan stêm a fy mhengliniau yn teimlo fel jeli. Nid tŷ oedd yno, ond math o sioe neu gyfarfod yn cael ei chynnal gan ysbrydion. Mae hyn yn swnio'n blentynaid iawn nawr, ond ysbrydion 'go iawn' oedd yno. Gwylodd y dair ohonom gan ryfeddu ar y nifer o wahanol bethau oedd

yno. Teimlais yn ddychrynlyd o ofnus wrth wyllo'r gweithgareddau ofnadwy a oedd yn digwydd o flaen ein llygaid.

Ciliodd y gerddoriaeth a ddisgynnodd distawrwydd tros bob man. A oeddynt wedi ein gweld?

Na, diolch i'r nefoedd. Edrychai pob llygaid ar ffigwr tal a oedd wedi gosod ei hun o flaen pawb. Gwisgai amwisg ddu a oedd yn cyrraedd at ei draed, cuddiai ei wyneb i gyd ond weithiau daeth fflach o olau o dy mewn i'r clogyn. Roedd y distawrwydd yn fyddarol a roeddwn yn teimlo'n annifyr fel petai rhywun yn fy ngwyllo. Buaswn wedi hoffi rhedeg i ffordd unrhyw eiliad, ond buasai unrhyw swn yn ein datgelu.

Torrwyd ar y distawrwydd gan lais tanddaearol yr arweinydd.

'Croeso i chwi gyd. Rwy'n gobeithio eich bod wedi gweithio yn galed. Eleni rydw i am ...'

Peidiodd y llais ac edrychodd o'i amgylch yn wyllt.

'Mae yna arogl rhyfedd yn yr aer. Ac nid arogl anifeiliaid ... o, na ... rydw i yn gallu arogl persawr ... ych a fi.'

Llyncais fy mhoer, pam oedd yn rhaid i mi ddwyn ychydig o bersawr drutaf mam i geisio denu hogiau'r dref? Fy nghyfle i oedd i ddweud 'o na' yn awr.

Gwaeddodd rhywun o'r dorf. 'Rydych yn dychmygu. Ddaw neb yma, fi ddewisodd y'

Roeddwn yn gobeithio y buasai'r arweinydd yn cymeryd gair yr ysbryd arall, oherwydd ni fuaswn yn hoffi dychmygu beth fuasai'n gallu digwydd i ni. Teimlais Mair yn crynu wrth fy ochr ac wrth edrych ar Llinos roedd hi'n sefyll yn geg agored fel pysgodyn aur wedi cael ei dynu allan o'i ddŵr. A oedd y diwedd wedi cyrraedd?

Edrychodd yr arweinydd o'i amgylch fel barcud.

'Pwy sy'n fy ngalw i yn gelwyddog? Pwy? Pwy? Pwy?'

Daeth ci mawr llwyd yn ei flaen, chwifiai ei flew trwchus yn y gwynt. Synnais ei fod yn gallu siarad.

'Fi', nid oedd dim yn peri ofn arno. 'Ie, fi a alwodd chi yn gelwyddog.'

'Does neb yn fy ngalw i yn hynny, ac mae'n rhaid i mi ddweud fod y llecyn yma yn ofnadwy,' taranodd yr arweinydd yn ôl.

Sgwn i beth sydd am ddigwydd iddo? oedd y cwestiwn yn fy meddwl ar y pryd, ond roedd cwestiwn arall hefyd, sgwn i beth sydd am ddigwydd i NI?

Torrwyd ar fy meddyliau gan lais dychrynlyd, 'Rydw i am dy gosbi di

yn greulon,' yr arweinydd oedd yno.

Edrychai pawb fel petai yn gwybod beth oedd y gosb. Tynnodd y gorchudd a oedd yn cuddio ei wyneb. Dechreuodd y gwynt chwythu'n ffyrnig a tharanodd swn arswydus yn fy nghlustiau. Penglog oedd ei wyneb, un gwyn llachar gyda dannedd miniog fel llew. Llosgai ei lygaid fel petai ar dân a gwreichion yn tasgu i bob man. Sylodd ar y ci a safai hwnnw yn berffaith llonydd fel delw. Dechreuodd weiddi sgrechian gan syrthio i'r llawr. Ymddangosodd ffon yn yr awyr, un hir gyda phêl ar ei blaen. Gafaelodd yr arweinydd ynddi a goleuodd y bêl. Clywyd sgrech a ffrwydriad anhygoel ... roedd y ci wedi diflannu. Llithrodd tawelwch dros y goedwig.

Taranodd yr arweinydd i'w dorri.

'Dyna beth sy'n digwydd i rai sy'n fy ngalw i yn gelwyddog. Nawr beth am yr arogl yna. Gwasgarwch a dewch yn ôl ymhen pum munud gyda'r genethod.'

Sylweddolais fy mod mewn perygl a dechreuais redeg nerth fy nhraed ar ôl Llinos a Mair. Neidiodd ysbryd o'r coed, ond rhedais drwyddo. Ni chefais brofiad fel yna o'r blaen.

O'm blaen roedd tri ci ffyrnig a oedd yn chwythu'n wyllt. Teimlais fy mhen yn chwylio o amgylch, a dechreuais deimlo'n wan. Ond ymwrolais gan ddringo coeden cyfagos. Yn y gwaelod roedd y cŵn yn crafangu rhisgyl y goeden. Dyna pryd y sylweddolais fy mod yn eistedd ar aden aderyn. Cyn i mi gael amser i droi roeddwn yn yr awyr yn hedfan!

Ymunodd pump aderyn arall gan greu cylch mawr. Gan fod yr aderyn yr oeddwn i yn eistedd arno yn dangos ei hun cymaint, ni sylweddolodd arnaf yn gollwng fy hun dros yr ochr. Gweddiais fy mod am lano mewn llwyn heb gael fy anafnu. Drwy wyrth dyna beth ddigwyddodd.

Rhedais yn wallgo hyd nes ymuno â Llinos a Mair. Wrth gyrraedd y ffordd dallwyd ni gan olau car yn ein llygaid. Pwy oedd yno ond mam.

'Rydw i wedi bod yn poeni amdanoch yn arw, dewch i mewn i'r car. Does gen i ddim syniad o ble y cawsoch y syniad i gerdded adref.'

Wrth i ni fynd i'r car daeth sgrech o'r goedwig. Crynodd mam, 'Mae'n siŵr mai anifail! gwyllt oedd yno 'chi genod'.

Onid roeddem ni yn gwybod yn iawn beth wnaeth y sgrech. Yr arweinydd wedi cael clywed ein bod ni wedi dianc ac wedi cyflawni ein taith.

**AM FFENESTRI, DRYSAU A STAFELLOEDD
HAUL UPVC, PREN CALED AC ALWMINIWM**

**FFENESTRI CELTAIDD
(CELTIC WINDOWS)**

2 TAN Y BRYN, BETHEL

- ★ Gwydro Dwbl a Sengl
- ★ Gwaith Domestig a Chontract
- ★ Gwarant 10 mlynedd
- ★ Amcangyfrif prisiau yn rhad ac am ddim

**CYMHARWCH EIN PRISIAU
CYSTADLEUOL NI CYN PRYNU!**

FFONIWCH (0286) 671181 NEU (0831) 326160



CWM-Y-GLO

Parhâd o dudalen 14

i fynychu'r Clwb bron i'r diwedd, a chafodd ofal di-flino Glenys, ei briod, a'i blant.

Yn wir, bu'r Clwb yn anffodus y tymor diwethaf, gan i ni golli Mr Russell Rowlands, un arall o'r ffyddloniaid, ac amddifadwyd ni o gwmni a geithgarwch Mr a Mrs R. H. Parry am y rhan helaethaf o'r tymor, oherwydd gwaeledd Mr Parry. Hyderwn yn fawr gael eu croesawu hwy yn ôl cyn hir.

Oherwydd hyn, mae nifer yr aelodau wedi lleihau yn ddiweddar, a gresyn fuasai colli'r Clwb. Ar wahân i ychydig wasanaethau'r Sul, dyma'r unig gyfle i rai sydd wedi ymddeol gael cwmniâeth eu gilydd,

ac mae yn aelwyd fach gynnes a hapus, a Chymreig!

Mae gan y Clwb amryw o gyfeillion da yn yr ardal, a haerant eu bod wrth eu bodd yn dod i gadw cwmni i ni. Tybed a oes ymddeolwyr eraill i 'sefyll yn y bwlch' o Gwm-y-glo?

Diolch: Dymuna Mrs Glenys Pritchard a'r teulu ddiolch o galon i'r cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad yn eu profedigaeth. Diolch hefyd am y cardiau, llythyrau a galwadau ffôn a'r rhoddion tuag at Feddygfa Llanberis.

**Cefnogwch ein
Hysbysebwy**

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Enillwyr Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn 1/7/92 — £50 (pelen eira): Mrs Catherine Williams, 6 Rallt Goch (86); £35: Mrs M. Pitts, 5 Coed y Glyn (188); £25: Lez, Gwesty Fictoria (178); £15: Mrs A. Pritchard, Madryn (39); £10: Mrs J. Thomas, 41 Dôl Elidir (112); £5: Mrs E. Jones, Dakota (47).

Ras yr Wyddfa: Llongyfarchiadau i bob un o'r canlynol a gymerodd ran yn y ras ar ddiwrnod mor ddiflas. Yn y ras genethod o dan 12 oed daeth Rachel Jones yn ail; Siân Elin Harding yn drydydd. Daeth Gareth Jones yn bedwerydd ac Alwyn Jones yn bumed yn y ras i fechgyn o dan 12 oed. Roedd Lee Hughes, Darren Owen a Chris Carr mewn safleoedd da hefyd.

Yn y ras bechgyn o dan 14 oed daeth Alun Vaughan yn gyntaf gan dorri y record, ac fe ddaeth Dafydd Williams yn bumed. Da iawn chwi i gyd.

Côr â chalon: Mae'r côr merched lleol 'Lleisiau Lliwedd' wedi cyfranu at y mudiadau canlynol yn ddiweddar — £70 i'r Clwb Methiedig; £50 i Gapel Coch a £50 i Gronfa'r Hospis yn y Cartref.

Llongyfarchiadau i Alun Vaughan am ddod yn gyntaf, o dan 16 oed, yn Ras Moel Tryfan, ar 8 Awst. Llongyfarchwn hefyd Alwyn Jones, Gareth Jones, Rachel Jones, Sera Jones ac Elin Harding a wnaeth yn dda iawn yn y ras o dan 13 oed.

Diolchiadau:

Dymuna Helen ac Elwyn Morris, Oakfield, Ffordd Capel Coch, ddiolch o galon i'w teulu, cymdogion a ffrindiau am yr holl gardiau, anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniwyd ganddynt ar dathlu eu Priodas Arian yn ddiweddar.

Dymuna Eirian Mali a staff Bron Eryri ddiolch o galon i bawb am eu cefnogaeth yn y Ffair Haf. Mae'r swm o £540 a gasglwyd yn mynd i brynu cadair wedi ei haddasu yn arbennig i'r henoed methiedig.

Dymuna Mrs Olwen Vaughan Jones, o'r Felinheli, ddiolch yn fawr iawn am garedigrwydd y casglwyr a thrigolion Llanberis at ddeillion Gwynedd. Cyfanswm y casgliad oedd £124.78 a chasglwyd fel a ganlyn — Mrs Mary Owen £10.82; Mrs Enid Jones a Mrs Lola Owen £20.84; Mrs Helen Morris £28.62; Mrs Enys Parry £64.50.

Dymuna Robin ac Eryl, 14 Stryd-y-Ffynnon, ddiolch yn fawr i'r teulu, a ffrindiau am y llu o gardiau ac anrhegion a dderbyniasant ar achlysur dathlu eu Priodas Arian yn ddiweddar. Diolch o galon i bawb.

Mabolgampau'r Ysgol: Cafwyd tywydd brad — parhaodd yn sych fodd bynnag a chawsom hwyl garw. Enillwyd y Victor Ludorum gan Gareth Jones, Safon 2, a'r Vixtrix Ludorum gan Rachel Jones, Safon 3. Llongyfarchiadau i'r ddau ohonynt, hefyd am wneud mor dda yn Ras yr Wyddfa — da iawn chi blant!

Ymdeoliad: Trist iawn oedd ffarwelio ar ddiwedd tymor yr haf â Mrs Beti Arfon Owen ein gweinyddes feithrin ar achlysur ei hymddeoliad. Bu'n ffyddlon iawn ei gwasanaeth i'r ysgol am bron chwarter canrif! Diolchwn iddi am ei sirioldeb a'i pharodrwydd cyson. Byth cwith garw ar ei hôl yn yr ysgol. Dymuniadau gorau am ymdeoliad hapus i chwi a'r teulu Bet a diolch am eich gwasanaeth diflino oddi wrthym oll yn Ysgol Dolbadarn.

Ar ddiwedd y tykmor ffarweliwyd hefyd â Mrs Delyth Jones, athrawes oedd wedi bod gyda ni drwy'r flwyddyn ysgol ddiwethaf. Dymunwn y gorau iddi yn ei swydd newydd.

Carnifal: Cawsom gyfle eto eleni i ddarparu'r lluniaeth ar gyfer y Carnifal. Er nad oedd y diwrnod gorau dan haul fe weithiodd pawb yn ddiwyd a gwnaethom elw anrhydeddus i'r ysgol. Diolch i bawb a'n cynorthwyodd am eu cefnogaeth.

Croeso: Croeso'n ôl i Mrs Jane Roberts i'r ysgol ar ôl cyfnod o secondiad am ddwy flynedd fel athrawes ymgynghorol Mathemateg. Llongyfarchiadau hefyd iddi ar ennill ei gradd B.Addysg gydag anrhydedd. Gwerthfawrogi ei hymroddiad — croeso'n ôl Jane.

Croesawn hefyd Mr Bryn Williams fel athro newydd i'r ysgol. Gobeithio y gwnaiff ymgartefu'n fuan yn ein plith.

Yr un modd croesawn Mrs Ilyd Bearman yn weinyddes feithrin newydd i'r ysgol.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR



Rhai o gystadleuwyr y Carnifal yn ymdeithio drwy'r pentref.



Genethod dosbarth ballet Llanberis ar ôl derbyn eu tystysgrif yn ddiweddar. Gwelir yn y llun — Gwawr Hughes, Nia Hughes, Ffion Hughes, Catrin Pepper, Claudia O'Donnell, Chloe Hassell ac Esther Clarke — i gyd o Lanberis.

SIOP

Nwyddau Gardd
Cynnyrch Cartref
Crefftwaith



**CANOLFAN
GARDDIO**
Blodau, Grug
Alpau, Perthi

ANTUR WAUNFAWR

Ffôn: Waunfawr 721

Cynnal a Chadw Gerddi
Cynnal a Chadw
Plannu Coed

Meinciau Concridd a Phren
Planters Concridd a Phren
Corachod



Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall.

Gallwn drefnu adloniant - disgo a.y.y.b.

Bwydlen Bar a Restaurant
Cinio Dydd Sul

CEIR CYMRU GAREJ MINFFORDD, BETHEL

Ffôn: 670451

Mae Garej Minffordd bellach yn rhan o gwmni garej teuluol sydd wedi ei sefydlu ers deugain mlynedd. Yma mae gennym weithdy trwsio, bae MOT, a gweithdy peintio ac atgyweirio cyrff ceir. Rydym yn cynnig y gwasanaeth gorau am y prisiau isaf posibl ac yn barod i roi pris ar unrhyw waith cyn ei ddechrau! Mae car benthyg i'w gael am ddim bob amser!

Yma, ac yn y Gaerwen, Môn, mae gennym y dewis gorau, a'r rhataf posib, o geir ail-law safonol. Yn ystod 1991 gwerthodd ein cwmni dros 1,000 o geir ail-law — record ymysg y goreuon. Llwyddwyd i wneud hynny am elw bychan a thrwy hysbyseb o ganmoliaeth o'r naill i'r llall (nid trwy hysbysebu drud mewn papurau newydd).

Rydym yn llwyddo i fynd o nerth i nerth ac yn eich sicrhau chwi ein cwsmeriaid na fedrwc ein curo am bris na safon.


CEIR CYMRU
CWMNI CYMREIG YN EDRYCH I'R DYFODOL

Bistro
43-45

**Stryd Fawr
LLANBERIS**
Ffôn: 871278



CROESAIR MEDI



AR DRAWS

1. Y Glyn rhwng 'trwst' a 'mwy' (6,5)
8. Ar ei ddwy droed (5)
9. Yn ôl Olwen (7)
10. Ffawd ddim o'i phlaidd (7)
11. I gadw'r meddyg draw (5)
12. I gadw'n gynnes (6)
14. Digon i'w ddweud (6)
18. 'Gwynt traed y ___' (5)
19. Gwneud imi beidio a mentro (4,3)
21. Nifer cywir o organnau'r corff (3,4)
23. An-hysbys (2,3)
24. Bachgen ---- yw Elfyn Llwyd (1,5,1,4)

I LAWR

1. Criw o ddisgyblion (7)
2. Dywed wrth yr ymladdwr am ddianc (2,5)
3. Stwcyn o geirch a'r gwynt trwyddo (2,3)
4. O leiaf ddeubeth gwahanol (6)
5. Noson cyn heno (7)
6. Y criw sydd yma (1,2)
7. Bwthyn 'rhwng cyfnos a gwawr' (5)
13. Crio -- bob yn ail yw hanes pob plentyn iach d(1,6)
15. Arwydd o'r Gwanwyn (7)
16. Dau o 'fustych tua blwydd oed' (7)
17. Eu gweithred hwy (3,3)
18. Pydru (5)
20. Geni'r wy (5)
22. Nid yma (3)

AR WERTH

SET O DDRYMAU 'Percussion Plus'


(5 drwm, 2 symbal a hi-hat)
Mewn cyflwr ardderchog.
Pris £400.
Ffôn: Caernarfon 77263

AR WERTH

MG METRO — TURBO

Y Reg. Mewn cyflwr da.
£1,100 neu'r cynnig agosaf.
Ffôn: 871259

ATEBION GORFFENNAF



I Ben Llŷn yr â'r wobwr eto; i Jean M. Hughes Jones, Llys Gwilym, Pencaerau, Rhiw. Llongyfarchiadau iddi am fod yr unig un y tro hwn gydag atebion hollol gywir. 'Roedd gan pob un ymgais arall, a derbyniwyd llawer, gydag o leiaf un gwall bychan. Fodd bynnag, gwell lwc y tro nesaf ac anfonwch atebion i Groesair Medi i sylw: Ifor G. Efans, Afon Goch, Deiniolen, erbyn 19 Medi fan bellaf.

Dyddiadur y Mis

MIS MEDI

11 Gwener. Deiniolen: Bingo yn Ystafell y Band am 8.

13 Sul. Deiniolen: Cyfarfod Pregethu Libanus (B) am 10, 2 a 6. Pregethir gan y Parch. Peter Richards

14 Llun. Bethel: Festri Cysegr am 7, Noson Gymdeithasol o dan ofal ieuencid gofalaeth Bethania, Siloam, Caeathro a'r Cysegr. Eitemau gan y bobl ifanc, paned a sgwrs. Gwneir casgliad at Apêl Brasil. Croeso i bawb.

15 Mawrth. Deiniolen: Urdd Sant Ioan — Dosbarth Cymorth Cyntaf yn ail-ddechrau, o 6.30 — 7.30. Croeso cynnes i rai o'r newydd ymuno.

16 Mercher. Llanrug: Plaid Cymru. Theatr Bara Caws yn cyflwyno 'Lawr y Lôn' yn Ysgol Brynrefail am 7. Waunfawr: Cyfarfod o'r Urdd am 6.15 yn y Ganolfan.

18 Gwener. Deiniolen: Bingo yn Ystafell y Band am 8 o'r gloch.

21 Llun. Deiniolen: Merched y Wawr. Cyfarfod Agoriadol y tymor yn y Ganolfan am 7. Croeso i bawb.

22 Mawrth. Waunfawr: Cymdeithas Addysg y Gweithwyr. Dosbarth o dan ofal y Prifardd Ieuan Wyn Jones yn yr Ysgol Gynradd am 5. Testun — Trafod Barddoniaeth. Y cyntaf o 15 cyfarfod. Croeso i bawb.

23 Mercher. Llanberis: Cyngerdd Côr Meibion Bangor yn Festri Capel Coch am 7.

25 Gwener. Deiniolen: Bingo yn Ystafell y Band am 8.

28 Llun. Deiniolen: Y Gymdeithas Lenyddol — Cyfarfod Agoriadol. Sgwrs gan Wil Sam Jones, Rhos-lan, yn y Caban am 7. Croeso cynnes i bawb.

30 Mercher. Llanrug: Plaid Cymru — Hanes Cychwyn y Blaid gan O. M. Roberts, yn y Sefydliad Coffa am 7.30. Deiniolen: Sasiwn Chwiorydd Arfon yng Nghapel Cefn-y-waun am 2.30 a 5.30.

Rhoddion

£5: Dylan a Wendy Roberts, 3 Jubilee Terrace, Y Felinheli; Mrs Mavis Williams, 1 Bro Deiniol, Deiniolen; Betty, Meira a theulu y ddiweddar Mary Ellen Hughes, 26 Rhydfadog; Mr a Mrs H. Vaughan Evans, 3 Dinorwig Terrace, Clwt-y-bont; Mrs Megan Williams, Llanrug.

£3.50: Mrs B. Owen, Pwllheli.

£3: R.J. Brynsiencyn; Robin ac Eryl, 14 Stryd y Ffynnon, Llanberis; Helen ac Elwyn Morris, Oakfield, Llanberis; Mr a Mrs D. Roberts, 10 Bryntirion, Penisarwaun.

£2: Mrs K. Williams, 8 Llys y Gwynt, Penisarwaun.

£1: Llywela Roberts, 5 Maes Eilian, Dinorwig.

Gwesty Dolbadarn LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser
Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff

E.W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI



Elin Harding, Gareth Jones a Rachel Jones — gweler y stori 'Ras yr Wyddfa a Mabolgampau'r Ysgol' yng ngholofn Llanberis ar dudalen 18.

CHWARAEON

TIMAU'R FRO AR Y BRIG?

Wedi toriad, sy'n ymddangos yn llai bob blwyddyn, ail gychwynodd y tymor pêl-droed. Gyda cyn gymaint o pêl-droed yn ymddangos ar y teledu eleni — rhwng y lloeren, BBC a gemau o'r Eidal ar S4C — efallai y byddwch yn falch o dipyn o awyr iach. Roedd arwyddion y llynedd bod cynnydd yn y nifer sy'n cefnogi pêl-droed lleol. Gobeithio y gwiredir hyn eleni. Mae ymgais ddadleuol wedi ei wneud i gyflymu'r gêm gyda'r rheol gwahardd pasio yn ôl i'r gôl-geidwad. Efallai y bydd hyn yn llwyddo ar lefel broffesiynol. Yn lleol, onid y tueddiad fydd i gicio'r bêl i'r cae nesaf — ac ar feysydd Llanrug a Deiniolen (Ysgol Brynrefail) yn enwedig gall hyn wastraffu mwy o amser nag o dan yr hen reolau. Yn sicr bydd mwy o gicio'r bêl hir i'r corneli i geisio rhoddi pwysau ar yr amddiffynwyr.

Beth yw yr argoelion yn lleol? Mae'r canlyniadau dechreuol yn ffafriol iawn.

LLANBERIS: Bu dyfalu a fuasai perfformiadau simsan y llynedd yn gwella gyda Iwan Williams yn dychwelyd fel rheolwr. Daeth rhai wynebau newydd i Ffordd Padarn ac ar ôl tair gêm mae'r Locos ymysg ceffylau blaen cynghrair Sealink. Cafwyd dwy fuddugoliaeth, yn erbyn Llanrwst a'r Felinheli, a gêm gyfartal gyda Nefyn. Yn anffodus gallai rhuthm y tîm gael ei amharu oherwydd gwaharddiadau yn deillio o gamweddau y tymor diwethaf. Bydd Iwan Evans, Terry Saynor a Jason Roberts yn absennol am dair wythnos a Cai Williams am bythefnos. Oherwydd y nifer o gemau canol wythnos bydd y tri cyntaf yn methu pum gêm, a Ceri pedair gêm. A yw'r drefn yma'n deg? Pe buasai'r gwaharddiadau ym mis Chwefror efallai mai tair gêm a fethwyd. Onid yw hi'n amser i roddi gwaharddiadau am nifer penodol o gemau yn hytrach nag wythnosau? Mae'n argoeli am dymor gwell i'r Locos beth bynnag.

DEINIOLEN: Roedd Deiniolen wedi dangos y llynedd eu bod yn meithrin tîm cryn llwyddiannus. Yn dilyn ei anaf drwg mae John Williams (gynt o Lanbêr a Llanrug) wedi dod yn reolwr newydd Deiniolen. Fel chwaraewr roedd yn benderfynol, ac yn rhoddi 100%. Rwy'n siŵr y bydd hyn yn cael ei adlewyrchu ym mherfformiadau ei dîm. Mae'n ymddangos fod rhyw hanner dwsin o dimau cymharol gryf yng nghynghrair Sain eleni, felly ni fydd gemau hawdd. Eisoedd cafwyd clincar o gêm yn Lanbêr, gyda Deiniolen yn ennill 4-3. Mae amddiffyn Deiniolen yn ymddangos yn uned dynn iawn eleni, gyda dim ond 4 gôl wedi ei sgorio yn eu herbyn mewn 5 gêm. Mae Rodney Owen (gynt o glwb Felinheli) eisoedd wedi gwneud cryn argraff trwy sgorio'n rheolaidd. Tu cefn i'r cyfan mae'r gefnogaeth arferol a'r pwyllgor diflino. Braff nodi cyfraniad hael y ddau fodurdy — Beran ac Arfon — yn rhoddi dillad y tîm. Yn ddi-os bydd yr elfen gymdeithasol yma yn gaffaeliad mawr yn ystod y tymor. Byddaf yn siomedig os na ddaw tlws neu ddau i Lanbabo eleni.

LLANRUG: Blwyddyn o newid fydd hi yn Llanrug eleni, gyda Hywyn a Dafydd yn symud i'r ochr a Maldwyn Williams yn cymeryd at yr awenau. Mae tipyn o newid o dîm y llynedd,

ac fe gymer amser i'r uned newydd asio. Dechreuwyd y tymor gyda thair gêm gyfartal, ond roedd teimlad y gellid fod wedi ennill dwy ohonynt gyda tipyn o lwc. Mae mwy o glybiau yng nghynghreiriau Gwynedd a Sain eleni, felly mwy o gemau. Gyda'r holl gwpanau, bydd gofyn am dipyn o garfanau. Efallai bydd hyn yn broblem yn Llanrug yn enwedig pan fydd eisiau chwarae dwy gêm yr un diwrnod. Un elfen galonogol yw fod rhai aelodau o'r timau ieuencid erbyn hyn yn cymeryd eu lle yn nhîm Cynghrair Sain. Bydd y datblygiad naturiol hwn yn gaffaeliad yn y tymhorau i ddod. Y mae cryn draddodiad o lwyddiant a threfn yn Llanrug yn y tymhorau diwethaf. Gyda phenderfyniad Maldwyn, gobeithio y gwelir tlws o ryw fath ar Eithin Duon ar ddiwedd y tymor. Tybiaf mai yn un o gwpanau'r gynghrair y bydd y gobaith gorau.

BYD YR ENWAI

(Fel y gwyr ein darllenwyr selog mae ein Cymdeithas Pysgota leol yn cyfranu i'n cymunedau mewn dwy ffordd. Ar wahân i'r cyfraniad amlwg o gyflwyno a datblygu cyfleostrau pysgota maent hefyd yn dwyn cryn sylw tuag at faterion sy'n ymwneud â'r amgylchfyd. Mae'r colofnau diflewyn-ar-dafod a gyflwynir yn rheolaidd yn bwysig i ni fel ardal ac fe ddylem dalu cryn sylw iddynt — ac ymateb. Dyma'r golofn arferol a gyflwynir gan ein gohebydd 'genweiriol' Huw Hughes. Golygydd)

Hyd at ddiwedd Awst siomedig iawn fu'r tymor. Y prif reswm oedd yr wythnosau o sychder gyda gwely llawer afon i'w gweld yn glir. Naturiol felly oedd i'r genweirwyr droi at lynnoedd Padarn, Cwellyn, Y Gadair a'r Dywarchen.

Ar y llynnoedd roedd cynnyrch Padarn o friithyll brown i'w canmol — ond nid felly yn nhymor '92. Yn amlwg roedd rhywbeth yn bod. Am sawl tymor bu rhai o bysgotwyr ardal Llanberis yn amau fod carthffosiaeth yn elfen bwysig yn nirywiad purdeb Llyn Padarn. Mae awgrym bod carthion heb ei drin yn arllwys i'r llyn trwy beipen ger Clwb y Lleng Brydeinig, ac yn yr un modd mae'n arllwys i afon y Bala o'r gwaith carthffosiaeth priodol. Mae'r holl fudreddi yma yn creu tyfiant lliw bwrdd biliards ar wely'r llyn. Efaith hyn yw difetha'r pysgod nid yn unig yn y llyn ond i lawr y Seiont tuag at yr aber yng Nghaernarfon. Serch y broblem mae'r torgoch wedi bachu'n foddhaol — ond yn sicr ar lefel is na'r arferol.

TLWS Y MIS

Fel arfer mae enillydd Tlws y Mis yn tynnu sylw at feysydd lleol. Bydd enillydd y Tlws y tro hwn yn bell o'i gartref yn y Waunfawr pan gyflwynir y Tlws. Wn i ddim os bu unrhyw un o fro'r Eco — ar wahân i leuan Owen — yn Olympiad erioed, ond bydd Hywel Vaughan Evans yn cyfranu'n helaeth i Olympiad eleni. Yr hyn sy'n arbennig yw mai Olympiad i'r Anabl ym Madrid fydd y dynfa. Cafodd y fraint o'i benodi yn is-reolwr tîm Prydain. Bydd oddeutu 130 o

athletwyr yn nhîm Prydain a disgwylir cystadleuwyr o 80 o wledydd i gymryd rhan. Ar wahân i fod yn deyrnged bersonol i Hywel, mae'n bluen yng nghap Antur Waunfawr. Bu pregeth Hywel yn gyson tros y blynyddoedd — bod yn rhaid rhoi lle amlwg i'r anabl ym mhob agwedd o chwaraeon, ac o fywyd yn gyffredinol. Y mae ei ymddroddiad i'r anabl dros y blynyddoedd wedi bod yn gyfraniad clodwiw, ac yn sicr wedi dylanwadu ar nifer ohonom ni. Dymunwn yn dda i Hywel yn ei waith ac ym Madrid.

CRWYDRO'R WLAD I GICIO'R BÊL



Marc, Colin a Stephen yn lifrau Port cyn gêm y tymor hyd yn hyn — Porthmadog 3, Aberystwyth 4!

Gyda balchder, mae Cymru wedi ymuno â llawer o wledydd bychain eraill Ewrop trwy gael ei chynghrair genedlaethol pêl-droed. Bydd y fenter yn siŵr o gael problemau cynnar — fel yn achos tîm Yr Wyddgrug — ond mae'n siŵr mai llwyddiant a geir. Bydd y timau llwyddiannus y tymor hwn yn cynrychioli Cymru yng Nghwpanau Ewrop ac UEFA. Gan gofio mai gwrthwynebwyr nesaf tîm cenedlaethol Cymru yng Nghwpan y Byd yw Ynysoedd y Ffaro (sy'n

debyg o ran maint i Ynys Môn) onid chwerthinllyd yw meddwl fod gwrthwynebiad i'n menter newydd. Er nad oes tîm o fro'r Eco yng nghynghrair Konica ar hyn o bryd, mae tri o chwaraewyr y fro yno. Mae Stephen Owen (gôl-geidwad), Colin Seynor a Marc Lloyd Williams yn chwarae'n rheolaidd i dîm Porthmadog. Mae Stewart Williams o Fethel yn aelod o garfan Dinas Bangor. Efallai yn ystod y tymor y cawn air ganddynt ynglŷn â'u profiadau yn crwydro'r wlad!

O'r afonydd, y Llyfni sy'n 'sgota orau. Cafwyd eogiaid hyd at 14 pwys o'i dyfroedd. Mae arwyddion fod y siwin yn ymddangos hefyd.

I orffen ar nodyn hapus — mae'r eog wedi dechrau rhedeg yn y Seiont. Llwyddodd Mr Peterson, Penisarwaun; Islwyn Jones, Llanrug a Deiniol Williams, Bethel, lwyddo i fachu pysgod hyd at 7 pwys. Bu'r ieuencid yn llwyddiannus hefyd gyda Keith Lewis, Pen-y-groes, yn ennill ei gap; a Gary Morris, Llanrug, yn curo'i daid yn dal sewin 3½ pwys ar Lyn Doctor. Ffisig da i orffen colofn, sy'n nodi llwyddiant a phleser ond sy'n cynnwys nodyn hollol ddifrifol a fydd yn rhaid ei wynebu.



Gweler hanes y morwyr hyn ar dudalen 7.